

# CTCI


Cynllun Tymor Canolig Integredig

# 2022/25



## CYFLWYNIAD

Ein cenhadaeth fel sefydliad yw gwella iechyd y boblogaeth, a, thrwy hyn, leihau'r anghydraddoldebau o ran iechyd y mae ein cymunedau'n eu wynebu. Ar hyn o bryd mae gwahaniaeth o 18 mlynedd rhwng disgwyliad oes iach o fewn ein cymunedau cyfoethocaf a'n cymunedau tlotaf - mae'r gwahaniaeth yma'n arwyddocaol iawn. Oherwydd anghydraddoldeb, mae mwy o alw ymysg ein dinasyddion am ein gwasanaethau. Yn anffodus, mae'r pandemig wedi ymestyn y bwlch, ac felly, wrth i ni edrych tua'r dair blynedd nesaf, mae'n rhaid i ni barhau i ganolbwyntio'n ddi-flino ar wella iechyd y boblogaeth er mwyn lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd.



Mae'r cynllun yma'n gosod ein uchelgais ar gyfer y dair blynedd nesaf, ac mae tair thema graidd yn sail i'r cynllun: Optimistiaeth, realaeth a chynladwyedd. Bydd optimistiaeth yn bwysig wrth i ni gamu tua'r dair blynedd nesaf; bydd yn rhaid i ni ddelio â chanlyniadau niweidiol pandemig Covid-19, bod ar ein gwylidwriaeth am donnau pellach ac amrywiolion newydd, mynd i'r afal ag ôl-groniadau o ran gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio, cefnogi pobl y mae eu cyflyrau iechyd hirdymor wedi dirywio ac, yn bwysig iawn, cefnogi ein staff blinedig wrth iddynt ailgodi yn dilyn y profiadau y maent wedi eu hwynebu. Er hyn, gallwn gynnwys optimistiaeth o fewn y cynllun yma am ein bod yn gwybod ac wedi dangos y gallwn gyflawni newid yn gyflym er mwyn gwella gofal. Mae ein dealltwriaeth o'n system yn tyfu ac mae hyn yn golygu ein bod yn gwybod ble y dylid canolbwyntio ein

hymdrechion ac yn gwybod fod sylfeini cadarn yn eu lle ar draws ein system. Rydym yn gweld cadernid newydd o ran gweithio mewn partneriaeth, cyfleusterau ac adnoddau digidol, galluogwyr ansawdd a gweithlu yn ogystal â'r awydd i weithio drwy wneud mwy o benderfyniadau mewn modd integredig.

Mae'r realaeth o fewn y cynllun hwn yn deillio o'r realaeth sydd wedi datblygu gan ein timau. Mae blaenoriaethau'r cynllun yma, yn ogystal â'r proffiliau cyflawni a osodir yn y Set Ddata Sylfaenol sy'n cefnogi'r cynllun, wedi cael eu datblygu gan dimau clinigol ar draws ein system. O ystyried maint y galw, byddai wedi bod yn ddigon hawdd i ni osod ein targedau cyflawni heriol ein hunain a disgwyl i'r timau eu cyflawni, fodd bynnag, dewisom ganolbwyntio ar ddeall y galw a chynlluniau capasiti, deall ble y mae modd i ni weithio gyda'n gilydd ar wneud gwelliannau a chefnogi timau i ddeall yr effaith y maent yn ei gael ar draws y system iechyd. Drwy wneud pethau yn y modd yma, rydym wedi datblygu cynllun sy'n uchelgeisiol ond sy'n seiliedig ar broffil cyflenwi realistig, y mae gan ein timau rheng flaen berchnogaeth drosto.

Yr elfen allweddol olaf yw cynaladwyedd. Nid adfer rhestrau aros yn y tymor byr ar draul system gynaliadwy yw diben y cynllun hwn. Gan ei fod yn gynllun tair blynedd, mae'n canolbwyntio ar gyflawni'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cynyddu capasiti cynaliadwy, cefnogi pobl yn y lleoliad gofal mwyaf addas, a chymryd camau ataliol er mwyn helpu pobl i fyw'n dda o fewn ein cymunedau. Wrth ganolbwyntio ar gynaladwyedd, gallwn greu cydbwysedd o ran gweithlu, cyllid a heriau o fewn y system. Rydym hefyd yn wynebu argyfwng hinsawdd ag ni all cynaladwyedd y gwasanaeth gofal iechyd fod ar draul cynaladwyedd yr amgylchedd. Mae'r cynllun yma'n gosod pwyslais newydd ar symud ein uchelgais o ran sero net a chynaladwyedd yn ei flaen.

Wrth galon y Strategaeth Dyfodol Clinigol mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac mae'r strategaeth yma'n gosod trywydd cadarn y sefydliad. Mae'r cynllun yma'n gosod ein uchelgais i gyflawni'r strategaeth yn ystod y dair blynedd nesaf. Rydym yn obeithiol ein bod ar y trywydd cywir o ran cyflawni. Rydym wedi llunio dull cyflawni manwl ac rydym yn hyderus y bydd ein gweithredoedd yn fodd o sicrhau cynaladwyedd er mwyn diwallu anghenion ein cymunedau.

### Adlewyrchu ar 2021/22

Maw llawer wedi ei ddyysgu ar draws y Bwrdd Iechyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Bydd hyn yn sail i'r ffordd y byddwn yn ymateb yn 2022/23. Nid y ffordd

y bu i ni ymateb i heriau uniongyrchol yr amrywiolion a oedd yn destun pryder a'r tonnau a ddaeth yn eu sgil yn unig sydd o dan sylw yma, nac ychwaith effaith mwy pellgyrhaeddol y ddwy flynedd ddiwethaf ar ein poblogaeth a'n gwasanaethau. Rydym am bwysleisio hefyd sut y mae argyfwng yn galluogi trawsnewid i ffynnu ar draws y system.


Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld galw cynyddol ar draws ein systemau gofal brys a'n systemau gofal wedi'i gynllunio, mwy o bwysau ar ofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol, yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl. Mae galw mawr o ran nifer y cleifion sy'n mynychu ein adrannau brys, pwysau sylweddol ar ofal cymdeithasol yn ogystal â lefelau uchel o absenoldeb ar draws ein gweithlu. Mae hyn oll wrth i ni geisio ail cychwyn nifer o wasanaethau dydd i ddydd er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus o ran ein capasiti.

Rydym yn falch o'r ffordd y mae ein staff wedi ymateb. Maent wedi dangos cadernid, dewrder, dynamiaeth, dyfeisgarwch a sgiliau ardderchog yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal â'r heriau aruthrol a ddaeth yn sgil Covid-19, mae ein gweithlu wedi galluogi ein system i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ac ymgorffori nifer o'r modelau dyfodol clinigol sy'n trawsnewid y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ar draws ein rhwydwaith ysbytai aciwt.


Yn ystod 2021/22:

- ✓ Gwnaethom welliannau sylweddol o ran perfformiad Gofal Brys o fewn hinsawdd heriol
- ✓ Bu i ni greu parthau llawfeddygol diogel er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau brys a hanfodol
- ✓ Ni oedd y Bwrdd Iechyd a berfformiodd orau o ran Amseroedd Aros rhwng Atgyfeiriad a Thriniaeth
- ✓ Erbyn mis Chwefror 2022, roedd dros 95% o'r boblogaeth a oedd dros 55 oed wedi derbyn eu dos cyntaf o'r frechiad Covid. 94% wedi derbyn eu hail dds, a 86% wedi derbyn eu pigiad atgyfnerthu
- ✓ Roedd gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys wedi eu sefydlu ym mhob Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell
- ✓ Bu i ni sefydlu gwasanaethau triniaeth dydd newydd
- ✓ Leihau swyddi nyrsio gwag o 85%
- ✓ Roi rhaglen Haen Sylfaen Lles Meddyliol ar waith gan gynnwys Connect 5, SPACE (datblygu un pwynt cyswllt ar gyfer plant ac oedolion ifanc) a Melo.

Mae ein **Strategaeth Dyfodol Clinigol** wedi sefyll yn gadarn ac yn berthnasol am dros ddegawd. Roedd agor Ysbyty Athrofaol y Faenor, fel rhan o'n rhwydwaith o ysbytai, yn garreg filltir anferth o ran cyflawni'r strategaeth ehangach. Mae Dyfodol Clinigol yn ymwneud â llawer mwy nag un ysbyty; mae'n ceisio gwella iechyd, cadernid a lles y boblogaeth a darparu gofal yn nes at y cartref, yn bennaf drwy wasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol a gefnogir gan rwydwaith o ysbytai.



Flwyddyn wedi agor Ysbyty Athrofaol y Faenor a symud tuag at fodel ysbyty newydd, chwe mis yn gynt na'r disgwyl ac yng nghanol pandemig, rydym yn gweld buddion o ran cynaliadwyedd gwasanaethau, cadernid a chapasiti. At hyn, mae gwelliant wedi bod o ran recriwtio staff meddygol arbenigol a nyrsys cofrestredig.



Does dim amheuaeth fod ein system wedi wynebu pwysau aruthrol a di-dor. Mae'r cleifion sydd angen gofal brys yn salach, mae staff yn addasu i'r modelau gofal newydd ac mae lleoli gwasanaethau arbenigol ochr yn ochr yn yr ysbyty newydd yn golygu newid o ran diwylliant

Wrth i 2022/23 agosáu, byddwn yn parhau i ymgorffori'r modelau gofal newydd nad oedd modd eu cyflwyno'n llawn wrth i'n system ymateb i'r pandemig. Er gwaethaf hyn, mae ein ffocws a'n prif gyfleoedd o ran creu system gynaliadwy yn ymwneud â chyflawni'r strategaeth ehangach a chryfhau ein rhwydwaith o Ysbytai Cyffredinol Lleol Gwell a darparu gofal yn nes at y cartref.

Rydym wedi ail-siapio ein Rhaglen Dyfodol Clinigol er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei brif flaenoriaethau. Y rhain, yn ôl ein dealltwriaeth o'r system, a fydd yn creu'r effaith fwyaf o ran gwella cynladwyedd ein system.


Mae'r cynllun Tair Blynedd Integredig yma'n gosod y prif flaenoriaethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod oes y cynllun. Mae'n adeiladu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni'n barod, ac mae'n rhoi'r cyfle gorau i ni o ran symud ymlaen ymhellach i gyflawni'r strategaeth wrth i ni godi ar ein traed unwaith eto yn dilyn Covid-19. Rydym hefyd wedi cymryd y cyfle i adolygu ac adlewyrchu ar y strategaeth Dyfodol Clinigol yng nghyd-desun Gwent Iachach, Fframwaith Clinigol Genedlaethol a chyfleoedd newydd posib o ran trawsnewid ac arloesi yn y cyfnod wedi'r pandemig. Bydd hyn oll yn diwygio ac yn diweddarau ein strategaeth.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** Mae nifer o yrwyr polisi ac adnoddau y gallwn eu defnyddio i'n helpu o ran y ffordd yr ydym yn bwriadu sicrhau fod cyfle person o fyw bywyd iach yr un fath dim ots ble maent yn byw, a dim ots pwy ydynt. Mae'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ddulliau ataliol. Mae Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar werth a phenderfyniadau a wneir mewn modd integredig yn rhoi'r offer sydd ei angen arnom i'n galluogi i ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys i'r unigolion a'u teuluoedd. Yn yr un modd mae'r Nod Pedwarplyg a'r Deg Egwyddor Cynllunio o fewn Cymru iachach yn rhoi pwyslais ar sicrhau llesiant.

Yn y ddogfen hon, ni fyddwch yn dod o hyd i adran ar wahân sy'n rhestru'r prosiectau yr ydym yn eu rhedeg er mwyn cefnogi'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddeddf yn ein herio i ymgorffori'r pum ffordd o weithio'n llwyr yn ein gwaith. Rydym yn rhannu ein amcanion llesiant yn llwyr gyda'n partneriaid o fewn y sector cyhoeddus, ac maent wedi eu cynnwys ym mhump Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gweinyddu dinasyddion ar draws Gwent.

Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau partner er mwyn ymgorffori'r ddeddf drwy roi pwyslais ar y cyd ar atal, lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd, gwella cymunedau a chadernid personol. Nid cyfres o brosiectau neu ddarnau penodol o waith yw ein cynllun, ond yn hytrach, dull sy'n sail i'r ffordd yr ydym yn cynllunio a darparu gwasanaethau ar draws ein system, gan ymgorffori egwyddorion cenedlaethau'r dyfodol ym mhopeth a wnawn.

Mae'r **Fframwaith Glinigol Genedlaethol** a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021 yn gosod gweledigaeth gydlynol ar gyfer datblygiad strategol, rhanbarthol a lleol gwasanaethau clinigol GIG Cymru.



Mae wedi ei selio ar ddull gydol oes o ran darparu gwasanaethau ac mae wedi ei alinio â baich y clefydau sy'n wynebu'r boblogaeth. Ei fwriad yw gwella canlyniadau a phrofiadau cleifion, cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, gwneud yr hyn sy'n bwysig i bobl drwy wneud penderfyniadau ar y cyd, a chreu gwasanaethau clinigol cynaliadwy a chadarn.

Rydym yn croesawu'r fframwaith yma ac rydym yn hyderus fod yr egwyddorion sy'n sail iddi'n cyd-fynd â'n dull o ran cynllunio a darparu gwasanaethau ar draws ein system. Byddwn yn parhau i gyfrannu ac ymgysylltu'n llawn gyda rhaglenni cenedlaethol er mwyn datblygu llwybrau gofal holistaidd, cymryd camau arloesol o ran gwasanaethau a llunio datganiadau ansawdd. Byddwn yn cymryd arweiniad gan ganlyniadau'r gwaith yma wrth i ni drawsnewid gwasanaethau'n lleol.

Mae **ein cynllun ar gyfer 2022/23** wedi ei gynllunio er mwyn cofnodi ein bwriadau craidd, rhoi eglurder o ran ein blaenoriaethau, bod yn eglur ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn delio â'r dasg hynod anodd o barhau gyda busnes 'normal' wrth i'r pandemig fynd yn ei flaen, a'r niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae Covid-19 wedi ei gael ar iechyd a lles ein poblogaeth.

Mae pawb yn deall fod yr effaith ar ein poblogaeth wedi bod yn enfawr ac mae angen i ni ganolbwyntio ar wneud y gorau o bob adnodd sydd ar gael wrth i ni geisio lleihau anghydraddoldeb cynyddol a gwella iechyd ein poblogaeth.

Mae ein staff wedi ymlâdd, ac mae angen i ni ganolbwyntio ar eu lles. Mae gofyn i staff wneud mwy er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros ac ymateb i'r her o ran adferiad yn anodd. Mae angen i ni ganolbwyntio ar sefyllfaoedd realistig a chyraeddadwy, bod yn onest gyda'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru a ni ein hunain ynglŷn â'r hyn sydd yn bosibl. Ni all un dogfen ar ei phen ei hun, gwmpasu'r holl weithgarwch sy'n digwydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Nid un dogfen yn unig sydd ynghlwm â gwaith cynllunio a dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr ag ystod o gynlluniau yn ogystal â'r atodiadau a ddaw yn ei sgil.

Mae ein cynllun wedi ei rannu'n bum rhan:

1. Ein Blaenoriaethau Sefydliadol
2. Ein Tirlun Cynllunio 2022-2025
3. Trawsnewid System Gyfan (Dyfodol Clinigol)
4. Ein Galluogwyr Craidd o ran cyflenwi
5. Ein Fframwaith Gyflenwi

## BLAENORIAETHAU SEFYDLIADOL

Mae ein ymrwymiad i Egwyddorion Amcanion Iechyd (gwneud penderfyniadau mewn modd integredig) yn sail i'n uchelgais i wella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau. Adeiladu cadernid wrth weithio gyda'n cymunedau, ymgorffori dull sy'n canolbwyntio ar y person o ran darparu gwasanaethau a chefnogi dinasyddion a'u teuluoedd i gymryd cyfrifoldeb er mwyn cyflawni'r newid sydd ei angen ar gymunedau.

Prif ganlyniad y dull yma o ran iechyd yw gallu i weithredu'n unol â priodoleddau unigolyn a'r amgylchedd sy'n galluogi person i fod neu wneud yr hyn y maent yn ei werthfawrogi ym mhob cyfnod yn eu bywyd. I faban newyddenedigol neu faban, gall gallu i weithredu amlygu ei hun drwy fwydo'n dda a chwarae; i oedolion hŷn, gallai amlygu ei hun drwy eu gallu i weithredu'n annibynnol heb orfod dibynnu ar ofal

Mae'r dull hwn yn gofyn am bolisi a strategaethau buddsoddi holistaidd, hirdymor ac ymgysylltiad sy'n hybu gwell canlyniadau iechyd ar gyfer unigolion a mwy o degwch ymysg y boblogaeth. Rydym yn hyderus y gallai iechyd a datblygiad cynaliadwy elwa'n sylweddol drwy ddefnyddio'r dull yma, a hynny drwy leihau salwch a chroniad risg drwy gydol bywyd a drwy gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd a'r economi sylfaenol.



## BLAENORIAETH 1 – MAE POB PLENTYN YN CAEL Y DECHRAU GORAU MEWN BYWYD

Rydym o'r farn fod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gael y dechrau gorau posib mewn bywyd.





**IECHYD DA YN YSTOD BEICHOGRWYDD**

- Cynnwyd yn nifer y genedigaethau i fabanod iach, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y camesgoriadau, babanod â enir yn gynnar a chyfradd genedigaethau isel



**GWASANAETHAU BYDWREIGIAETH A NEWYDDENEDIGOL**

- Hysrwyddo ac annog genedigaethau normal pan fydd hynny'n ddiogel ac ymarferol a lleihau'r genedigaethau a ysgogir a genedigaethau gesaraidd



**RHAGLEN PLANT IACH CYMRU**

- Gwell mynediad at gefnogaeth bwydo o'r fron a maetheg
- Sefydlu gweithio integredig llwyr rhwng timau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd, nrsys ysgolion a Dechrau'n Deg



**IMIWNEIDDIO PLANT**

- Mwy o blant yn cael eu brechu a gwell cydymffurfiaeth â mesurau cenedlaethol er mwyn sicrhau imiwnedd y boblogaeth

Mae pob profiad yn ystod plentyndod, gan gynnwys cyn cael eich geni, yn allweddol o ran sicrhau gwell canlyniadau iechyd, gwell dysgu, mynediad at waith da a bywyd llawn. Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth yma, byddwn yn herio arferion traddodiadol, cyflwyno ffyrdd newydd o weithio ac yn ffurfio cynghreiriau gwell gydag Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector. Rydym yn barod wedi gosod ein uchelgais i ddod yn Ranbarth Marmot gan ganolbwyntio'n bennaf ar y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn ein galluogi i alino ein adnoddau er mwyn hybu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar y teulu, addysg gyhoeddus a gwell canlyniadau i bob plentyn yn yr hirdymor.

### Lansiwyd **lachach gyda'n Gilydd** ym mis Mawrth 2021, a diben y plattform ar-lein newydd yma yw cefnogi teuluoedd drwy gamau beichiogrwydd, datblygiad iechyd plentyn yn y blynyddoedd cynnar, iechyd a llesiant plant ac oedolion ifanc. Dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae'n adnodd hunan-ofal ar gyfer teuluoedd ifanc, pobl ifanc, gweithwyr iechyd



proffesiynol a'r cyhoedd yn ardal BIPAB. Yn ogystal â darparu gwybodaeth werthfawr sy'n cynnwys gofal yn ystod beichiogrwydd, datblygiad plant a chyngor iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc, rhagwelir mai dyma fydd y lle i ddod ar gyfer rhieni a phobl ifanc sy'n chwilio am gefnogaeth, adnoddau a chanllawiau wth iddynt ddod i ddeall a chanfod eu ffordd drwy brif feysydd iechyd plant.

Mae ein cynllun tymor canolig yn nodi'r prif feysydd a fydd yn cael effaith bositif yn ystod y 1,000 cyntaf, ac rydym yn symud ymlaen gyda nifer o gamau gweithredu a mentrau a fydd yn ein galluogi i fesur ein llwyddiant. Gellir dod o hyd i grynoded o'r rhain isod:

**Bod yn iach yn ystod Beichiogrwydd** mae iechyd menyw yn holl bwysig er mwyn sicrhau fod ei babi'n iach. Mae menywod sy'n bwyta'n iach ac yn gwneud ymarfer corff yn rheolaidd yn ogystal ag yn derbyn gofal cyn-enedigol rheolaidd yn llai tebygol o wynebu cymhlethdodau yn ystod y feichiogrwydd ac maent yn fwy tebygol o roi genedigaeth i fabi iach. Bydd gwneud dewisiadau da ynglŷn â ffordd o fyd yn cael effaith uniongyrchol ar fabi. Mae'n bwysig rhoi'r gorau i ysmegu tybaco, camddefnyddio cyffuriau ac yfed alcohol yn ystod beichiogrwydd. Yn 2021/22 gweithiodd cynghorwyr rhoi'r gorau i ysmegu'n frwd gyda menywod beichiog gan lwyddo i gyrraedd cyfraddau rhoi'r orau i ysmegu uwch na cyfartaledd Cymru. Bu i ni, hefyd, dreialu gwasanaeth pwysu a arweiniwyd gan fydwragedd yng Nglyn Ebwy wrth. Bu i ni benodi Bydwraig Iechyd Cyhoeddus am nad oedd modd penodi dietegwyr yn ystod y pandemig. Mae'r peilot hwn yn rhagflaenu cyflwyno'r Llwybr Pwysau Iach Mamau sydd wedi ei gynllunio er mwyn lleihau cydafiachedd megis gorbwysedd a diabetes yn ystod beichiogrwydd ac er mwyn creu canlyniadau gwell o ran dewisiadau geni sy'n arwain at lai o enedigaethau Gesaraidd a genedigaethau a ysgogir. Mae'r prif feysydd cyflawni ar gyfer eleni'n cynnwys:

#### Safleoedd Di-fwg

Gwaharddiadau ffurfiol ar ysmegu ar holl safleoedd y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau amgylchedd di-fwg ar gyfer menywod beichiog sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

#### Cefnogaeth i roi'r gorau i ysmegu pan yn feichiog

Ymestyn cymorth i roi'r gorau i ysmegu pan yn feichiog fel rhan arferol o ofal cyn-enedigol er mwyn lleihau nifer y rheiny sy'n ysmegu tra'n feichiog, lleihau camesgorau, nifer y babanod a enir yn gynnar a phwysau geni isel.

#### Rheoli Pwysau yn ystod Beichiogrwydd

Ymestyn y llwybr pwysau iach i famau er mwyn cefnogi pob menyw feichiog sydd â BMI o dros 35. Mae'r rhaglen hon yn cynnal ymyriadau byr, cefnogaeth o ran deiet, bwyta dros yn iach dros ddau, sy'n seiliedig ar fodel Doncaster.

#### Rhaglen Addysg Cyn-enedigol

Byd ein Gwasanaeth cyn-enedigol yn parhau i ddatblygu perthnasau cryfach gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan godi negeseuon iechyd cyhoeddus drwy raglenni addysg cyn-enedigol.

Mae **Gwasanaethau Bydwreigiaeth a Newyddenedigol** yn darparu menywod gyda'r wybodaeth, sgiliau a'r cyngor i wneud dewisiadau gwybyddus o ran eu gofal. Rydym yn hyrwyddo pob opsiwn o ran geni, adref, mewn canolfannau annibynnol a arweinir gan fydwragedd, yr uned obstetreg, neu canolfan eni a arweinir gan fydwragedd sydd wedi eu cyd-leoli. Drwy roi sylw i ffactorau iechyd cyhoeddus pwysig megis bwyta'n iach, rhoi'r gorau i ysmegu, pwysigrwydd gwneud ymarfer corff, dylai iechyd cenedlaethau'r dyfodol wella a dylai ymyriadau wrth eni leihau. Yn y cyfarfod cyntaf gyda'r fydwrraig, caiff pob menyw ei chyfeirio i'r Plafform Iachach Gyda'n Gilydd'. Mae cyfoeth o wybodaeth ar y plafform er mwyn cefnogi menywod a'u teuluoedd drwy eu beichiogrwydd, yn ystod yr enedigaeth ac yn eu rôl fel rhiant.

Mae gwell trefniadau o ran sicrhau fod ymgynghorwyr ar gael i ddarparu gofal ar wardiau geni drwy gyfuno gwasanaethau obstetreg yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Mae'r ysbyty'n cefnogi tua 300 o enedigaethau obstetreg bob mis.

#### Gwasanaethau Cynaliadwy

Byddwn yn cynnal safonau staffio 'Birth-rate Plus', gan ddarparu gwasanaethau cynaliadwy o safon uchel ar gyfer menywod o fewn cymunedau a lleoliadau gofal aciwt. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i recriwtio bydwreigiaeth sydd newydd gymhwyso.

#### Llety i Rieni

Mae perthynas gref rhwng mynediad rhieni at fabanod newydd-anedig a chanlyniadau iechyd mam / baban newydd-anedig. Byddwn yn sicrhau fod rhieni'n chwarae rôl flaenllaw wrth fagu a gofalu am y baban drwy adeiladu llety arbennig ar gyfer rhieni sydd â babanod newydd-anedig. Bydd y llety'n cydymffurfio'n llawn gyda safonau cenedlaethol/'BLISS' diweddaraf.

**Rhaglen Plentyn Iach Cymru rydym** yn credu'n gryf fod gwneud cynnydd o ran nodau ac amcanion y Rhaglen Plentyn Iach Cymru'n holl allweddol i ddatblygiad

iechyd, cymdeithasol ac addysgiadol plentyn ac yn allweddol hefyd o ran gwneud y gorau o'u potensial yn y tymor hir. Mae ein ffofws o ran cyflawni eleni'n cynnwys:

Mwy o gefnogaeth ac anogaeth o ran bwydo o'r fron i famau newydd.

Mwy o bwyslais ar ofal yn nes at y cartref, gwella rôl y tîm cymunedol a chefnogi'r gwaith o reoli cyflyrau'n rhagweithiol heb fod angen ymyrraeth gan arbenigwr pediatreg pan fo hynny'n bosibl.

Sefydlu ffordd gwbl integredig o weithio rhwng gwasanaethau bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd, nyrsys ysgolion a thimau Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy sefydlu hybiau lleol.

Mwy o gefnogaeth i nyrsio iechyd cyhoeddus, a rhoi rhyddid i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd i ymestyn y 'cyfnod cefnogi' ac ymateb i broblemau megis trafferthion bwydo baban, hwyliau isel a gorbryder. Rydym wedi sefydlu tîm bwydo ymatebol er mwyn rhoi cymorth i fenywod fwydo o'r fron. Nid yw cyfraddau bwydo o'r fron mor uchel ac yr hoffem iddynt fod, rydym yn cydnabod mai diwylliant yw un o'r rhesymau, fodd bynnag un o'r prif heriau o ran bwydo o'r fron yw gordewdra ymysg y boblogaeth.

Mae **Imiwneiddio plant** yn fesur iechyd y boblogaeth effeithiol iawn, yn ail i ddŵr glan, o ran lleihau baich clefydau heintus. Mae'n fodd o warchod plant rhag clefydau a achosir gan facteria neu feirysau yn ogystal â gwarchod eraill o'u cwmpas. Ar wahân i frechiadau, yr unig ffordd o sicrhau imiwneiddio yw drwy gael y clefyd. Bydd ein Gwasanaeth Gwarchod Iechyd y Cyhoedd yn hanfodol o ran cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni imiwneiddio a brechu. Bydd ganddynt y sgiliau a'r gallu i gyrraedd ein cymunedau. Byddwn yn parhau i gyflawni ein rhaglenni imiwneiddio a brechu, ac mae'r rhain yn cynnwys:

#### Rhaglen Ffliw ar gyfer plant

Parhau i gyflawni'r rhaglen Ffliw ar gyfer plant. Mae'r rhaglen wedi ei hymestyn a bellach yn cynnwys disgyblion ysgol uwchradd. Mae'r Gwasanaeth Nyrsys Ysgolion a thîm Brechu Torfol Covid-19 yn cydweithio er mwyn cyflawni'r rhaglen estynedig yma.

#### Brechu Feirws Papiloma Dynol (HPV)

Mae HPV yn haint gyffredin iawn a drosglwyddir yn rhywiol. Gall yr haint achosi defaid gwenerol neu ganser. Caiff bechgyn yn ogystal â merched eu gwarchod rhag HPV eleni ac rydym wedi trefnu i roi dos 1 a 2, sef dros 10,000 brechiad, yn ogystal â thua 3,000 ail ddos sydd heb eu rhoi (o raglen 2020) oherwydd i'r ysgolion gau ac oherwydd absenoldebau plant. Rydym yn disgwyl y bydd staff ychwanegol yn ein galluogi i roi 5,000 brechiad ychwanegol erbyn mis Mawrth 2022.

#### Pigiad atgyfnerthu Men ACWY

Mae'r frechiad yma'n gwarchod pobl ifanc rhag pedwar math o glefydau meningococol. Caiff y frechiad ei rhoi i bobl ifanc rhwng 15 ac 19 oed gan eu bod mewn mwy o berygl nac unrhyw grŵp oedran arall ar wahân i blant o dan 5 oed. Byddwn yn rhedeg rhaglen dal i fyny o ran y brechiadau meningitis ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau er mwyn adfer y sefyllfa a grëwyd gan bandemig Covid-19.


#### Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela (MMR)

Rydym wedi llwyddo i barhau i roi'r ddos cyntaf a'r ail ddos fel rhan o raglen imiwneiddio rheolaidd plant. Byddwn yn cynnig rhaglen dal i fyny ar gyfer MMR ar gyfer y rheiny sydd wedi methu â chael y ddwy ddos yn ystod plentyndod.

**Ysbytai, Ysgolion a Caeau Chwarae di-fwg** Mae'r Rheoliadau di-fwg newydd yn gam pwysig ymlaen o ran cyrraedd ein uchelgais fod 'ein holl blant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd ddi-fwg ac yn gweld peidio ag ysmegu fel y norm'. Rydym yn mynd ati'n frwd i reoli'r newid o ran diwylliant sydd ei angen er mwyn cydymffurfio â rheoliadau cyfreithiol er mwyn cymryd camau rhesymol i atal ysmegu ar dir ysbytai. Mae ein Tîm Iechyd y Cyhoedd yn cefnogi ysgolion i ddarparu lleoliad iach ar gyfer dysgwyr a staff.

## BLAENORIAETH 2 – GWNEUD PETHAU'N IAWN ER BUDD PLANT AC OEDOLION IFANC

Mae pobl ifanc yn grŵp pwysig ac mae meithrin cenedlaethau'r dyfodol yn allweddol o ran ein cymunedau.

			
<p><b>PROFIADAU NIWEIDIOL YN YSTOD PLENTYNDOD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gostyngiad o ran niweidio iechyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol</li> <li>Gwell gwytnwch o ran lles emosiynol a iechyd meddwl</li> <li>Gostyngiad yn yr atgyfeiriadau diogelu</li> </ul>	<p><b>GWYTNWCH O RAN IECHYD MEDDWL</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell iechyd meddwl, lles emosiynol a gwytnwch ymysg plant a phobl ifanc</li> <li>Cymunedau mwy cydnerth</li> <li>Ymateb amserol gan y Timau Amlddisgyblaeth</li> </ul>	<p><b>CEFNOGI PWYSAU IACH</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwell ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar bwysau iach</li> <li>Mynediad at leoliadau agored lle mae beicio a cherdded yn weithgareddau arferol</li> <li>Mynediad at fwyd iach</li> </ul>	<p><b>LLWYBR PONTIO AR GYFER POBL IFANC 15-25 OED</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Llwybrau effeithiol glinigol sy'n addas ar gyfer yr oedran</li> <li>Ymyrraeth gynnar ar gyfer seicosis, salwch iechyd meddwl difrifol ac anhwylderau bwytia</li> </ul>

Mae tystiolaeth yn dod i'r golwg sy'n dangos fod strwythur yr ymennydd yn dal i ddatblygu, ac nad yw'n aeddfed nes mae person yn eu 20au cynnar. Mae'n dangos hefyd fod twf mwyaf dramatig yr ymennydd, ar ôl babandod, yn digwydd yn ystod blaenlecyndod. O ganlyniad, mae'r ardegau'n gyfle euraidd i weithredu er mwyn cyfnerthu ymddygiadau iach, adeiladu cadernid a sicrhau fod unigolion yn cyrraedd eu potensial. Mae plant a phobl ifanc yn cynrychioli traean poblogaeth Cymru, a bydd eu dyfodol yn ddbynnol ar eu iechyd a'u llesiant.

Mae straenachosyddion sy'n ymwneud â **Phrofiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod (ACE)** sy'n cael effaith ar dyfodol plant yn deillio, nid yn unig, o esgeulustod, ond hefyd o dyfu i fyny mewn cartrefi ble mae problemau megis trais domestig neu phroblemau o ran defnyddio alcohol a sylweddau eraill yn bodoli. Gall y canlyniadau gael effaith ar lesiant corfforol a meddyliol unigolyn yn yr hirdymor, a gall hyn, yn ei dro, bontio cenedlaethau. Felly, gall atal neu leihau effeithiau Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod wella iechyd gydol oes, gwella llesiant a chynhyrchiant unigolion yn ogystal â lleihau costau a phwysau ar y gwasanaeth iechyd.

Mae'r rheiny sy'n wynebu pedwar neu fwy ACE yn fwy agored i niweidio eu iechyd ac ymddwyn mewn modd troseddol. Felly mae systemau iechyd, cymdeithasol, cyfiawnder troseddol a systemau addysg yn debygol o weld gwell canlyniadau ymysg poblogaeth Cymru os yw ACEs yn cael eu hatal a'u lleihau. Mae wnelo effaith ACEs â phawb, ac mae atal a lleihau ACEs yn ddiben a rennir ar draws systemau'r sector cyhoeddus. Rydym, o ganlyniad, wedi datblygu cyfres o fentrau er mwyn sicrhau fod ein plant yn tyfu i fyny yn yr amgylchedd fwyaf addas a chefnogol posibl a fod modd iddynt gyrraedd eu potensial fel oedolion. Mae crynodeb o'n cynlluniau'n cynnwys: -

**Cadernid Iechyd Meddwl ymysg Plant ac Oedolion Ifanc** Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith aruthrol ar lesiant meddyliol plant ac oedolion ifanc, a gwnaed hyn yn waeth wrth i ysgolion gau dro ar ôl tro yn ystod tonnau Covid-19. Gan fod ysgolion ar agor yn llawn erbyn hyn, a chyfyngiadau'n cael eu codi'n raddol, mae'n holl bwysig manteisio ar bob cyfle i gefnogi adferiad llesiant meddyliol plant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ei 'Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol' yn ddiweddar. Roedd y dull yma o ran llesiant a lles meddyliol wrth galon y model 'iceberg' yr ydym wedi bod yn ei

roi ar waith gyda'n rhieni er mwyn sicrhau fod plant a theuluoedd yn cael yr help sydd ei angen arnynt, y tro cyntaf, ar yr amser iawn, a fod hyn yn sail i gynllunio a darparu gwasanaethau a dulliau mesur llwyddiant. Rydym yn symud oddi wrth ein model Iceberg at Fodel Cenedlaethol NYTH/NEST.

Mae gennym fecanweithiau cadarn yn eu lle ym mhob ysgol gynradd (195) ac uwchradd (35) y wladwriaeth diolch i'n timau nyrsys ysgol a rhaglenni mewngymorth i ysgolion. O fewn ysgolion, gall myfyrwyr ddefnyddio codau QR er mwyn cael mynediad at wasanaethau a threfnu sesiynau ar wahân gyda'n nyrsys ysgolion, seicolegwyr neu gynghorwyr ysgol.

Treialom y model ysgol gyfan ym Mlaenau Gwent a Thorfaen gan gefnogi cymunedau ysgolion i ddatblygu eu ffordd o feddwl o ran y dulliau ysgol gyfan ar gyfer llesiant. Eleni mae ein cynlluniau'n adlewyrchu mai un o flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a thu hwnt, yw iechyd meddwl a chydnerthedd plant ac oedolion ifanc.

#### NYTH/NEST


Rydym yn adolygu ein blaenoriaethau o ran cyflawni yng nghyd-destun asesiad o anghenion ôl-Covid-19 er mwyn ein galluogi i benderfynu ar strwythur a swyddogaethau fwy hirdymor gwasanaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl a llesiant emosiynol plant. Nid ydym yn sicr, ar hyn o bryd beth fydd canlyniad y gwaith yma, fodd bynnag, mae partneriaid wedi ymrwymo i brosesu rhaglen newid yn ystod 2022/23 er mwyn ymgorffori prif egwyddorion, gwerthoedd ac arferion sy'n gyson â Fframwaith NYTH/NEST

#### Ymgorffori ac Ehangu'r Dull Ysgol Gyfan

Bydd Seicolegwyr Addysg a Seicolegwyr Clinigol, sy'n fedrus o ran gweithio gyda sefyllfaoedd cymhleth er mwyn esgor ar newid ar lefel system, yn gweithio gyda asiantaethau partner er mwyn cefnogi newid diwylliant o ran y ffordd yr ydym yn meddwl am lesiant a iechyd meddwl pobl ifanc. Gan weithio gydag ysgolion unigol, bydd y tîm yma'n eu cynorthwyo i adnabod anghenion pobl ifanc a elwir y 'missing-middle', ac ar y cyd ag asiantaethau partner, byddant yn cynorthwyo ysgolion i gael mynediad at hyfforddiant/ymyraethau priodol er mwyn cefnogi pobl ifanc penodol a chreu amgylchedd o fewn yr ysgolion y gall pob aelod o'r gymuned ffynnu ynddi.

#### Plant sy'n Derbyn Gofal

Ar hyn o bryd mae bron i 2,000 o blant o fewn y system ofal yn ein ardal, mae tri chwarter y rhain rhwng 5 ac 18 oed. Yn Nhorfaen mae un o'r cyfraddau uchaf y pen o ran y boblogaeth o Blant Mewn Gofal yn y DU. Byddwn yn integreiddio y gwasanaeth Plant Mewn Gofal ymhellach gyda'r gwasanaeth nyrsys ysgolion er mwyn cefnogi'r cynnydd mewn galw am leoedd yn lleol ac yn genedlaethol fel eu gilydd.



#### Llwybr Niwroddatblygiadol

Ym mis Ebrill 2021 bu i ni lansio un pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau Niwroddatblygiadol. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cyfraddau atgyfeirio'n dyblu ac rydym yn rhagweld y bydd atgyfeiriadau'n parhau i gynyddu wrth i fesurau'r cyfnod clo ddod i ben. Byddwn yn parhau i ymgorffori'r llwybr gwasanaeth newydd hwn, sy'n seiliedig ar angen, ar gyfer asesu cyflyrau niwroddatblygiadol megis Anhwylder Sbectrum Awtistiaeth (ASD) ac Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd (ADHD) eleni. Un o'r heriau mwyaf yn 2022/23 fydd mynd i'r afael â'r ôl-groniad o asesiadau yn dilyn cau ysgolion. Yn ystod y cyfnod yma, nid oedd modd arsylwi mewn ysgolion ac mae hyn yn rhan allweddol o'r asesiadau.

#### Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) Llywodraeth Cymru

Mae cynigion manwl wedi eu cymeradwyo a byddant yn cael eu rhoi ar waith eleni er mwyn integreiddio CAMH/S gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Byddant yn canolbwytio ar ddarparu ymyriadau o safon uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i bobl ifanc a theuluoedd pobl ifanc sydd angen cymorth iechyd meddwl a llesiant emosiynol lefel isel i gymedrol o dan Rhan 1 y mesur IM; a'r rheiny, hefyd, sy'n wynebu anawsterau iechyd meddwl 'cymedrol i ddifrifol' o dan Rhan 2 y mesur.

#### Llwybr Ymateb Brys

Bydd Windmill Farm yn cael ei lansio yn ystod 2il Chwarter 2022/23. Bydd yn leoliad diogel / noddfa i bobl ifanc wella, am hyd at dri mis, yn dilyn argyfwng seicogymdeithasol / iechyd meddwl. Byddant yn cael eu derbyn ar sail achosion unigol, a bydd timau CAMHS yn cyfrannu'n uniongyrchol at y rhaglen therapiwtig. Mae'r dull integredig yma'n allweddol o ran darparu gwasanaeth cadarn, cynaliadwy, saith diwrnod yr wythnos.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar y cyd â gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu i oedolion ar gefnogi asesiadau 136 o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**Cymorth i gadw pwysau iach** mae'n bwysig fod plant a phobl ifanc yn gallu byw mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi i gadw pwysau iach Mae'n bwysig hefyd eu bod

yn gallu bod yn egnïol yn ein ardaloedd agored a naturiol a rennir. Cafodd cyflwyno 'r cynllun Pwysau Iach: Cymru Iach dwy flynedd: ei ddal yn ôl er mwyn ymateb i'r pandemig. Eleni rydym yn ailddyblu ein hymdrechion ac o ran cyflawni, rydym yn canolbwyntio ar:

#### Mentrau Newydd er mwyn cefnogi bwyta'n iach

- Bydd Rhaglen Gymunedol Bwyd Cynaliadwy Lefel 1 yn gweithredu trwy ddull system gyfan o fynd i'r afael â tlodi bwyd. Bydd yn cynnwys addysg a sgiliau er mwyn cefnogi deiet iach a mwy o degwch ym Mlaenau Gwent, yr Awdurdod Lleol sydd â'r lefelau uchaf o ordewdra.

#### Datblygu Llwybr Gordewdra

- Rhoi'r cynlluniau o ran y datblygiadau i lwybr gordewdra, Pwysau Iach: Cymru, ar waith.
- Bydd y Rhaglen Plant a Theuluoedd Lefel 1 yn cefnogi maethegyn ystod 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn ac yn helpu plant i gadw pwysau iach erbyn iddynt gychwyn yn yr ysgol.

#### Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta


- Datblygu a sicrhau cyllid parhaus i Wasanaeth Anhwylder Osgoi/cyfyngu ar fwyd Peditrig (AFRID) integredig
- Adolygiad Bwrdd Iechyd cyfan o wasanaethau anhwylderau bwyta gyda'r bwriad o ddylunio model sy'n canolbwyntio mwy ar adnabod anhwylderau bwyta'n gynnar ac ymyrryd.
- Darparu hyfforddiant i staff a disgyblion mewn ysgolion fel rhan o Raglen Iechyd Ysgolion Gwent.

**Llwybr pontio ar gyfer 15-25 oed** yn aml mae hwn yn gyfnod anodd iawn i blant a phobl ifanc gan fod nifer o elfennau sy'n achosi straen yn dod ynghyd. Yn gyffredinol, gall person ifanc sydd wedi bod o dan ofal gwasanaethau pediatreg am gyfnod estynedig wynebu 'storm berffaith' o amgylchiadau. Maent yn symud at lwybrau oedolion anghyfarwydd, ac ar yr un pryd, yn colli'r gefnogaeth sydd ar gael i blant gan y trydydd sector. Maent hefyd yn wynebu cyfres o heriau cymdeithasol ac economaidd yn eu bywyd ehangach ac yn wynebu'r risg o fethu â chydymffurfio â threfniadau triniaeth blaenorol. Yn aml, ystyrir y newid o lwybrau plant i lwybrau oedolion yn bwynt pontio syml rhwng un uned cyflawni gwasanaeth i'r llall, ond, mewn gwirionedd yr hyn sy'n digwydd yw pontio anghenion cymhleth unigolyn.

Mae pontio anghenion gofal yn broses aml-asiantaeth sydd â sawl ffactor yn perthyn iddi. Yn aml mae'n cwmpasu anghenion addysg, iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol (gan gynnwys y trydydd sector) yn ogystal ag anghenion


tai'r unigolyn. Ein uchelgais yw darparu a chynnal y model gorau posibl ar gyfer pontio gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

Drwy ddefnyddio'r mecanweithiau sydd gennym mewn lle gyda'n partneriaid, eleni, byddwn yn datblygu dealltwriaeth a rennir o'r gweithgareddau pontio sy'n bodoli ar gyfer pobl ifanc a byddwn yn datblygu llwybrau pontio sy'n eglur, graddol, cefnogol, hawdd i'w defnyddio ac sydd wedi'u cynllunio ar y cyd.



## BLAENORIAETH 3 – OEDOLION YNG NGWENT YN BYW’N IACH AC YN HENEIDDIO’N DDA

Rydym eisiau i’n dinasyddion fwynhau ansawdd bywyd uchel hyd at henaint. Rydym eisiau sicrhau eu bod wedi eu grymuso i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu iechyd a’u gofal, er mwyn iddynt barhau i fyw’n annibynnol.



**Gwneud y gorau o amser unigolion** roedd ein cynllun blynyddol 2021/22 yn cydnabod fod gwaith i’w wneud o hyd ar ein system er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol sy’n canolbwyntio ar werth, yn cyflawni’r hyn sy’n bwysig i bobl, yn cefnogi drwy roi cyngor ac arweiniad o safon ac yn lleihau’r ddibyniaeth ar fodelau traddodiadol o ddarparu gofal.

Cyn y pandemig, roedd ein system yn anghybtwys. Roedd ciwiau am ofal brys a gofal mewn argyfwng, roedd pwysau’r gaeaf yn ymledu fwy fwy i’r Hydref a’r Gwanwyn ac roedd hyn yn creu heriau sylweddol o ran cyflawni gwasanaethau gofal a gynlluniwyd. Dyma oedd yn nodweddiadol o’n system ers peth amser. Yn draddodiadol rydym wedi dibynnu ar fentrau rhestrau aros, allanoli a mewnloli er mwyn rheoli’r cleifion sy’n aros hiraf.

Mae ein cynllunio dynamig, a osodir yn yr adran nesaf, yn dangos yn eglur beth yw maint yr her sydd wedi cronni ers mis Mawrth 2020 ym mhob rhan o’n system. Mae nifer y cleifion sydd angen gofal brys a gofal mewn argyfwng wedi cynyddu o ran niferoedd real, ond at hyn, mae aciwtedd yr achosion hefyd yn fwy difrifol.

Mae’r galw sy’n deillio o atgyfeiriadau nas gwnaed yn ailymddangos, a bydd hyn yn parhau i ddigwydd mewn gwahanol ffyrdd ac ar adegau gwahanol ym mhob arbenigaeth. Mae’n annhebygol y bydd y sefyllfa’n sefydlogi cyn diwedd 2022/23.

## GOFAL WEDI’I GYNLLUNIO

Rydym yn croesawu’r Cynllun Adfer Gofal wedi’i Gynllunio a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn ogystal â Reset 2022 a’r amcanion y mae’n ei osod, yn benodol:

- Canolbwyntio ar y rheiny sydd â’r anghenion clinigol mwyaf yn gyntaf a chefnogi’r rheiny sy’n aros am driniaeth
- Cynyddu capasiti’r System Iechyd, a darparu gofal wedi’i gynllunio, pan fydd hynny’n bosibl, i ffwrdd oddi wrth y gwaith brys ac argyfwng er mwyn gwarchod capasiti.
- Trawsnewid gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Gwyddom fod cyfyngiadau ar adnoddau, fod ôl-groniadau a fod galw ar ofal wedi’i gynllunio o ran atgyfeiriadau sydd heb eu gwneud wedi tyfu’n sylweddol yn ystod tonnau’r pandemig. Nid oes gennym y capasiti i gwrdd â’r galw yma. Ein dyletswydd dirfawr o ran ein poblogaeth a’n clinigwyr yw gwneud y lles mwyaf a’r niwed lleiaf posibl i gymaint o bobl â phosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Gwyddom fod yn rhaid i fodelau traddodiadol o ran gwasanaethau cleifion allanol newid. Yn ystod y flwyddyn nesaf, gan fod yn rhaid i ni ail-gychwyn gwasanaethau, rydym yn meddwl yn nhermau gwerth a chynaliadwyaeth, manteisio ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod y pandemig a chreu system ofal mwy cytbwys. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar:

**Drawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol** mae’r rhan fwyaf o gyswllt gyda gofal eilaidd yn cael ei wneud mewn clinigau cleifion allanol. Gan amlaf, caiff cleifion eu hatgyfeirio gan eu Practis Meddyg Teulu am archwiliadau, profion diagnosteg, neu i dderbyn triniaeth neu adolygiadau. Cyn y pandemig, roedd y Strategaeth Genedlaethol 3 blynyddol a’r cynllun gweithredu lleol a oedd yn eu lle’n canolbwyntio ar leihau cyswllt â gwasanaethau cleifion allanol. Roedd pwyslais ar fodel gofal hunan-gyfeiriedig, mabwysiadu technoleg ddigidol a sicrhau fod y cleifion cywir yn cael mynediad at wasanaethau gofal eilaidd.


Roedd Covid-19 yn sbardun ar gyfer mabwysiadu'r newid yn gynt, gan gynnwys defnyddio atebion digidol megis gwasanaethau cleifion allanol rhithwir a defnydd eang o ddulliau cyfathrebu electroneg. Dysgom am bwysigrwydd trafod gyda cleifion a oedd wedi cael eu hatgyfeirio neu/ac oedd ar restr aros am ddiagnosis neu driniaeth ddiogel mewn cyfnod ansicr a brawychus iawn i bawb. Mae ymgorffori ac ehangu'r ffyrdd newydd yma'n allweddol o ran cyflawni gwasanaeth cynaliadwy. Gwyddom nad yw aros yn ein hunfan yn opsiwn a fod yn rhaid i ni drawsnewid gwasanaethau cleifion allanol yn sylweddol a hynny ar frys.

Caiff y cynlluniau y byddwn yn eu rhoi ar waith yn syth o ran trawsnewid gwasanaethau cleifion allanol eu gosod yn yr adran yma. Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar yr arbenigaethau rheiny sy'n peri'r pryder mwyaf.

**Ailgychwyn Gwasanaethau Cleifion Allanol**


**Nid yw aros yn ein hunfan yn opsiwn.**

Mae'n rhaid i'r system ehangu a manteisio ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn ystod Covid



**Ffocws yn y lle cyntaf**

- Optimeiddio a threfnu'r capasiti sydd ar gael (blaenoriaethau clinigol, amser ar WL, pennu lefel risg)
- Cydbwysedd o ran ymgynghoriadau rhithwir a wyneb yn wyneb
- System trefnu apwyntiadau awtomatig a sefydlu Tîm Cleifion Allanol Canolog gan greu un pwynt mynediad ar gyfer cleifion, llwybrau a dilysu



**Perchnogaeth Glinigol ac Arweinyddiaeth**

- Bydd gan bob cyfarwyddiaeth/arbenigedd Arweinydd Clinigol ar gyfer Cleifion Allanol (cefnogi datblygu a chyflawni Cynlluniau Cyflawni Cleifion Allanol Arbenigaethau)
- Cynlluniau sy'n mynd i'r afael â gwaith canser, llwybrau newydd i gefnogi SoS, PIFU, y dulliau gorau posib o ymgynghori, dulliau trawsnewidiol eraill ar gyfer eu arbenigeddau

Yn y lle cyntaf byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar Endocrin/Diabetes, Offthalmoleg, ENT, Orthopaedeg, Gastroenteroleg ac arbenigaethau yr Ên a'r Wyneb.

**Gwneud y defnydd gorau posibl o Gapasiti**

- Gwneud y gorau o gapasiti (↓apwyntiadau sy'n cael eu canslo yn yr ysbys, cyfraddau Heb Fynychu, monitor defnydd, ↑ gweithgaredd nad ydyw'n wyneb yn wyneb)
- System Trefnu Apwyntiadau Awtomatig (↓ lleihau gofod segur mewn clinigau, ail-drefnu gofod, gallu i fod yn fwy hyblyg o ran staff nyrsio)

**Ffyrdd Newydd o Weithio**

- Mwy o Sylw yn ôl Symptom (SoS), apwyntiadau dilynol sy'n cael eu trefnu gan y claf (PIFU), a rhyddhau cleifion cyn gynted â phosibl
- Cynyddu'r gwasanaeth cyngor yn unig/ cyngor arbenigol (consultant connect ar hyn o bryd) gan gynnwys brysbennu atgyfeiriadau
- Canolfan Driniaeth Un Stop yn Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell Brenhinol Gwent
- Cwmpasu Ganolfan Driniaeth Un Stop yn Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell Neuadd Nevill

**Arweiniad Clinigol / Perchnogaeth/ Risg Cleifion Allanol**

- Arweinwyr Clinigol Gwasanaethau Cleifion Allanol Cyfarwyddiaethol yn cefnogi datblygu a chyflawni Cynlluniau Cyflawni ar gyfer Gwasanaethau Cleifion Allanol (gan ystyried Gwaith Canser, trawsnewid, llwybrau newydd, modelau ymgynghori)
- Rhaglen dilysu rhestrau aros – clerigol a chlinigol (manteisio'n llawn ar ddulliau awtomatig a dilysu clinigol cynlluniau gwaith)
- Pennu lefel risg cleifion newydd (ail-werthuso'r rheiny sydd wedi bod ar restr aros am beth amser er mwyn sicrhau fod adnoddau priodol ar gyfer carfannau sy'n wynebu'r risg mwyaf.

**Cynllunio Dynamig**

- Cyfuno cynlluniau cyflawni gwasanaethau cleifion allanol arbenigaethau gyda'r Strategaeth Gwasanaethau Cleifion Allanol a chynlluniau galw/capasiti a'u defnyddio fel sail i gynllun trawsnewid 3 mlynedd a fydd yn cynnwys cerrig milltir a thargedau cyflawni eglur.
- Sicrhau fod Arbenigaethau'n rhoi cynlluniau Gwasanaethau Cleifion Allanol ar waith

**Un Pwynt Cyswllt, Cyfathrebu a Chydlynw**

- Y Tîm Cleifion Allanol Canolog fydd yr unig bwynt cyswllt ar gyfer cleifion (ymholiadau, cefnogi SoS, PIFU, diweddarau/rhoi gwybod)
- Bydd y tîm yma'n gyfrifol am gyfathrebu'n barhaus a thrafod ac ymgysylltu gyda phobl sydd ar restrau aros ar gyfer gwasanaethau

Rydym yn parhau i weithio gyda, elwa o a mabwysiadu canlyniadau'r Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio Genedlaethol a'r Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio.

Mae **diagnosteg** yn ran hanfodol o bob llwybr claf bron ac maent yn darparu'r dystiolaeth sy'n sail i bob penderfyniad clinigol. Roedd y capasiti o ran diagnosteg yn dyn cyn y pandemig hyd yn oed, a cheir tystiolaeth o hyn yng nghynlluniau gweithlu'r adran radioleg a oedd yn cefnogi agor Ysbyty Athrofaol y Faenor, ynghyd â'n cynlluniau i ailstrwythuro gwasanaethau patholeg.

Mae Covid-19 wedi gwneud sefyllfa gwasanaethau a oedd yn fregus yn barod yn fil gwaith gwaeth, yn arbennig o ran adroddiadau radioleg, capasiti'r adran endosgopi, patholeg cellog, niwroffisioleg a diagnosteg ffisioleg gardiaidd. Mae gwasanaethau yn parhau i geisio cynyddu eu capasiti er budd cleifion, fodd bynnag, mae'r ôl-groniad o ran y cleifion sydd angen cael eu gweld, ac o ganlyniad sydd angen diagnosis, yn rhoi pwysau ar wasanaethau. Ym mis Tachwedd 2021, roedd bron i 6,000 o gleifion yn aros dros 8 wythnos am fynediad at ddiagnosteg.


### Gwneud y mwyaf o gapasiti

- Caffael mewnoli endosgopi a chapasiti eco
- Cwblhau achos busnes sy'n cefnogi ehangu gwasanaethau endosgopi sy'n cydymffurfio â JAG. Byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y Brif Ystafell Gyflawni, sy'n wag ar hyn o bryd, yn Ysbyty Brenhinol Gwent (mae'n bosib y byddai'r gwasanaeth yn cefnogi Capasiti Diagnosteg Rhanbarthol)
- Nodi opsiynau o ran ehangu gofod labordy'r gwasanaeth patholeg cellog er mwyn gwella'r gwasanaeth cyfan a hwyluso cynyddu'r gweithlu er mwyn cynyddu'r capasiti a'u galluogi i ymateb i'r galw presennol (gan gynnwys delio â'r ôl-groniadau)
- Cefnogi llunio a chyflawni manyleb gwasanaeth niwroffisioleg genedlaethol

### Ffyrdd Newydd o Weithio

- Datblygu Strategaeth Endosgopi dechrau i'r diwedd ar gyfer ein system
- Cychwyn ar ymarfer cwmpasu a chynllunio ar gyfer mabwysiadu Hwbiau Diagnosteg Cymdeithasol

**Optimeiddio Llwybrau** mae ein gwaith cynllunio dynamig yn dweud wrthym fod 2% o'n poblogaeth yn defnyddio 60% o'n gwelâu ar unrhyw adeg. Yn aml mae'r Garfan Oedolion Risg-Uchel yma yn bobl sy'n ymddangos yn ein system yn dilyn cwmp, neu os oes un neu fwy o'r cyflyrau y maent yn dioddef ohonynt yn gwaethygu. Er fod nifer o'r bobl yma'n hŷn (65+ mlwydd oed), rydym yn cydnabod fod angen i'n ymateb gwmpasu pob oedolyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle gorau i fyw'n dda gyda'u cydafiachedd wrth iddynt heneiddio.



Mae angen i ni edrych eto ar sut yr ydym yn darparu gofal. Mae'n rhaid i ni greu methodoleg gadarn sy'n adnabod oedolion risg uchel ar lefel Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN)/Clwstwr a Phractis Meddygon Teulu, darparu adnoddau'n ymwneud â llwybrau iechyd sy'n cefnogi cyflawni llwybr cydafiachedd ac ymgorffori diwylliant o gefnogaeth rhagweithiol sy'n galluogi pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau a lleihau'r cyfnodau o ofal a ddarperir mewn ysbytai. Mae sicrhau ein bod yn cael y llwybr clinigol yma'n iawn yn allweddol i gynnaladwyedd

ein system yn y dyfodol, ac mae'n rhaid sicrhau ei fod yn cael ei gyd-gynllunio a'i fod yn seiliedig ar benderfyniadau sydd wedi eu gwneud mewn modd integredig.

Yn ogystal â'r llwybr cydafiachedd ar gyfer y Garfan o Oedolion Risg Uchel, byddwn yn parhau i gyflwyno ein **Llwybr Cyhyrsgerbydol** a'n **Llwybr Gofal y Llygad** er mwyn ailosod y cydbwysedd o ran gofal ar draws ein system drwy ddarparu mwy o ofal yn nes at y cartref.

### Garfan Oedolion Risg Uchel

- Dull amlasiantaeth ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen a fydd yn ehangu o gwmpasu 'bregus yn unig' i gwmpasu Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD), Diabetes, Atal Cwmpadau a Diabetes, ac arhythmia cardiaidd
- Sefydlu rhaglen waith ffurfiol er mwyn cyflawni methodoleg, creu adnoddau llwybrau a newid diwylliant er mwyn cyflwyno'r llwybr Carfan Oedolion Risg Uchel mewn modd systematig.

### Llwybr Cyhyrsgerbydol

- Rhaglen Llwybr cyfan sy'n optimeiddio ac yn gwella ein adnoddau cyfredol
- Cyflwyno gwasanaeth ffisiotherapi cymunedol
- Datblygu rhaglen waith er mwyn cefnogi adferiad dewisol a chefnogi cleifion sydd ar y rhestr aros

### Llwybr Gofal y Llygad

- Clinigau rhithwir ar gyfer gwasanaethau cataract, glawcoma a retina
- Rhoi cynllun cataract peilot ar waith


### Rhaglen Offthalmoleg Ranbarthol (De Ddwyrain Cymru)

- Hwbiau Cataract sy'n gallu delio â nifer uchel o gleifion (er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth) ac optimeiddio/sefydlogi darpariaeth asesiadau a llawdriniaethau cataract o fewn Byrddau Iechyd
- Datblygu strategaeth er mwyn cefnogi Gwasanaethau Gofal y Llygad Rhanbarthol a rhoi sylw i gynaliadwyedd is-arbenigaethau allweddol
- Sefydlogi'r gweithlu, datblygu a chyflawni cynllun hyfforddiant rhanbarthol cynhwysfawr

Bydd y llwybrau clinigol yma'n cyd fynd ag arfer gorau, argymhellion y Rhwydweithiau Clinigol a byddant yn gyson â'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol.


## SYSTEM GOFAL BYS (Gofal brys a Gofal mewn Argyfwng)

Mae gofal brys yn cwmpasu unrhyw salwch neu anaf sy'n gofyn am sylw ar frys ond nad yw'n sefyllfa sy'n peryglu bywyd. Mae'n bosib y bydd yn cynnwys nifer o wasanaethau sy'n bodoli'n barod megis ymgynghoriadau dros y ffon drwy GIG111, cyngor fferyllol, apwyntiadau gofal sylfaenol allan o oriau sy'n cael eu trefnu ar gyfer yr un diwrnod, ac atgyfeirid i ganolfan gofal brys.



Er hyn, mae cyfran uchel o bobl sydd ag anghenion gofal brys yn ymddangos o fewn gofal eilaidd ac mae ein dadansoddiad parhaus o'r galw ar draws y system yn dangos y gall anghenion nifer o'r cleifion yma gael eu diwallu'n ddiogel ac yn effeithiol mewn lleoliadau eraill. Gwyddom y gallai cydgysylltu, cynllunio a chefnogi'r boblogaeth sy'n wynebu'r risg mwyaf o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng ymhellach ymlaen gael effaith enfawr ar ein system. Mae'r rhaglen sy'n gwella ein llwybr ar gyfer y garfan o oedolion risg uchel wedi canfod fod 2% o'n poblogaeth yn llenwi 60% o'n gwela'u.

Ein uchelgais o ran ein system gofal brys a gofal mewn argyfwng yw darparu'r gofal iawn, i'r claf iawn, yn y ffordd iawn, yn y lle iawn gan y person/ personau iawn. Dyma sydd orau i'r claf, ond nid yn unig hyn, bydd manteision enfawr i weddill y system. Ar hyn o bryd mae llif gofal brys yn rhoi pwysau ar y system ac mae hyn, heb os yn cael effaith ar ein gallu i ddarparu gofal mewn argyfwng, gofal brys a gofal nad yw'n ofal brys.



Bydd ein system newydd yn ceisio symleiddio mynediad i gleifion, darparu eglurder o ran y llwybr gorau at ofal. Bydd mynediad i wasanaethau gofal brys yn cael ei ddarparu drwy

rifau cyswllt 111 a 999. Caiff hyn ei gefnogi gan ein hymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, ein tudalennau gwe a phlatformau eraill sy'n rhoi cyngor syml ac eglur i gleifion ar sut y gellir cael gafael ar ofal brys, gofal mewn argyfwng yn ogystal â hunan-ofal.

Mae tair ffrwd waith yn gyrru'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn datblygu ac ymgorffori'r model newydd, yn benodol Gofal Sylfaenol Brys/111, Canolfan Llif a Gwella Gofal mewn Argyfwng.

**Canolfan Gofal Sylfaenol Brys** mae cyflwyno'r ddwy Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys, un yn Ysbyty Brenhinol Gwent, a'r llall yn Ysbyty Neuadd Nevill, wedi golygu fod llai o gleifion sydd ag anghenion gofal sylfaenol brys yn defnyddio ein Unedau Mân Anafiadau (yng Nghasnewydd, Y Fenni, Glyn Ebwy a Ystrad Mynach) ac Adran Argyfwng Ysbyty Athrofaol y Faenor. Ar hyn o bryd caiff y canolfannau gofal eu staffio gan Feddygon Teulu, Ymarferwyr Nyrsio a Derbynwyr. Y cynllun yw datblygu'r tîm amlddisgyblaeth eleni. Mae ein dadansoddiad o'r newid yma wedi ei wneud yn seiliedig ar data a gasglwyd a gwaith cychwynnol ar alw a chapasiti. Rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda'n poblogaeth ar y fenter pennu cyfeiriad ac wedi rhannu arfer gorau ar draws Cymru.

Mae'r gwasanaeth yma wedi sicrhau fod cleifion yn cael eu gweld ar yr un diwrnod os oes ganddynt angen Gofal Sylfaenol brys, neu maent yn cael eu hail-gyfeirio at wasanaethau eraill, os yw hynny'n fwy priodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau fod mwy o ail-gyfeirio'n digwydd yn ein holl safleoedd, yn enwedig yn ein Prif Adran Argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Bydd hyn yn cael ei wneud gyda chefnogaeth staff clinigol, staff rheoli a staff anghlinigol ar draws ein system gofal brys a gofal mewn argyfwng. Ar gyfartaledd mae'r canolfannau yma'n derbyn 1,600 galwad yr wythnos. Mae cyflwyno'r Canolfannau Gofal Brys yma yn barod wedi meithrin gwell perthnasau gweithiol ar draws pob maes gwasanaeth. Mae hyn wedi creu llwybrau symlach ac wedi arwain at newidiadau system-gyfan.

Rydym wedi ceisio sefydlu 'Meddyliwch 111' er mwyn annog pobl i ddefnyddio 111 fel y pwynt cyswllt cyntaf/mynediad i Ofal Sylfaenol Brys, Adran Argyfwng ac Unedau Man Anafiadau os nad oes angen galw 999 mewn argyfwng. Diben hyn yw:



Mae nifer y galwadau a dderbynnir gan ein poblogaeth yn isel o hyd, tua 90 galwad yr wythnos.

#### Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys (CGSB)

- Cyflwyno cefnogaeth ffisiotherapi a chefnogaeth iechyd meddwl ychwanegol i dimau amlddisgyblaeth
- Datblygu llwybrau diwygiedig (thrombosis gwythiennau dwfn)
- Dadansoddiad o alw/capaciti er mwyn penderfynu â oes angen mwy o CGSB

#### Meddyliwch 111

- Goruchwyliaeth o'r rhaglen er mwyn sicrhau fod y buddion yn cael eu cyflawni'n llawn (pobl yn cael eu cyfeirio i'r lle iawn, y tro cyntaf yn ddibynnol ar eu hanghenion)
- Ymgysylltu gyda'n poblogaeth, Cynghorau Iechyd Cymuned a rhanddeiliaid eraill er mwyn cynyddu'r nifer sy'n defnyddio Meddyliwch 111 fel pwynt cyswllt cyntaf.
- Gwell adolygiad clinigol o gleifion sy'n aros mewn stac os mai ymateb gofal sylfaenol sydd ei angen

**Canolfan Llif**, Mae'r ganolfan Llif yn elfen ganolog o'n system gofal brys ddiwygiedig. Mae'n yn bwynt cyswllt canolog sy'n optimeiddio llif cleifion a sicrhau fod trefniadau cludiant priodol yn cael eu gwneud er mwyn cefnogi cleifion ar draws y system ysbytai o ran derbyniadau, cludiant rhwng safleoedd a chludiant wrth i glaf gael ei ryddhau o'r ysbyty. Mae hyn wedi ei alinio gyda Llif system gyfan. Sefydlwyd y ganolfan llif yn y lle cyntaf fel gwasanaeth ffrydio cyn-ysbyty, a bydd nawr yn cael ei datblygu i gynnwys ail-gyfeirio cleifion at ofal sylfaenol a gofal cymunedol a bydd yn dod yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer atgyfeiriadau gofal brys sydd angen sylw yr un diwrnod. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy wella'r gweithlu amlddisgyblaeth a rhoi meddalwedd casglu data cadarn ar waith mewn modd trylwyr. Mae meysydd cyflawni allweddol yn 2022/23 yn cynnwys: -

#### Datblygu Llwybrau

- Datblygu, cyflwyno ac ymgorffori llwybrau newydd
- Triniaeth Dydd ar gyfer symptomau Anadlol
- Triniaeth Dydd Gastroenteroleg

- Datblygu llwybrau diwygiedig (thrombosis gwythiennau dwfn)
- Llwybrau Prysus e.e eiddilwch, poenau brest, man anafiadau

**Canolfan Llif** – Ymgorffori canolfan llif fel gwasanaeth craidd a datblygu a chyflwyno llwybrau derbyn yn uniongyrchol ar draws y rhwydwaith ysbytai a'r system ehangach.

**Gwelliannau i Ofal mewn Argyfwng** mae nifer enfawr o bobl yn ymddangos o fewn gofal eilaidd gydag anghenion brys. Drwy'r gwaith yr ydym yn ein wneud ar y ganolfan llif, rydym yn ceisio ffrydio cleifion i'r lle cywir ar yr amser iawn. Mae ein Gwaith Gwella Gofal mewn Argyfwng yn ceisio gwella perfformiad y system drwy:

- ddatblygu a chyflwyno ystod o lwybrau triniaeth dydd amgen drwy ddefnyddio ein rhwydwaith ysbytai gwell er mwyn lleihau tagfeydd a gwella'r llif drwy ein Adran Argyfwng yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.
- datblygu drws ffrynt integredig ar draws ein rhwydwaith ysbytai aciwt (Gofal Sylfaenol Brys, Man Anafiadau, Gwasanaethau Triniaeth Dydd, Unedau Henoed Eiddil) gan ehangu ein cynnig i gleifion yn nes at y cartref.
- creu Uned Gofal mewn Argyfwng ar yr un Diwrnod yn Ysbyty Athrofaol y Faenor
- parhau i ddilyn proses wella yn ein Adran Argyfwng
- gwella prosesau rhyddhau cleifion a sicrhau ein bod yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a'r Trydydd Sector


Mae osgoi cyflwyno cleifion i'r ysbyty a rhyddhau cleifion yn brydlon yn elfen allweddol o ran sicrhau llif effeithiol ymysg cleifion ac optimeiddio'r capaciti sydd ar gael er mwyn ymateb i'r galw. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i raglen waith benodol sy'n gwella'r amser y mae cleifion yn aros yn yr ysbyty, lleihau'r amser y mae cleifion yn ei dreulio i ffwrdd o'r cartref a lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu gadael yn ddiymgeledd. Rydym yn gweithio gyda'r Uned Gyflawni ar hyn.

#### CEFNOGI OEDOLION OEDRAN GWAITH I FYW'N IACH A HENEIDDIO'N DDA

Gwyddom fod anghydraddoldebau'n bodoli rhwng ein cymunedau mwyaf breintiedig a'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Gwyddom, hefyd, fod cyfran fawr o'r baich o ran clefydau a marwolaeth cynamserol ymysg y boblogaeth yn ymwneud â chlefyd cardiofasgwlaidd, anhwylderau cyhyrsgerbydol, canser,

anhwylderau iechyd meddwl a chlefyd anadlol. Gellir priodoli datblygiad canran uchel o'r cyflirau yma i ffactorau risg y gellir eu hatal gan gynnwys ysmegu, diet nad yw'n iach a diffyg gweithgarwch corfforol.

Yn ôl adroddiadau, yn gyffredinol, mae'r gwahaniaeth o ran ymddygiadau allweddol ymhlith oedolion ar draws Gwent o ran ffactorau risg y gellir eu hosgoi yn egluro, i raddau helaeth, pa mor hir y mae bobl yn byw'n iach a pha mor hir y maent yn byw. Yn gyffredinol, mae pobl sy'n byw mewn cymunedau dan anfantais yn ymddwyn mewn mwy o ffyrdd nad ydynt yn iach. Dyma'r cymunedau, hefyd sydd wedi eu heffeithio'n anghymesur gan Covid-19. Maent wedi gweld cynnydd mewn nifer o ffactorau risg a straenachosyddion sy'n andwyo iechyd.



Rydym yn sefydliad iechyd y boblogaeth, mae lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth wrth galon popeth a wnawn. Mae ein uchelgais tymor hir i leihau'r galw am ofal iechyd yn allweddol o ran cynaladwyedd ein system ofal. Dim ond drwy wneud ymyraethau systematig, ar raddfa'r boblogaeth y gellir cyflawni hyn. Mae angen iddynt dargedu gwraidd isorweddol salwch, megis dewisiadau o ran ffordd o fyw, amddifadedd economaidd-gymdeithasol, manteisio ar sgrinio er mwyn canfod salwch yn gynt ac optimeiddio'r driniaeth.

Er i'r Bwrdd Iechyd gamu i mewn i 2021-22 gydag amcanion uchelgeisiol i leihau anghydraddoldebau iechyd, cychwynnom y flwyddyn, hefyd, o dan gwmwl pandemig Covid-19 a oedd yn parhau i ddatblygu. O ganlyniad, gohiriwyd nifer o weithgareddau a oedd ar y gweill megis Byw yn Dda, Byw'n Hirach, wrth i wasanaethau ymateb i sefyllfa a oedd yn gwaethygu. Iechyd y boblogaeth oedd y flaenoriaeth, a dyma'r flaenoriaeth o hyd. Roedd rhaglenni megis rhoi'r gorau i ysmegu, rheoli pwysau, blynyddoedd cynnar a lles meddyliol yn parhau i redeg.

Mae cydnabyddiaeth a chorff cynyddol o dystiolaeth yn dangos fod anghydraddoldebau iechyd ar gynnydd yng Nghymru cyn y pandemig, a'u bod wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. Mae pobl o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yn cael eu heffeithio yn anghymesur gan straenachosyddion allweddol sy'n cael effaith negyddol ar iechyd a lles. Drwy ein partneriaeth G10 rydym wedi cytuno mai'r cam nesaf i'w gymryd tuag at gyrraedd 'Gwent Iachach' fydd cyflawni cyfres o amcanion strategol tymor byr, tymor canolig a hir dymor ar y cyd er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd ym mhob cwr o Went.

Ein uchelgais yw bod yn Ranbarth Marmot, sy'n mynd y tu hwnt i sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n cefnogi newidiadau o ran ffordd o fyw a mynd i'r afael â'r hyn sy'n andwyo i iechyd, gan ganolbwyntio, yn y lle cyntaf ar flynyddoedd cynnar a phobl ifanc - carfan o'n poblogaeth y mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol arnynt.

Rydym yn ceisio mabwysiadu cyfres o ddangosyddion a fydd yn monitro ein cynnydd, herio ein cydymffurfiaeth, tynnu sylw at y materion pwysicaf a, gyda'u gilydd, leihau anghydraddoldebau iechyd. Byddwn yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar sicrhau fod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Yn y tymor byr a chanolig (2-5 mlynedd), mae'n rhaid i'n amcanion o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd, ganolbwyntio ar fesurau sy'n trawsnewid ein system a lleihau anghydraddoldebau o ran manteisio ar ymyriadau gofal iechyd ataliol. Yn yr hirdymor (10 mlynedd) bydd ein uchelgais yn cael ei ddisgrifio yn nhermau mesurau sy'n mesur y canlyniad i'r boblogaeth.

Mae Rhwydweithiau Llesiant Integredig (IWN) wrth galon ein cynlluniau. Maent yn darparu'r fframwaith sydd ei hangen er mwyn cefnogi sefydlu systemau llesiant integredig, seiliedig ar leoliad ar draws pob un o'r 11 Rhwydwaith Gofal yn y Gymuned yng Ngwent. Nid ymwneud â chreu mwy o wasanaethau er mwyn datrys problemau yw diben yr IWN, yn hytrach, maent yn manteisio ar y hyn sydd ar gael yn barod yn lleol a dod â chryfderau a rhinweddau unigryw unigolion a chymunedau ynghyd. Rydym eisiau i bobl ddod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei angen

**YR UCHELGAIS AR GYFER GWENT** 2030

Yn 2030 bydd y llyfdd yr ydym yn byw, gweithio, dysgu a chwarae ynddynt yn ei gwneud yn haws i bobl o fewn ein cymunedau fyw bywydau iach a llawn.

Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn byw mewn amgylchedd di-ffwg ac yn credu mai'r norm yw peidio ag ysmegu. Bydd mwy o'n plant a'n pobl ifanc yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi cadw gwysau iach. Bydd genym gymunedau llewyrchus, cysylltiedig a bydd yn welli gan bobl deithio drwy gerdded a beicio. Bydd teuluoedd a phlant yn egniol yn ein mannau agored a rennir ac yn gwneud y gorau o'n amgylchedd naturiol helaeth.

Byddwn yn byw, dysgu ac yn gweithio mewn cymunedau cadarn, chefnogol a chydnerth – real a rithwir. Byddwn yn cymryd camau ar y cyd i wella lles meddyliol am ein bod yn deall nad oes iechyd heb iechyd meddwl da.

Bydd pob partner yn canolbwyntio eu hymdrechion ar y cyd ar y prif agweddau sy'n creu mwy o degwch, a byddwn yn cychwyn gweld mwy o degwch o ran penderfyniadau iechyd. Bydd Adeiladu Gwent Iachach wrth galon popeth a wnawn.

arnynt er mwyn aros yn iach o fewn eu cymunedau, pan fydd hynny'n bosibl. Bydd hyn yn lleihau'r angen i gael gafael ar gymorth o fewn y system iechyd.

Bydd yr IWNS yma'n cefnogi Datblygiad Clwstwr Carlam wrth i ni edrych ar y lefel fwyaf priodol (ymarfer, NCN, clystyrau cyfan, Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd cyfan) er mwyn darparu gofal a chefnogi ein dinasyddion. Byddwn yn cyfrannu at greu cymunedau iach drwy:


<p><b>Hybu lles y gweithlu ym mhob cwr o Went (Sector Cyhoeddus a thu hwnt)</b> Byddwn yn sicrhau fod y gweithlu yn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymwybodol o beryglon ysmegu a sicrhau fod ganddynt fynediad at wasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmegu</li> <li>• Cael eu cefnogi o ran teithio llesol</li> <li>• Cael mynediad at raglenni iechyd a lles gweithlu holistig</li> </ul>
<p><b>Cryfhau lles a chydnerthedd cymunedol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o gyd-weithio gydag asiantaethau a chymunedau er mwyn cryfhau asedau cymunedau o ran llesiant (pobl, llefydd a chyflawni)</li> <li>• Gellir cael mynediad rhwydd at wybodaeth ar asedau a chefnogaeth o ran lles, a gellir cael gafael ar y wybodaeth dan sylw mewn modd amserol</li> <li>• Mae'r rheiny sy'n gweithio o fewn cymunedau'n gweld lles fel rhan bwysig o'u swydd ac maent yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau sy'n eu galluogi i gyfeirio pobl a chefnogi newid mewn ymddygiad</li> </ul>
<p><b>Gwella lles meddyliol y boblogaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella'r ymwybyddiaeth ynghylch hunan-gymorth a gwella'r mynediad ato drwy integreiddio a thynnu sylw at wasanaethau sy'n adeiladu cadernid yn wyneb straen a sefydlu asedau o fewn y gymuned</li> <li>• Cynyddu hyder, gwybodaeth a sgiliau'r gweithlu lles er mwyn eu galluogi i ymateb i ofid meddyliol a chefnogi lles meddyliol da</li> </ul>

Mae Covid-19 wedi cynyddu maint yr her. Yn ei sgil rydym wedi etifeddu galw heb ei atgyfeirio, iechyd sy'n gwaethygu ymysg ein cleifion mwyaf bregus ac amseroedd aros hirach cyn cael mynediad at wasanaethau. Mae hyn oll yn ei gwneud hi'n holl bwysig ein bod yn ailddyblu ein hymdrechion a chefnogi pobl i gynnal ac optimeiddio eu iechyd a'u lles yn ystod y cyfnod estynedig y maent yn ei aros am ymyrraeth.



## Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion

Rydym yn cefnogi dull sy'n seiliedig ar hawliau sy'n hybu'r model adfer yn benodol drwy rymuso a chynnwys defnyddwyr gwasanaeth gydol eu hoes. Mae gan ein gwasanaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu hanes hir o ddarparu gwasanaethau cadarn sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac mae ganddynt rwydwaith aeddfed o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol ar draws ein cymunedau a gefnogir gan wasanaethau cleifion preswyl arbenigol lleol. Mae ein gwasanaethau yn cael eu cyflawni gan dimau amlddisgyblaeth mewn cydweithrediad â'r cyhoedd a phartneriaid trydydd sector.



Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar iechyd a lles meddyliol poblogaeth Cymru (Arolwg Llesiant Cymru 2020/21). Mae astudiaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Ganolfan Iechyd Meddwl (adroddiad 2021) yn rhagweld y bydd galw dair gwaith yn uwch na'r capasiti sydd ar gael yn ystod y dair i bum mlynedd nesaf. Mae'r adroddiad yn rhagweld y byddwn yn gweld cynnydd aruthrol mewn cyflyrau megis gorbryder difrifol ac iselder ac y bydd effaith anghymesur ar unigolion sydd â chyflyrau ie chyd meddwl yn barod. Hyd yn oed os mai ffraciwn yn unig o'r hyn â ragwelir fydd y gwir alw, mae hyn yn golygu fod y gwasanaeth iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n wynebu her enfawr o ran cynyddu capasiti'r gwasanaeth er mwyn diwallu'r galw newydd yma, a hynny mewn cyfnod ble mae ôl-groniadau ar gyfer rhai gwasanaethau, a oedd yn bodoli cyn y pandemig, wedi codi'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl yn cynyddu'n sylweddol iawn ac mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi pobl yn gynt o fewn eu cymunedau fel modd o atal argyfwng a gwella.

### Penawdau

- 9,200 o bobl ar restr aros
- 4,600 yn aros am wasanaethau gofal sylfaenol neu wasanaethau iechyd meddwl i oedolion
- Cyfartaledd diwrnodau cyn y cyswllt cyntaf wedi cynyddu o 4 diwrnod (29- 33 diwrnod)
- Aciwtedd cleifion yn cynyddu
- Derbyniadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gynydd

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu adnoddau o fewn y gymuned i gynorthwyo unigolion i wneud mwy i gefnogi eu iechyd meddwl a'u lles eu hunain. Er hyn, mae'n anodd, ar brydiau, cael mynediad at wasanaethau ac mae'n rhaid i

ni ddod o hyd i ffyrdd i'w gwneud yn haws i bobl gael mynediad at wasanaethau pan mae angen iddynt wneud hynny, gan sicrhau fod digon o gapasiti i ddiwallu'r galw bob cam o'r ffordd. Rydym yn parhau i wynebu heriau o ran y gweithlu, bydd dod o hyd i ffyrdd o ddenu a chadw staff sydd â'r sgiliau cywir yn allweddol o ran sicrhau gwasanaeth cynaliadwy. Mae darparu'r amgylchedd iawn er mwyn galluogi ein cleifion a'n staff i deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n allweddol. Gwyddom nad yw nifer o'n adeiladau bellach yn bwrpasol, ac mae'n hanfodol fod gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu darparu mewn amgylchedd fodern a phwrpasol.

Mae'r pandemig hefyd wedi cynnig cyfleoedd i ddatblygu ffyrdd newydd o ddarparu ein gwasanaethau a hynny drwy ddefnyddio technoleg. Mae angen i ni ddatblygu ac ymgorffori'r rhain er mwyn rhoi mwy o ddewis i'n cleifion. Wrth i ni gamu allan o'r pandemig, mae ein gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'n gobeithio darparu gwasanaethau cynaliadwy, diogel, o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar y person mewn modd amserol ac ymatebol. Bydd hyn yn hybu ac yn galluogi pobl Gwent i fod yn annibynnol, i wella ac i gael ansawdd bywyd gwell. Mae cydrannau allweddol 2022/23 yn cynnwys:

Mae **Gwella Iechyd a Lles Cymunedau'n** cynorthwyo unigolion i sylweddoli beth yw eu llawn botensial, ymdopi â heriau bywyd, gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu at fywyd teuluol a chymunedau.

<p><b>Codi ymwybyddiaeth</b> –Ymgyrch barhaus sy'n codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael, wedi ei thargedu at grwpiau/pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ran iechyd a lles gwael.</p>	<p><b>Adnoddau Deall y Gymuned a Hunan-Gymorth Effeithiol</b> – <u>Melo Cymru</u>; Technoleg ddigidol; rhwydweithiau llesiant integredig; gwasanaethau sector gwirfoddol; Noddfa; Llinellau Cymorth Cenedlaethol</p>
<p><b>Gwefan wedi ei brandio y gellir ymddiried ynddi</b> –Datblygu gwefan wedi'i brandio y gellir ymddiried ynddi sydd â'r wybodaeth ddiweddaraf ac adnoddau sy'n cyfeirio at gymorth lleol.</p>	<p><b>Model Hyfforddi Cynaliadwy</b> –Sefydlu Hwb Hyfforddiant Connect 5 Gwent i gynorthwyo staff rheng flaen i deimlo'n hyderus wrth siarad am iechyd meddwl a lles a'u galluogi i gefnogi a chyfeirio pobl at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.</p>

**Gofal yn Nes at y Cartref** rydym yn ymrwymedig i sicrhau fod pob cymuned ym mhob cwr o Went yn cael mynediad at ofal modern, o safon uchel sy'n cael ei

ddarparu mor agos at y cartref â phosibl. Gwyddom fod y ddarpariaeth a mynediad at gymorth iechyd meddwl gofal sylfaenol yn amrywio o fewn Gwent, a fod ôl-groniad sylweddol yn bodoli sydd wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Byddwn yn ceisio gwella'r gofal drwy symud at fodel sy'n seiliedig ar hwb a fydd yn cefnogi grŵp o bractisiau Meddygon Teulu. Bydd ystod lawn o therapiau ar gyfer unigolion a grwpiau ar gael drwy'r hwbiau yma. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y mynediad at asesiadau a thimauaethau yn un fath ym mhob cwr o Went.

Ein meysydd cyflawni allweddol

<p><b>Sefydlu model Lleol (hwb)</b> –Atgyfeiriadau Meddygon Teulu electronig safonol. Gweithgarwch wyneb yn wyneb, gan gynnwys asesiadau iechyd meddwl, ymyriadau therapiwtig ar gyfer grwpiau ac unigolion. Bydd gwasanaeth e-bost penodol ar gyfer Meddygon Teulu'n cael ei sefydlu. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cefnogaeth, ymgynghoriadau a chyngor. Bydd cleifion yn cael dewis mynychu apwyntiadau wynebyn wyneb neu dros dechnoleg fideo neu ffôn.</p>
<p><b>Ymarferwyr Lles Seicolegol</b> – Bydd ymarferydd penodol yn cael ei benodi i bob practis Meddyg Teulu er mwyn cynorthwyo unigolion sydd ag anghenion nad ellir eu diwallu'n llawn drwy'r gwasanaethau Gofal Sylfaenol craidd.</p>

**Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth Cymorth Argyfwng Person Cyfan, System Gyfan** mae Partneriaeth Rhanbarthol Gwent wedi ymroi i ofal mewn argyfwng a gofal aciwt yng nghyd-destun dull Gydol Oes, System Gyfan sy'n diwallu anghenion unigryw pobl sy'n wynebu argyfwng. Maent yn cydnabod penderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl a'r angen i roi sylw i'r rhain gan eu bod yn berthnasol i anghenion unigol. Mae arferion, ffordd o feddwl a diwylliant angen hybu adferiad a, phan mae hynny'n bosibl, atal argyfwng neu ymyrryd yn gynnar. Rydym yn symud i ffwrdd oddi wrth ein model hybrid a bydd asesiadau'n cael eu gwneud gan dimau lleol yn ystod oriau gwaith. Y tu allan i oriau gwaith bydd tîm canolog a fydd ar gael drwy un pwynt cyswllt. Bydd asesiadau'n canolbwyntio ar y cartref yn y lle cyntaf, a bydd gwasanaethau cymunedol, lleol yn cefnogi os yw hynny'n bosibl. Ein prif feysydd cyflenwi:

<p><b>Uned asesu ganolog sydd â thimau triniaeth yn y cartref</b> Un pwynt cyswllt ar gyfer atgyfeiriadau argyfwng 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Apwyntiadau lleol yn cael eu cynnig i gleifion rhwng 9am a 9pm.</p>
<p><b>Ehangu Cysylltu Bywydau dros Iechyd Meddwl</b> -Mae Cysylltu Bywydau yn rhoi opsiwn gwahanol o ran gofal ysbyty a chyfleusterau rhyddhau o'r ysbyty. Mae'n cynnig llety ar frys i gleifion sydd yn dod i gysylltiad â'r timau argyfwng iechyd meddwl. Mae'r cleifion yn cael eu gosod gyda theuluoedd arbennig sydd wedi eu hyfforddi. Cafodd y cynllun ei</p>

dreialu yn ardal Casnewydd ac mae'n arwain at ganlyniadau ardderchog sy'n canolbwyntio ar y claf, derbyn llai o gleifion i'r ysbty a derbyn llai o gleifion dro ar ôl tro o'u cymharu â'r cyfraddau cyn i'r cynllun gychwyn. Eleni bydd achos busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer ehangu'r cynllun ar draws ein pum Awdurdod Lleol drwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar bartneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

**Gwasanaethau Asesu Cof Iechyd Meddwl i Oedolion** – Rydym yn datblygu cynlluniau i wella'r cymorth sydd ar gael i oedolion hŷn, gan gynnwys cynyddu mewnbwn Therapi Llefaredd a iaith ar wardiau cleifion preswyl a Gwasanaethau Asesu Cof er mwyn cynorthwyo gyda thrafferthion llefaredd ac iaith yn ystod dyddiau cynnar dementia.

**Model Gofal Cleifion Preswyl** - Caiff unigolion eu derbyn i Ysbyty am amryw o resymau, gan gynnwys cael eu hasesu mewn argyfwng, cael asesiadau iechyd meddwl, yn ogystal â derbyn triniaeth a gwella. Rydym yn ceisio cyfuno asesiadau a thriniaeth aciwt er mwyn creu un pwynt cyswllt ar gyfer cleifion mewn argyfwng. Bydd hyn yn galluogi tîm amlddisgyblaeth arbenigol penodol i ymgymryd ag asesiad cynhwysfawr o bob agwedd o anghenion unigolyn, dim ots pa ddiwrnod o'r wythnos na pha amser. Bydd modd i gleifion gamu i lawr wedi cyfnod byr o ofal dwys at wasanaethau adferiad (gwasanaethau cleifion preswyl a gwasanaethau cymunedol) a fydd yn nes at y cartref

**Pobl sydd ag Anghenion Cymhleth**  
Rydym eisiau i'n holl ddinasyddion sydd ag anghenion cymhleth sy'n deillio o'u iechyd meddwl a/neu eu anableddau dysgu, gael mynediad at wasanaethau tosturiol ac effeithiol sydd yn eu cefnogi ac yn eu galluogi i gyrraedd eu potensial a byw bywyd llawn, yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol posibl. Rydym yn parhau i gyflwyno ein hachos dros Uned Arbenigol ar gyfer Cleifion Preswyl. Bydd gennym Achos Busnes llawn erbyn mis Gorffennaf 2022 ac rydym yn parhau i wella'r gefnogaeth a'r llwybrau sydd ar gael yn y gymuned


**Gwasanaethau Cyswllt Seiciatrig** – mae gan hanner y cleifion preswyl sydd yn yr Ysbyty gyflyrau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd megis iselder a dementia. Mae canfod a rheoli'r cyflyrau yma'n gyflym ac yn effeithiol yn helpu pobl i wella, yn arwain at well canlyniadau ac yn lleihau eu hamser yn yr ysbty. Rydym yn adolygu ein model gwasanaeth presennol ac rydym yn bwriadu ehangu cyswllt seiciatrig ar draws ein system

## GWELLA CANLYNIADAU CANCER

Gwyddom fod angen gwella canlyniadau cancer. Er ein bod wedi gwneud cynnydd yn ystod y blynyddoedd diweddar, rydym yn cydnabod fod angen cyflymu cyfradd y gwelliant. Drwy gyfrwng ein Strategaeth Cancer, Cyflawni'r Weledigaeth 2020 – 2025 leol, rydym wedi gosod her i wneud gwelliannau o ran canlyniadau cancer drwy ganolbwyntio ar drawsnewid pob maes o fewn y system cancer. Er ei bod yn

rhu gynnar i allu mesur effaith pandemig Covid-19 ar afiachusrwydd a marwolaeth sy'n deillio o ganser, rydym yn bryderus y fod amharodrwydd cleifion i fynychu gofal sylfaenol ac ysbtyai, ynghyd ag atal y rhaglenni sgrinio cenedlaethol dros dro ynghyd ag amseroedd aros hirach am brofion diagnosteg a thriniaeth yn arwain at gynnydd o ran afiachedd a marwolaeth o un o'r tri afiechyd sy'n cyfrannu fwyaf at anghydraddoldeb ymysg ein poblogaeth.





**Model Gofal ein Gwasanaethau Cancer**





Er gwaethaf heriau amlwg, mae'r pandemig wedi arwain at addasiadau sylweddol i'r ffordd draddodiadol o weithio, ac heb os bydd rhai o'r rhain yn siapio dyfodol ein gwasanaethau. Rydym yn hynod falch o ymdrechion ein Gwasanaethau Cancer. Maent wedi parhau i ddarparu llwybrau diagnosteg a thriniaeth drwy gydol y pandemig ac maent wedi sefydlu Gwasanaeth Asesu Symptom Amhendant yn ystod y cyfnod yma. Rydym hefyd yn falch o'r cynnydd sydd wedi ei wneud o ran gwybodaeth staff ynglŷn â chanser drwy hyfforddiant, gan gynnwys symud modiwl yn ei flaen a'i ymgorffori o fewn ESR ar gyfer pob aelod o staff newydd.

Mae'r gyfradd o gleifion sy'n ymddangos gyda cancer posib yn uwch nag erioed. Rheoli'r lefel uwch o alw yma yw prif ffofocws ein timau safleoedd tiwmor amlddisgyblaeth. Mae amrywiolyn Omicron wedi cael effaith sylweddol ar Lwybrau Cancer wrth i nifer cynyddol o gleifion fethu â mynychu, cyfraddau cynyddol o absenoldebau staff, ynghyd â gostyngiad uwch na'r arfer o ran atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu yn ystod y cyfnod yma. Er gwaetha'r heriau, rydym wedi llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaethau cancer ac mae nifer y triniaethau yn parhau i fod yn uwch na'r blynyddoedd diweddar.

## Gwella Canlyniadau Canser – Dull System Gyfan

 <p><b>Lleihau'r risg o ganser</b></p>	<p>Caiff ein dull o ran cynorthwyo ein dinasyddion i wneud yr hyn sydd ei angen er mwyn aros yn iach o fewn eu cymunedau ei osod ym Mlaenoriaeth #3. Byddwn hefyd yn edrych ar sut mae'r Rhwydwaith Llesiant Integredig yma a'n gwasanaethau craidd yn gwneud y mwyaf o 'gyfleon dysgu digymell' pan mae diagnosis canser posib yn cael ei ddiystyru.</p>
 <p><b>Canfod yn Gyfnar</b></p>	<p>Er mwyn i Raglenni Sgrinio Cenedlaethol gyrraedd eu potensial, mae angen i'r niferoedd sy'n manteisio arnynt gynyddu. Er mwyn cyflawni hyn mae angen cyfuniad o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a dulliau profi mwy derbyniol. Mae angen camau gweithredu wedi'u targedu mewn ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd cymdeithasol dwys gan mai yn yr ardaloedd yma mae'r niferoedd lleiaf yn manteisio ar gyfleoedd sgrinio, yn enwedig yn Nwyrain a Gorllewin Casnewydd a Blaenau Gwent.</p>
 <p><b>Diagnosis amserol</b></p>	<p>Gwyddom fod amrywiaeth ymysg staff Gofal Sylfaenol o ran eu hyder a'u cymhwysedd i adnabod symptomau canser a gwneud atgyfeiriadau priodol mewn modd amserol. Byddwn yn datrys hyn drwy wneud cymaint â phosibl i atal diagnosis hwyr. Byddwn yn defnyddio meddalwedd newydd o'r enw 'C the signs', fel rhan o gynllun peilot yn y lle cyntaf, ac yna byddwn yn ei gyflwyno'n llawn cyn gyflymed â phosibl. Mae'r adnodd wedi ei gynllunio gan Feddygon Teulu ar gyfer Meddygon Teulu er mwyn sicrhau fod achosion o ganser posib yn cael atgyfeiriad a diagnosis cynnar.</p> <p>Er fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud, rydym yn parhau i gefnogi a rhedeg rhaglen wella yn y gwasanaethau endosgpoi a delweddu yn ogystal â llwybrau cleifion. Gwyddom fod angen i ni barhau gyda'r gwaith yma a chynyddu capasiti er mwyn cyflymu'r broses ddiagnosteg. Bydd Canolfannau Diagnosteg cyflym amlddisgyblaeth ar gyfer pobl sydd â symptomau amhendiant a agorwyd yn ystod y pandemig yn cael eu cyfuno, ei hail-leoli i un o'n safleoedd a bydd opsiynau o ran ehangu'r ganolfan yn cael eu hystyried.</p>
 <p><b>RADIATION THERAPY</b></p>	<p>Fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, rydym yn symud cynigion yn eu blaen ac yn datblygu Achos Busnes Llawn mewn cydweithrediad agos ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre am brosiect 2 Gyflymydd Llinol er mwyn darparu capasiti radiotherapi ychwanegol yn fwy lleol. Amcangyfrifir y bydd y gost cyfalaf tua £16 miliwn, ac eithrio costau galluogi ac offer. Bydd yr Achos Busnes Llawn wedi'i gwblhau erbyn mis Awst.</p>

 <p><b>SACT</b></p>	<p>Rydym hefyd yn paratoi Amlinelliad o Gyd-destun Strategol ar gyfer Hwb Canser yn Ysbyty Nevill Hall, a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r Is-Uned Radiotherapi. Bydd yr Hwb Canser yn cynnwys cyfleusterau cleifion allanol a chyfleusterau cemotherapi a bydd yn defnyddio gofod gwag sydd ar gael yn Ysbyty Neuadd Nevill yn dilyn ail-leoli gwasanaethau i Ysbyty Athrofaol y Faenor. Bydd yr Amlinelliad o Gyd-destun Strategol yn edrych ar swyddogaeth optimwm Hwb Gwasanaethau Canser fel modd o ddarparu'r gwasanaethau yn nes at y cartref, gwella profiad a chanlyniadau cleifion.</p> <p>Ar y 4ydd o Chwefror 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan, fod bron i £11 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn 'canolfan ragoriaeth' canser y fron yn Ysbyty Ystrad Fawr. Disgwylir i waith gychwyn ar y safle erbyn Mawrth 2022. Bydd y cyfleuster yma'n ein galluogi i wella gofal, profiad a chanlyniadau cleifion.</p>
 <p><b>Oncoleg Acíwt</b></p>	<p>Rydym yn parhau i gefnogi a datblygu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cleifion sydd angen derbyniadau aciwt yn sgil eu triniaeth canser. Drwy weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid ar draws rhanbarth De Ddwyrain Cymru rydym wedi datblygu a chytuno ar fodel gwasanaeth delfrydol ar y cyd. Mae ein Bwrdd wedi cymeradwyo Cam 1af y buddsoddiad a amlinellir yn yr Achos Busnes Gwasanaeth Oncoleg Acíwt Rhanbarthol sydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau oncoleg aciwt cynaliadwy ar draws ein system gyda chefnogaeth gwasanaethau oncoleg arbenigol.</p> <p>Rydym yn ceisio cadarnhau llwybrau ar gyfer Cam 2 a 3 – elfennau rhanbarthol ac arbenigol y Gwasanaeth Oncoleg Acíwt er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r effaith ar ein poblogaeth. Bydd y gwaith yma'n darparu cynlluniau gweithlu manwl a fydd yn gyrru newid, creu gwell llwybrau ar gyfer elfennau lleol, rhanbarthol ac arbenigol y model er mwyn sicrhau fod cleifion yn derbyn y gofal iawn, y tro cyntaf. Bydd hyn, ynghyd â chapasiti, cyllid, buddion a chynlluniau cyflawni yn ffurfio achos busnes ar gyfer buddsoddiad a fydd yn ddarostyngedig i Broses Cynllunio Buses y Bwrdd Iechyd</p>

### Llwybr Canser (sengl) posibl (SCP)

Caiff holl llwybrau safle tiwmor canser eu rheoli yn erbyn y targedau SCP er mwyn sicrhau tegwch i bob claf o'r amser y mae doctoriaid yn amau fod canser arnynt i'r cyfnod triniaeth. Drwy gyfrwng ein strwythur Bwrdd Canser, rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran camau gweithredu drwy redeg nifer o ffrydiau gwaith. Mae hyn yn arwain at fwy o gywirdeb o ran adrodd ar berfformiad ac yn ein galluogi i

ddangos ein bod yn gwneud gwelliant parhaus yn erbyn y perfformiad yr ydym yn adrodd arno. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno ac yn cyflawni mewn modd effeithiol, byddwn yn cyflwyno dull sy'n sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau mewn modd integredig a byddwn yn symud y tair ffrwd waith yn eu blaen:

- **Gwybodaeth a deallusrwydd** arwain ar sicrhau fod prosesau yn eu lle er mwyn cofnodi data cleifion perthnasol yn ystod pob cam o'r llwybr a sicrhau fod ein systemau TG wedi eu hintegreiddio ac yn briodol o ran tracio ac adrodd. Rydym wedi, ac yn parhau i ddatblygu ein Dangosfwrdd Canser. Mae'r dangosfwrdd yn cefnogi Tîm Amlddisgyblaeth pob safle Tiwmor i reoli eu llwyth achosion. Rydym yn rheoli ein prosesau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau fod rhwystrau ac unrhyw oedi'n dod i'r amlwg, yn cael eu huwchgyfeirio a'u datrys er mwyn optimeiddio taith pob claf drwy eu llwybr cancer.
- **Galw a Chapasiti** gweithio er mwyn deall y bwlch a rhoi datrysiadau yn eu lle er mwyn creu cydbwysedd o ran galw a chapasiti yn y tymor byr ac yn nhelerau cynladwyedd. Mae gennym fwy o waith i'w wneud er mwyn deall ein proffil galw a chapasiti ac rydym yn cydnabod y byddwn yn wynebu heriau lleol a rhanbarthol o ran creu cydbwysedd rhwng capasiti a galw.
- **Gwella Llwybrau** Ochr yn ochr â gwella'r amser a gymerir cyn cael mynediad at wasanaethau cleifion allanol a diagnosteg, mae angen i ni hefyd, fynd ar drywydd gwella llwybrau a ffyrdd newydd o weithio. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno'r llwybrau gorau posibl, sydd wedi eu cytuno ar lefel genedlaethol, ar gyfer grwpiau penodol o glefydau canser, a gwneud gwelliannau gam wrth gam er mwyn cyrraedd y nod eithaf o leihau amrywiaeth a gwella canlyniadau ein cleifion.

Rydym yn canolbwyntio yn y man cyntaf ar safleoedd tiwmor y Fron, Wroleg a'r colon a'r rhefr. Mae'r atgyfeiriadau am y math yma o ganser yn uchel, ond rydym hefyd yn wynebu heriau penodol o ran darparu'r gwasanaethau, yn bennaf heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu, ac mae'r rhain yn cael effaith anghymesur ar ein gallu i gyflawni'r gwasanaeth SCP.

## BLAENORIAETH 4 – OEDOLION HŶN YN CAEL EU CEFNOGI I FYW'N DDA AC YN ANNIBYNNOL

Credwn fod hwn yn egwyddor allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a'i fod yn nodweddiadol o gymuned ofalgar a thosturiol



Yn ystod y blynyddoedd diweddar rydym wedi trawsnewid sawl gwasanaeth ar gyfer oedolion hŷn drwy'r Rhaglen Bregusrwydd. Mae llawer o'n adnoddau'n eistedd o fewn cymunedau. Rydym yn darparu gwasanaethau integredig ar y cyd â'n Awdurdodau Lleol a phartneriaid annibynnol a phartneriaid o fewn y trydydd sector. Yn fwyaf nodedig, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cryfhau'r Rhaglen Cartref yn Gyntaf ac wedi ei huno gyda'r gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty er mwyn creu un pwynt cyswllt o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Rydym hefyd wedi cyflwyno Llwybrau Derbyn a Throsglwyddo, sy'n ceisio sicrhau nad oes angen i bobl hŷn dreulio amser mewn lleoliad gofal aciwt neu geisio sicrhau eu bod yn treulio cyn lleied o amser â phosibl yno. Rydym wedi gweithio gyda chartrefi gofal sydd â'r cyfraddau uchaf o ran trawsgludo cleifion i'r ysbyty.

Mae angen i ni sicrhau fod ein system mor gyfeillgar â phosib i bobl sy'n heneiddio. Gwyddom fod anghenion iechyd pobl yn mynd yn fwy cymhleth wrth i bobl heneiddio, ac yn gyffredinol, fod eu gallu'n dirywio. Rydym yn cydnabod fod cyflwr cyffredinol nifer o bobl hŷn wedi dioddef yn ystod y cyfnodau clo, a'u bod yn ymddangos o fewn ein system gydag anghenion fwy aciwt. Mae perygl fod y gofal a ddarperir yn or-feddygol, yn enwedig wrth i berson hŷn gael ei dderbyn i wasanaeth ysbyty sydd wedi ei gynllunio i wella cyflyrau neu symptomau aciwt. Mae'r gwasanaethau yma'n dueddol o reoli problemau iechyd mewn ffyrdd datgysylltiol a thameidiog ac mae diffyg cydweithio gyda darparwyr iechyd eraill ac

o ran lleoliadau ac amser. O ganlyniad, mae pobl hŷn yn aros mewn ysbytai am gyfnodau estynedig ac mae hyn yn cael effaith negatif ar eu hannibyniaeth a'u lles yn ogystal ag ar ein gallu i ddarparu rhaglenni gofal wedi'i gynllunio mewn modd cynaliadwy, dibynadwy ac yn unol â'r hyn a ddisgwyllir.

Mae pwysigrwydd gwneud pethau'n iawn er budd oedolion hyn wedi ei atgyfnerthu drwy ein dull cynllunio dynamig.

Mae'n dangos, yn y termau llymaf posibl, y gost i'n system am nad yw ein cynnig i bobl hŷn yn cyrraedd y safon sydd ei angen er mwyn eu cefnogi i fyw'n dda ac yn annibynnol

Wrth i ni gamu allan o dwannel effeithiau uniongyrchol Covid-19 ar ein ysbytai, mae wedi dod i'r amlwg mai pobl hŷn sy'n defnyddio 430 o'n gwelâu. Mae'r bobl hŷn yma'n cynnwys y rheiny sy'n derbyn gofal aciwt, triniaeth gan gynnwys adsefydlu a'r rheiny sy'n aros i gael eu symud i gam nesaf eu llwybr. Mae 50% o'r bobl yma wedi eu dynodi'n barod i gael eu rhyddhau. Mesur syml o ran y gost i'n system yw gwelâu. Os ydym yn parhau yn y modd hwn, bydd angen i ni ddarparu 99 gwely, neu 3 ward yn ychwanegol ar ben ein llinell sylfaen graidd ar gyfer pobl hŷn. Nid oes gennym y lefelau staffio i gefnogi'r capasiti ychwanegol yma ac rydym yn ddibynnol iawn ar weithwyr banc a gweithwyr asiantaeth. Nid yw'r sefyllfa hon yn ddelfrydol ar gyfer ein cleifion nac yn gynaliadwy o ran ein system.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd, gallem alinio ein dull o ddiwallu anghenion pobl hŷn yn well. Rydym wedi canolbwyntio ar rannau penodol o'r llwybr yn hytrach na lapio model gwasanaeth o gwmpas pobl hŷn mewn modd systematig.

Mae angen trawsnewid ein system ymhellach er mwyn sicrhau fod gan bobl hŷn fynediad at ymyriadau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n diwallu eu anghenion, yng nghyd-destun yr hyn sy'n bwysig iddynt a gan sicrhau fod y gofal y maent yn ei dderbyn yn fodd o atal dibyniaeth nawr ac yn nes ymlaen mewn bywyd. Ein blaenoriaeth yw creu un rhaglen sy'n cyfuno'r holl brosiectau a gweithgarwch cyfredol sy'n ceisio gwella'r llwybr pobl hŷn. Byddwn yn sicrhau fod gwneud penderfyniadau mewn modd integredig yn sail i'r rhaglen.



Mae'r dull hwn yn hanfodol, yn y lle cyntaf, am ei fod yn ein galluogi i ddatblygu strategaeth integredig ar gyfer pobl hŷn sy'n sicrhau arweinyddiaeth unedig ac yn galluogi gwasanaethau i weithredu fel un tîm ar draws ein system. Yn ail, bydd yn ein galluogi i ddal gafael tyn a chanolbwyntio ar newid y rhannau o'r system a fydd, unai ar wahân neu ar y cyd, yn creu buddion materol ar gyfer pobl hŷn.

O ran Gofal Ataliol a Rhag-gynllunio rydym, yn barod, wedi nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd er mwyn datblygu a chyflawni llwybr cydafiachedd ar gyfer y Garfan Oedolion Risg Uchel. Yma rydym wedi nodi meysydd ychwanegol y byddwn yn rhoi sylw agos iddynt yn ystod oes y Cynllun hwn.

**Ailgynllunio Gwasanaethau Cymunedol ar gyfer Pobl Hŷn**

Model integredig sy'n seiliedig ar leoedd y gellir ymdiried ynddo i gyflawni

Tystiolaeth yn dangos llwyddiant o ran cyflwyno gofal yn nes at y cartref, cyfleoedd i wneud cymaint mwy ... nid yw **cyflymder, graddfa a chysondeb** y newid yn annigonol ar gyfer cyflawni trawsnewid cynaliadwy.

- Ailgynllunio Model Meddygol
- Model nyrsio integredig sy'n seiliedig ar leoedd
- Model Fferyllfeydd Cymunedol
- Un Pwynt Mynediad wedi eu halinio â rhai'r Awdurdod Lleol

**Ailgynllunio Gwasanaethau Ysbytai ar gyfer Pobl Hŷn**

Gofal Graddedig, galluogi, lleihau nifer y cleifion a gyflwynir a'r amser yn yr ysbyty

Gor ddbyniaeth ar fodel meddygol o ran gofal cleifion preswyl. Os nad ydym yn newid, bydd y system angen **440** gwely CoTE. Mae hyn **200** yn uwch na'r Cynlluniau DC. Mae **99** o'r gwelâu yma uwchlaw'r sefylliad.

- Clinigau Mynediad Cyflym yn yr YCLLg
- EFU
- Llwybrau mynediad uniongyrchol
- Gofal Graddedig

**Ail-gynllunio Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Pobl Hŷn** Rydym, ynghyd â'n partneriaid, yn ymrwymedig i gyflwyno model 'gofal sy'n seiliedig ar leoedd' er mwyn meithrin mwy o integreiddio ar draws y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Rydym hefyd wedi ymrwymo i symleiddio pethau er budd cleifion yn ogystal â'r rheiny sy'n darparu gofal. Ein blaenoriaeth gyntaf yw alinio gwasanaethau presennol er mwyn creu model cyson sy'n rhoi'r hyder i staff gofal iechyd a gofal cymdeithasol, cleifion a'u gofalwyr i aros yn eu man preswylio arferol cyn hired â phosibl.

**Un pwynt mynediad** ar gyfer pob bwreistref sy'n cyfuno'r holl wybodaeth o ran gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd person cymwys i wneud penderfyniadau wrth y 'drws ffrynt' a fydd yn cyfeirio person at y gwasanaethau sy'n diwallu eu anghenion

**Sefydlu Nyrsio yn y Gymdogaeth** drwy gyfuno timau a oedd, cyn hyn, ar wahân (Nyrsys Ardal, Ymateb Cyflym, Rheoli Cyflyrau Cronig a Thimau Gofal yn y Cartref Iechyd Parhaus) bydd y ddarpariaeth nyrsio leol yn dod yn fwy cadarn a bydd cleifion yn cael

mwy o gysondeb o ran gofal gan weithwyr allweddol ymroddedig a llai o ymyrraeth gan weithwyr proffesiynol eraill
<b>Model Gweithlu ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Ymateb Cyflym/ Timau Adnoddau Cymdeithasol)</b> Rydym yn ail-gynllunio model gweithlu ein gwasanaethau cymdeithasol gan roi pwyslais cryf ar y Meddyg Teulu a gweithlu Diddordeb Arbennig
<b>Model Fferyllfeydd</b> rydym yn adolygu'r hyn a gynigir gan fodelau fferyllfeydd cymunedol sy'n gweithredu ar draws ein system a byddwn yn cynllunio ac yn cyflwyno un model (delfrydol)
<b>Gwella Capasiti Ymateb Cyflym / Timau Adnoddau Cymunedol</b> lleihau nifer y cleifion a gyflwynir i'r ysbyty a gwella capasiti o ran ail-alluogi cleifion er mwyn eu rhyddhau'n gynt gan leihau eu hamser yn yr ysbyty

**Ail-gynllunio Gwasanaethau Ysbyty ar gyfer Pobl Hŷn** mae ein rhwydwaith o ysbytai aciwt yn cynnig, i raddau helaeth, model gofal meddygol traddodiadol sy'n canolbwyntio ar adferiad meddygol ac sy'n glynu'n agos at egwyddorion swyddog meddygol cyfrifol gan fod cleifion yn cael eu gosod gyda meddyg neu dîm clinigol penodol. Mae hyn yn gwbl groes i'r hyn sy'n digwydd o fewn y rhwydwaith ysbytai cymunedol. Mae'r rhain yn ceisio darparu model gofal graddol sy'n canolbwyntio ar alluogi cleifion.

O ran ailgynllunio'r elfen ysbytai aciwt o fewn lwybr person hyn drwy ein system, mae ein ffocws ar geisio lleihau'r angen i gyflwyno claf i'r ysbyty a lleihau'r amser y mae'r claf yn ei dreulio yn yr ysbyty.

<b>Clinigau Mynediad Cyflym i Bobl Hŷn wrth y Drws Ffrynt</b> mae'r rhain wedi eu halinio gydag Unedau Bregusrwydd yr Henoed er mwyn darparu asesiadau, diagnosteg a thriniaeth ar sail triniaeth dydd os yw hynny'n bosibl
<b>Unedau Bregusrwydd yr Henoed</b> bydd y rhain yn gweithredu o bob Ysbyty Cyffredinol Lleol Gwell, a bydd modd aros ynddynt am gyfnod byr (72 awr) er mwyn asesu a darparu diagnosteg a chynllun triniaeth/gofal os nad oes modd gwneud hyn ar sail triniaeth yn ystod y dydd
<b>Llwybrau Ailgyfeirio a Derbyn yn Uniongyrchol</b> er mwyn sicrhau fod pobl hŷn yn cael eu derbyn i'r rhan o'r system sy'n diwallu eu hanghenion orau, y tro cyntaf, bob tro.

## BLAENORIAETH 5 – MARW'N DDA FEL RHAN O FYWYD

Mae marwolaeth a marw'n anochel. Bydd ansawdd a'r mynediad at ofal diwedd oes yn effeithio ar bob un ohonom ac mae angen ei wella. Rydym wedi croesawu egwyddorion y 'Cymru Garedig – Siarter ar gyfer Cymru' ac rydym yn ymroddedig i

wella'r hyn yr ydym yn ei wneud yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl o bob oed sy'n byw gyda marw, marwolaeth a galar, eu teulu, gofalwyr a'u cymunedau. Byddwn yn cymryd yr hyn sy'n flaenoriaeth iddynt, eu dewisiadau a'u dymuniadau i ystyriaeth.



**CYNLLUNIO GOFAL YMLAEN LLAW**

- Gwell gofal ar gyfer pobl sy'n tynnu at ddiwedd eu hoes a gwell cynllunio a darparu gofal gan gynnwys datblygu cynlluniau uchafu triniaeth gyda chleifion a helpu cleifion i fyw a marw'n well mewn lleoliad a ffordd o'u dewis.



**RHAGLEN ADDYSG**

- Mae gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu am bobl sydd ag anghenion o ran gofal diwedd oes wedi eu grymuso ym mhob lleoliad gofal i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd â chleifion a'u teuluoedd.



**GWASANAETHAU PROFEDIGAETH**

- Gwasanaeth profedigaeth yn ei le ar gyfer pobl sy'n cael eu effeithio â marwolaeth. Bydd yn gwneud cyswllt sensitif ac yn darparu cefnogaeth emosiynol ac ysbyrdol mewn profedigaeth.



**MESUR CANLYNIADAU YN SEILIEDIG AR WERTH**

- Mabwysiadu 'Amcanion Gofal' er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth yw 'da' yn llygaid cleifion a gofalwyr a chefnogi datblygu mesurau sy'n mesur canlyniadau o safon y mae cleifion yn adrodd arnynt er mwyn dylanwadu ar gynlluniau gwasanaeth a ffridd o gyflawni.

Bob blwyddyn mae tua 6,000 o bobl yn marw yng Ngwent ac mae hyn yn gyfystyr â tua 16 person y dydd. Mae tua 90 o'r rhain yn blant a phobl ifanc. Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yng Ngwent yn cynyddu bron i 10% i tua 6,600 erbyn 2039. Mae tua 40% o farwolaethau'n digwydd ym man preswyllo arferol pobl, unai'n eu cartref (26%) neu mewn cartref nyrsio/gofal (14%). Mae 56% o farwolaethau'n digwydd mewn ysbyty GIG.

Rydym wedi gwneud cynnydd ardderchog drwy ganolbwyntio ar hybu ac ymgorffori egwyddorion Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw o fewn ein harferion ac addysgu staff ar gynnal sgysiau ar afiechydon difrifol ynghyd â chynyddu'r dealltwriaeth y gall ymagwedd iach at farw, cynllunio o flaen llaw a rhoi gwybod i deulu a ffrindiau am ddymuniadau arwain at well gofal sy'n canolbwyntio ar y person ddiwedd oes. Rydym wedi cyflwyno Cynllun Peilot Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw o fewn Gofal Sylfaenol. Bu practisiau Meddygon Teulu'n treialu Vision 360 er mwyn casglu data ar ganlyniadau sy'n ymwneud â Chynllunio Gofal Ymlaen Llaw. Ochr yn ochr â hyn mae gennym ffrwd waith sefydledig. Mae'r ffrwd waith yma'n flaenoriaeth ac mae'n edrych ar fesurau canlyniadau sy'n adlewyrchu profiadau

cleifion. Rydym wedi bod yn gyrru sgiliau cyfathrebu sylfaenol a datblygedig ar draws y Bwrdd Iechyd a gyda'n partneriaid er mwyn darparu hyfforddiant cyfathrebu ar gyfer staff.

Er gwaethaf yr hyn sydd wedi ei gyflawni, rydym yn parhau i wynebu nifer o heriau. Gwyddom fod tueddiadau presennol o ran y boblogaeth sy'n heneiddio yn dangos, yn y dyfodol agos, y bydd mwy o bobl yn byw'n hirach, ond y bydd mwy, hefyd, yn marw ar yr un pryd. Bydd angen i'n system newid o ran ei ymarferion er mwyn rheoli'r nifer sy'n marw yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, bydd gan lawer ohonynt gydafachedd. Mae ein cynllun wedi ei adeiladu ar bedwar maes blaenoriaeth:

Mae **Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw yn allweddol** o ran gwella'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn ar ddiwedd eu hoes ac o ran galluogi gwell cynllunio a gwell darpariaeth gofal. Bydd hyn yn eu helpu i farw'n dda mewn man o'u dewis ac yn y ffordd y maent yn ei ddewis. Gall pobl drafod a chofnodi eu dymuniadau o ran iechyd a gofal yn y dyfodol yn ogystal â phenodi rhywun yn eiriolwr. Bydd hyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd eu dymuniadau'n wybyddus ac y byddant yn cael eu parchu ar ddiwedd eu hoes. Byddwn yn adeiladu ar ein rhaglen Hwyluswyr Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw, gyda chefnogaeth achos busnes, er mwyn sicrhau cynaladwyedd y swydd yma, cydnabod eu pwysigrwydd wrth ymgorffori Cynlluniau Uwchgyfeirio Triniaeth a gwella'r modd y rhennir gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd. At hyn, byddwn yn parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw drwy ein rhaglen hyfforddi Pencampwyr Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw.

#### **Cyflwyno Hwyluswyr Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ar draws Gofal Sylfaenol a Gofal Aciwt**

Byddwn yn parhau i gyflwyno Hwyluswyr Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ar draws gofal sylfaenol a gofal aciwt fel eu gilydd er mwyn ymgorffori Cynlluniau Uchafu Triniaeth ar draws y sefydliad a gwella'r modd y rhennir gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a lleoliadau aciwt. Bydd hyn yn cael ei gefnogi drwy ddatblygiad Achos Busnes er mwyn sicrhau cynaladwyedd y swydd yma.

**Hybu cynaladwyedd Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw drwy recriwtio Pencampwyr Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw** Drwy ddod o hyd i bencampwyr Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw Clinigol a fydd yn hwyluso hyfforddiant Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw, ein nod yw codi ymwybyddiaeth o fanteision Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw, ac yn ei dro, ymgorffori arfer da yn ein holl leoliadau.

**Rhaglen Addysg** mae sicrhau fod gennym weithlu sydd wedi eu haddysgu'n dda yn flaenoriaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae cyfathrebu, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu sylfaenol a datblygedig, wedi aros yn elfen allweddol o'r ffrwd waith addysg. Caiff hyfforddiant ei ddarparu mewn partneriaeth â'r trydydd sector ac mae adborth positif wedi ei dderbyn yn barod. Er enghraifft, mae 90% o'r rheiny sydd wedi dilyn yr hyfforddiant yn teimlo y bydd yr hyfforddiant yn dylanwadu ar eu harferion.



#### **Ymgorffori Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw ym mhob lleoliad yng Ngwent gan ddefnyddio'r Model Tair E**

Byddwn yn parhau i gyflwyno'r rhaglen e-ddysgu, yn ogystal â hwyluso gweithdai er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw a chynyddu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau ar Gynllunio Gofal Ymlaen Llaw

#### **Parhau i ddarparu hyfforddiant ar sgiliau cyfathrebu sylfaenol a datblygedig**

Rydym wedi ymrwmo i barhau i ddarparu hyfforddiant ar sgiliau cyfathrebu sylfaenol a sgiliau cyfathrebu datblygedig ar gyfer staff er mwyn eu galluogi i gefnogi cleifion a theuluoedd i wneud dewisiadau'n seiliedig ar wybodaeth a chrosawu dull sy'n seiliedig ar wneud penderfyniadau mewn modd integredig

Mae **Gwasanaethau Profedigaeth** yn gysylltiedig â chanlyniadau allweddol o ran iechyd meddyliol a chorfforol, yn ogystal â ffactorau risg o ran salwch. Gwyddom lawer am effeithiau andwyol galar hirdymor, sydd heb ei ddatrys. Mae gwasanaethau profedigaeth yn fodd effeithiol o gefnogi perthnasau sydd wedi cael profedigaeth ac sy'n wynebu gofid emosiynol. Maent hefyd yn fodd o wella afiachedd tymor hir sy'n gysylltiedig â galar sydd heb ei ddatrys. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhoi cefnogaeth effeithiol i berthnasau sydd mewn galar, a hynny o'r foment y mae eu hanwyliaid yn maw er mwyn gwella eu profiad. Byddwn yn adeiladu ar seiliau'r gwaith sy'n mynd rhagddo'n barod ar draws y Bwrdd Iechyd ar wella gwasanaethau profedigaeth ym mhob cwr o Went.

Wrth i'r byd ddod o hyd i ffordd o ddelio â heriau parhaus pandemig COVID-19, mae pwysigrwydd gofal mewn profedigaeth wedi dod i'r wyneb unwaith eto. Mae maint yr effaith yn dod i'r amlwg bellach, ar bawb a gafodd brofedigaeth yn ystod y cyfnod yma, boed yn brofedigaeth a oedd yn ymwneud â COVID-19, cyflyrau eraill

neu farwolaethau a ddigwyddodd cyn y pandemig. Mae nifer o ffactorau risg o ran galar gymhleth; cynnydd mewn marwolaethau cyflym ac annisgwyl; cyfyngiadau o ran ymweld ag anwyliaid ar ddiwedd eu hoes, amhariad i arferion galaru ac angladdau; a llai o fynediad at rwydweithiau gofal cymdeithasol. Mae ein gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd wedi wynebu heriau lu yn ystod y cyfnod yma o ran cefnogi pobl mewn galar; ymgyswrtu â thechnoleg gweithio o bell; rheoli cymhlethdodau cynyddol perthnasau mewn galar, a delio gyda'u profiadau proffesiynol a phersonol eu hunain o ran profedigaeth.

#### **Adolygiad o Wasanaethau Galaru presennol yng Ngwent**

Rydym yn ymroddedig i wella tegwch a mynediad at wasanaethau profedigaeth yng Ngwent a byddwn yn adolygu'r gwasanaeth profedigaeth presennol sy'n cael ei gynnig ar draws y Bwrdd Iechyd a gan ein partneriaid yn y trydydd sector. Yn dilyn yr adolygiad, byddwn yn nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac yn penderfynu pa newid sydd ei angen ar y gwasanaeth er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n gwella profiad teuluoedd a gwarchodwyr yn unol â safonau NICE.

**Mesur Canlyniadau yn seiliedig ar Werth** rydym yn gweithio ar lefel genedlaethol a lefel leol er mwyn dod o hyd i gyfres o fertigau ystyrllon, a fydd ag adolygiadau ac archwiliadau o wasanaethau, er enghraifft Yr Archwiliad Cenedlaethol o Ofal ar Ddiwedd Oes, yn sail iddynt. Y bwriad yw datblygu dangosfwrdd perfformiad diwedd oes a fydd yn darparu data ystyrllon a mesuradwy. Mae hon yn her sydd angen sylw os ydym am lwyddo i adolygu'r gwasanaeth yn effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau i fabwysiadu, yn gyflym ac yn eang, y model 'Nodau Gofal' er mwyn gwir ymgorffori egwyddorion 'yr hyn sy'n bwysig' a rhoi'r dystiolaeth o ran adborth sydd ei hangen arnom er mwyn ein galluogi i ddylanwadu ar gynlluniau gwasanaeth a chyflawni. At hyn, rydym wedi ymrwymo i barhau i gymryd rhan yn yr adolygiad o'r opsiynau o ran Systemau Cydgysylltu Gofal Lliniarol Electroneg er mwyn sicrhau gwell rhannu gwybodaeth.

#### **Adoption of 'Care Aims' model**

The Health Board will adopt, at scale, the Care Aims model across multi-disciplinary teams by truly embedding 'what matters' principles, improving patient experience, voice, value and choice. This will provide us with improved metrics for patient experience and evidence of feedback influencing service plans, delivery and improvement.

#### **Continue engagement with the All Wales Advanced Care Plan (ACP) Strategic Group**

We will continue to participate and review options for Electronic Palliative Care Coordination Systems. This aims to improve information sharing and improve patient choice to where they wish to be cared for and die through the completion of ACP.


## EIN TIRLUN CYNLLUNIO 2022-2025

Yn gyson gyda Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws Cymru, mae ein system wedi ymateb i heriau Covid-19. Yn unigryw, ar yr un pryd, llwyddom i gyflawni newidiadau sylweddol i fodolau gwasanaeth, ein gweithlu, y ffordd yr ydym yn trefnu ac yn darparu gofal yn sgil agor Ysbyty Athrofaol y Faenor – galluogydd allweddol o ran cyflawni ein Strategaeth Dyfodol Clinigol.

Wrth i ni ddysgu i fyw gyda'r feirws a throi ein gorwelion at gyflawni 'normal newydd' cynaliadwy, rydym yn sylweddoli fod y tirlun cynllunio wedi newid. Mae patrymau traddodiadol o ran galw a chapasiti wedi newid ac felly mae angen i ni ddeall beth mae hyn yn ei olygu o ran ein system. Gyda hyn mewn golwg rydym bellach yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar senario wrth gynllunio gwasanaethau.

Y llynedd, roedd ein Cynllun Blyneddol yn gosod ein uchelgais i ddefnyddio data byw, amser real y gellid ymddiried ynddo, fel sail i waith cynllunio a gwneud penderfyniadau. Eleni rydym yn llunio ein CTCI yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'n system. Cychwynnodd ein siwrne cynllunio sefydliadol yn 2018 wrth i ni ddiweddarau modelau clinigol, profi'n rheolaidd ac adolygu fel rhan o gyflwyno ein system ysbytai newydd.

Mae gennym brofiad bywyd o sut y mae ein system yn gweithredu, yn ogystal â gwybodaeth sy'n deillio o'r hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig ac nawr yw'r amser i fynd ati i ail-gychwyn ein model system galw a chapasiti.



Trwy gydol tonnau'r pandemig, mae perfformiad ein system wedi bod yn gyfnewidiol. O reidrwydd, am lawer o'r 18 mis diwethaf, mae'r GIG wedi gorfod ymateb i fygythiadau uniongyrchol Covid-19 ac wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau brys. Bu'n rhaid rhoi gwasanaethau rheolaidd a nifer o'n rhaglenni iechyd y boblogaeth i'r naill ochor. O ganlyniad gwyddom: -

- fod y feirws wedi cael effaith anghymesur ar grwpiau sydd, yn barod, yn wynebu'r canlyniadau gwaethaf o ran iechyd, ac mae effeithiau economaidd a chymdeithasol y mesurau a roddwyd mewn lle i gadw'r feirws dan reolaeth, heb os, wedi gwneud yr anghydraddoldebau yma'n waeth
- Mae nifer helaeth o bobl unai'n aros am ddiagnosis a thriniaeth neu'n aros i gael eu hatgyfeirio a hynny ar gyfer ystod eang o gyflyrau
- mae'r pandemig wedi cyflymu'r gwaith o fabwysiadu technolegau newydd a ffyrdd arloesol o ddarparu a derbyn gofal, a hynny ar raddfa eang
- roedd diffyg capasiti, ffocws, uchelgais a chydnerthedd o fewn systemau diogelu'r cyhoedd (ar draws y DU a thu hwnt) cyn y pandemig. Bu'n rhaid i ni greu capasiti a gallu yn gyflyn yn nyddiau cynnar y pandemig

Mae'r 'normal newydd' yn datblygu ac mae ansicrwydd o ran beth mae hyn yn ei wir olygu i bob unigolyn, cymuned a gwasanaeth. Bydd amrywiaeth o ran pryd a sut y bydd pobl yn dychwelyd i'n system, cyflwr eu iechyd pan fyddant yn ymddangos (wedi misoedd o anweithgarwch ac ynysigrwydd cymdeithasol) ac aciwtedd a thrywydd eu salwch.

**Cynllunio Dynamig** – drwy weithio gyda'n partner data rydym wedi mabwysiadu dull cynllunio dynamig er mwyn deall y gofynion o ran y galw posibl, risgiau a chapasiti ar ein system. Drwy weithio gyda phob tîm clinigol fesul arbenigedd, gan ddefnyddio data amser real, rhagdybiaethau realistig o ran y gweithlu, gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch sut y mae cleifion yn dychwelyd at eu gwasanaethau a chyfyngiadau ar y system y gwyddom amdanynt, mae gennym ddealltwriaeth dda o:

- Ein man cychwyn
- Y galw a ragdybir ar ein system (mae hyn yn cynnwys ôl-groniadau y gwyddom amdanynt ac asesiad clinigol o anghenion nad ydynt wedi cael eu hatgyfeirio yn ein cymunedau)

- Y capasiti sydd ei angen arnom o’i gymharu â’r hyn sydd ar gael
- Faint sydd wedi newid a beth yw’r normal newydd
- Proffiliau gweithgareddau mwyaf tebygol/realistig yng nghyd-destun y cyfyngiadau y gwyddom amdanynt
- Effaith posib ar iechyd y boblogaeth
- Senario fwyaf tebygol/realistig

### Rhagbybiaethau

- Blaenoriaethu clinigol yn parhau – golyga hyn ganolbwyntio ar y claf sy’n fwyaf sâl yn gyntaf
- Effaith covid yn parhau am 6 mis cyntaf y cynllun hwn – mae hyn yn cynnwys trefniadau glanhau, cadw pellter cymdeithasol a PPE
- Capasiti’r ystadau’n aros yr un fath – golyga hyn fod y gofod sydd ar gael wedi ei gyfyngu oherwydd mesurau’n ymwneud â covid
- Ni fydd sefyllfa’n gweithlu’n gwella’n sylweddol yn y tymor byr – golyga hyn y bydd ein system yn dal i deimlo effeithiau heriau o ran recriwtio, lles staff, cyfraddau salwch ac absenoldebau a gweithlu sy’n dychwelyd at y dyletswyddau yr oeddynt yn eu gwneud cyn y pandemig
- Effaith y newidiadau i’r system yn cael eu gwireddu (ee rhaglen gofal brys)
- Bydd yr ymdrech adfer yn parhau – bydd hyn yn cynnwys datrysiadau sy’n ymwneud â mewnloli yn ystod blwyddyn 1 (2022/23)

### Cyfyngiadau


- Yr ymateb i covid yn parhau – mae hyn yn cynnwys darparu gofal i gleifion sy’n Covid<sup>+</sup>ve (cleifion sy’n ymddangos yn sylfaenol neu’n ddamweiniol), ymateb Diogelu Iechyd y Cyhoedd, Profi Orlhain, Diogelu, rhaglenni brechu a phigiad atgyfnerthu
- Mesurau Atal a Rheoli Haint, trefniadau glanhau, PPE, cadw pellter cymdeithasol, llwybrau Anadlol/llwybrau nad ydynt yn anadlol yn parhau yn eu lle
- Llai o gapasiti o fewn Gofal Cymdeithasol o ran pecynnau gofal cartref a gofal preswyl
- Argaeledd y gweithlu (iechyd a gofal cymdeithasol)
- Dibyniaeth ar weithwyr locwm a gweithwyr asiantaeth ac effeithiau positif a negatïf ar berfformiad
- Ystadau/isadeiledd a chyfalaf ar gyfer datblygu

Mae canlyniadau’r gwaith yma wedi bod yn sail i’n Setiau Data Sylfaenol. At hyn, dyma’r llinell sylfaen y byddwn yn ei defnyddio ar gyfer cynllunio ac adolygu gweithgarwch. Byddwn yn gwneud hyn ar gyfer pob arbenigedd yn chwarterol. Mae’r ddealltwriaeth yma o’n system wedi ein galluogi i benderfynu ar ein blaenoriaethau o ran gweithredu.

**Galw sydd heb ei atgyfeirio** Mae’n bwysig nad yw ein dealltwriaeth o’r galw ar ein system wedi ei selio ar broffiliau hanesyddol nac ar ein proffiliau rhestrau aros cyfredol gan ein bod angen ystyried y galw sydd heb ei gyfeirio posib a welwyd yn ystod y pandemig. Rydym wedi mesur nifer y cleifion a ddylai fod wedi cael eu hatgyfeirio i’n system yn ystod y pandemig ac wedi cyfrifo maint y bwloch fel y dangosir yn Ffigwr 1.

Er mwyn deall effaith galw sydd heb ei atgyfeirio ar ein system, mae’r data yma wedi bod yn ddarostyngedig i adolygiad clinigol ac mae hyn wedi ein galluogi i gyfrifo faint o atgyfeiriadau sydd yn debygol o ymddangos yn y system wrth i anghenion sy’n ymwneud â phroblemau iechyd isorweddol ddod i’r amlwg. Mae ein senario’n cymryd y bydd y galw sydd heb ei atgyfeirio yma’n ymddangos yn ystod Blwyddyn 1af y cylch cynllunio yma. Rydym wedi cynnwys y senario yn ein rhagdybiaethau galw a chapasiti ar sail arbenigedd


**Ffigwr 1: Galw heb ei atgyfeirio**



Rydym wedi cynnwys y senario yma yn ein cynlluniau wedi i ni ystyried dwy ddamcaniaeth. Er na fydd ein damcaniaeth, o bosib, yn datblygu yn y modd hwn, mae’n bwysig cynllunio ar gyfer yr holl alw posib ar ein system. Pwysig yw cofio, hefyd, fod angen i ni sicrhau fod gwasanaethau ataliol yn eu lle er mwyn cefnogi dirywiad pellach o ran cyflyrau iechyd.

Damcaniaeth	Canlyniad
1. Cyfraddau atgyfeirio'n codi'n gyflym wrth i'r cyfyngiadau o ran mynediad at ofal sylfaenol lacio ar gyfer y rheiny nad ydynt wedi ymddangos o fewn y system yn ystod yr 18/24 mis diwethaf	Cynydd mwy o ran rhestrau aros gofal eilaidd ac amseroedd aros hirach wrth i'r bwllch rhwng galw capasiti gynyddu.
2.	
3. Nid yw pobl yn defnyddio gwasanaethau, mae eu iechyd yn dirywio, maent yn ymddangos yn hwyrach o ran trywydd eu afiechyd, gydag anghenion aciwtedd uwch ac yn aml fel cleifion brys	Mae iechyd y boblogaeth yn gwaethgu, mae'r system yn gwyo at fod yn ymatebol yn hytrach na cynllunedig a rhagweithiol (hy gyda'r capasiti i ganolbwyntio ar atal yn gynnar ac ymyrriaethau cynt). Byddai hyn yn cynnal y cylch dieflig o ran cynyddu'r anghydraddoldebau iechyd a byddai'n system yn teimlo'r effeithiau am ddegawdau i ddod.

**Galw a Chapasiti** yn dilyn y sesiynau clinigol rydym wedi datblygu senario gweithgarwch mwyaf tebygol ar gyfer 22/23, er mwyn deall y gwahaniaeth o ran canran rhagweladwy yn niferoedd y gweithgareddau o'u cymharu â gweithgaredd cyn covid. Bu hyn yn sail i'n meysydd trawsnewid a'n gwaith i adfer lefelau gweithgarwch ac adferiad. Wrth i'r rhain gael eu rhoi ar waith, bydd modd i ni fesur y newidiadau a deall yr effaith ar ein rhagdybiaethau.




Ar y cyfan, bydd atgyfeiriadau Meddygon Teulu'n dychwelyd i lefelau ychydig yn uwch na'r lefelau cyn Covid, er y bydd hyn yn amrywio o arbenigedd i arbenigedd. O ran y galw yn 2022/23, sy'n cynnwys atgyfeiriadau, ôl-groniadau sydd wedi gwaethgu yn ystod y pandemig a galw sydd heb ei atgyfeirio, bydd rhestrau aros cleifion allanol yn cynyddu o hyd at 32% o bosib, mewn cyfnod ble mae cyfyngiadau'n barod ar gapasiti gwasanaethau cleifion allanol yn sgil problemau yn ymwneud â'r ystâd, staffio a Covid-19.

Yn barod, rydym yn gweld cleifion yn ymddangos gydag anghenion fwy aciwt, mae mwy'n ymddangos fel derbyniadau brys ar gyfer arbenigaethau meddygol a llawfeddygol. Mae hyn yn cyflwyno her enfawr o ran ein capasiti gofal wedi'i gynllunio; rydym yn rhagweld y gall ciwiau ar gyfer triniaethau cleifion preswyl ar draws ein system dyfu 14%.


Mae'r trosolwg lefel uchel cyfanredol yma'n cuddio gwahaniaethau rhwng gwasanaethau clinigol. Isod gweler crynodebau ar gyfer Gwasanaethau Meddyginiaeth a Gwasanaethau Menywod a Phlant.

Mae **Gofal wedi'i drefnu** neu gwasanaethau gofal wedi'i cynllunio'n fwy dibynol ar ymgynghoriadau wyneb yn wyneb nag unrhyw wasanaeth arall. O ganlyniad, cânt eu heffeithio'n aruthrol gan gyfyngiadau ar y gwasanaeth cleifion allanol sy'n deillio o ddiffyg gofod, gweithlu a mesurau atal a rheoli haint parhaus fel y dangosir

isod. Bydd llai o gapasiti'n arwain at fwy o ychwanegiadau at y rhestr aros am wasanaethau cleifion allanol.




Mae cyfyngiadau hefyd ar gapasiti triniaethau wedi'i cynllunio cleifion preswyl. Rydym yn rhagweld y bydd nifer y cleifion sy'n ymddangos sydd angen llawdriniaeth frys yn parhau i godi yn ystod 2022/23, ac rydym yn rhagweld y bydd cynnydd o 10% o ran derbyniadau brys o'i gymharu â lefelau cyn Covid. Mae'r cydbwysedd rhwng gofal wedi'i gynllunio a gofal mewn argyfwng yn cael effaith gwirioneddol ar gapasiti y gwasanaethau cleifion preswyl. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan gyfyngiadau pellach o ran oriau theatr llawdriniaethau wedi'u cynllunio a oriau theatr achosion dydd sy'n cael eu gyrru i raddau helaeth gan gyfyngiadau'n ymwneud â'r gweithlu. Bydd llai o gapasiti o ran llawdriniaethau dewisol yn arwain at fwy o bobl yn aros yn hirach.




Dangosir y sefyllfa Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth ar drothwy 2022/23 yma. Wrth i ni geisio darparu gofal a gynlluniwyd cynaliadwy, byddwn yn cyflawni mwy o weithgarwch yn 2022/3, fodd bynnag, bydd ein sefyllfa o ran yr ôl-groniadau ynghyd â'r ymchwydd o ran galw heb ei atgyfeirio yn creu sefyllfa lom na fydd modd ei datrys yn ystod blwyddyn gyntaf y cylch cynllunio yma.

Mae maint yr her yn anferth, ym mis Ionawr 2022, roedd 111,552 o bobl ar y rhestr aros am wasanaethau cleifion allanol a 17,703 ar y rhestr aros am wasanaethau cleifion preswyl.




Gweler yma'r sefyllfa bresennol rhestrau aros am driniaeth ein harbenigaethau sydd wedi eu heffeithio fwyaf, wedi eu rhannu fesul blaenoriaeth glinigol.



Hyd yn oed pe byddai modd i'n system ddychwelyd i'r un capasiti â chyn y pandemig yn gyflym, ni fyddai'n ddigon i ymateb i'r ôl-groniad, cyfraddau atgyfeirio arferol a'r galw sydd heb ei atgyfeirio. Y gwirionedd yw y bydd amseroedd aros yn parhau'n her a bydd angen i'n system roi cynnig i gleifion sy'n aros amser maith cyn cael mynediad at ofal a gynlluniwyd.

Mae angen i amseroedd aros cleifion allanol a chleifion preswyl fod yn blattform gwella allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Ni allwn aros yn llonydd o ran sut yr ydym yn trefnu, defnyddio a darparu gwasanaethau gofal a gynllunnir.


Mae **arbenigaethau** meddygol eisoes yn gweld cyfraddau atgyfeirio'n dychwelyd i'r gyfraddau cyn covid ac mae disgwyl iddynt godi ymhellach erbyn mis Ebrill 2022 (8.7% yn uwch na chyfraddau cyn covid). Mae nifer o'n arbenigaethau meddygol wedi croesawu ffyrdd newydd o weithio sy'n creu mwy o gapasiti o ran apwyntiadau cleifion allanol newydd ac apwyntiadau dilynol. Er y cynnydd o ran capasiti o fewn ein gwasanaethau cleifion allanol, nid yw hyn yn ddigon i fynd i'r adael â'r cynnydd yn y galw a bydd yr amseroedd aros yn parhau i godi.



Rydym yn rhagweld y bydd nifer y cleifion sy'n ymddangos mewn argyfwng yn parhau i godi o leiaf 2.4% o'i gymharu â lefelau cyn-covid. Mae'r twf o ran y rhifau'n cyflwyno sialens yn ei hun, ond mae aciwtedd uwch, derbyniadau hwyr, argaeledd y gweithlu (ym mhob cwr o'r system iechyd a gofal), ynghyd â mesurau rheoli ac atal haint yn gwaethygu'r sefyllfa ymhellach.

Mae **Gwasanaethau Menywod** a phlant yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau ac mae'n anodd eu trafod yn eu crynswth, er hyn, mae'r trosolwg yma'n dangos effaith y trawsnewid sydd wedi digwydd o ran gofal cleifion preswyl i ofal cleifion allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwasanaethau gynaeoleg yn debycach i wasanaethau gofal wedi'i gynllunio ac felly mae'r effaith y mae Covid-19 wedi ei gael ar y gwasanaeth yn wahanol. Mae'r trosolwg yma'n dangos

gwasanaethau gynaeoleg a gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau gynaeoleg ar wahân.




Bydd cyfraddau atgyfeiriad yn parhau i godi. Rhagwelir y bydd cynnydd o 5% y flwyddyn nesaf.

Mae'r rhagdybiaethau'n rhagdybio y bydd blaenoriaethu clinigol yn parhau trwy gydol 2022/23 neu am ran o'r flwyddyn o leiaf. Yng nghyd destun gynaeoleg byddai hyn yn arwain at gynnydd sylweddol o ran y cleifion ychwanegol a fyddai'n ymuno â'r ciw cleifion preswyl (43%) gan mai nifer fechan o wasanaethau yn unig sy'n syrthio o fewn yr uwch categorïau blaenoriaeth clinigol. Mae'r gwasanaeth yn cymryd camau'n barod wrth fabwysiadu dulliau triniaeth dydd fel opsiynau amgen i lawdriniaeth. Bydd angen optimeiddio'r camau o fewn y cynllun yma.

**Iechyd Meddwl** rydym wedi gweld amrywiaeth eang o ran yr atgyfeiriadu i'n gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn rhagweld twf enfawr o ran atgyfeiriadau plant a phobl ifanc, ac mae effaith hyn i'w deimlo ar y gwasanaethau'n barod. Rydym yn rhagweld twf hefyd yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer ein oedolion hŷn gan gynnwys pobl sydd â dementia.

Mae rhestrau aros wedi cynyddu, ar eu huchaf yn yr hydref roedd 9,800 yn aros, ac erbyn hyn mae 9,200 yn aros. Mae dros hanner y bobl yn aros am gyswllt cyntaf

gydag unai Gofal Sylfaenol neu Wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion. Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r bobl sydd ar y rhestrau aros angen ymyrraeth gan mai dyma'r patrwm sydd wedi ymddangos trwy gydol y pandemig.



Mae ein model gwasanaeth wedi datblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnwys Y Noddfa, Shared House a Tŷ Argyfwng. Mae hyn wedi arwain at leihad o ran y cleifion preswyl sy'n cael eu derbyn. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn aciwtedd y cleifion sy'n cael eu derbyn. Caiff hyn ei fesur drwy'r atgyfeiriadau Deddf Iechyd Meddwl a mesurau gofal lefel uwch.

**Cynllun Gwelâu.** Un o fanteision datblygu ein adnodd galw a chapasiti byw yw'r gallu i greu ac alinio capasiti angenrheidiol o fewn ein cynllun gwelâu neu wasanaethau theatr.


Yn ystod holl donnau'r pandemig mae'r Bwrdd Iechyd wedi addasu ei gynllun gwelâu er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol cleifion o fewn ein system. Roedd Cynllun Blyneddol 2021/22 yn cydnabod nad oedd modd cyflawni Cynllun Gwelâu Dyfodol Clinigol o 1,478 o fewn y flwyddyn, a chytunwyd ar gynllun gwelâu pontio o 1,589 gwely.

	Cynllun Gwelâu Drafft 2022/23	Cynllun Gwelâu 2021/22	Gwah	Cynllun Gwelâu Dyfodol Clinigol	Gwah
Gofal Brys	54	54	0	66	-12
Meddygaeth	731	758	-27	507	224
Gofal Wedi'i gynllunio	352	344	8	386	-34
Teulu a Therapiau	185	179	6	184	1
Cymuned	255	254	1	335	-80
<b>Cyfanswm</b>	<b>1577</b>	<b>1589</b>	<b>-12</b>	<b>1478</b>	<b>99</b>

12 mis yn ddiweddarach, rydym yn gweld aciwtedd cleifion yn cynyddu ac mae llif y system wedi ei chyfyngu ac yn debygol o aros felly am beth amser. Rydym yn cydnabod fod yr hyn sy'n sail i'n Cynllun Gwelâu Dyfodol Clinigol wedi newid, ac nad yw'r cynllun i drawsnewid gwasanaethau a ddylai ei gefnogi (darparu mwy o ofal yn y gymuned) yn ei le eto er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth. Mae'r system angen 99 gwely wedi ei staffio ychwanegol (i linell sylfaen Dyfodol Clinigol) yn 2022/23 er mwyn diwallu'r galw a ragwelir o fewn ein modelau gofal presennol.

Rydym yn cydnabod fod y ffordd y mae ein gwelâu yn cael eu defnyddio yn dilyn y pandemig yn creu her ychwanegol o ran rheoli llif a'r agenda adferiad.

Er fod y niferoedd sy'n cael eu derbyn, sy'n aros yn yr ysbty am dros 21 niwrnod yn dilyn patrwm tebyg i'r patrwm a welwyd cyn covid...



Mae canran y gwelâu y mae'r cleifion yma'n eu defnyddio wedi gostwng yn sylweddol. Mae hyn yn gyrru ein blaenoriaethau o ran ein gwaith ar wella rhyddhau cleifion a'r gwaith parhaus gyda'n partneriaid o fewn Awdurdodau Lleol a Gofal Cymdeithasol.

Mae ein model gwasanaeth Gofal yr Henoed yn gyrru'r angen am fwy o gapasiti ar gyfer cleifion preswyl, ac mae hyn arwain at her o ran y gweithlu. Mae pobl hŷn yn gynyddol ymddangos yn hwyr, gydag anghenion mwy cymhleth, o fewn rhan o'n system sy'n darparu gofal mewn modd feddygol. Bydd angen i'r model gwasanaeth meddygol presennol sydd ar gael i'r cleifion yma ddatblygu er mwyn canolbwyntio ar ailalluogi a gofal yn nes at y cartref er mwyn creu gwell buddion i'n cleifion a'n system.

Mae **Deall ein system** drwy ddefnyddio data wedi ein galluogi i nodi meysydd penodol y mae angen gwneud ymdrech unedig i'w newid, a hynny er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth yn ogystal â chreu system fwy cadarn a chynaliadwy. Mae'r camau gweithredu sydd ar y gweill yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'n system. Mae hyn yn rhoi llwybr clir i ni o ran deall effeithiau posib y dull a'r dewisiadau yr ydym yn eu gwneud er mwyn rhoi sylw i'r prif heriau sy'n wynebu ein system o ran iechyd y boblogaeth ac mae wedi ein cyfeirio at cyfres o gamau gweithredu pendant a fydd, wrth roi sylw iddynt, yn gwneud y cyfraniad mwyaf o ran optimeiddio capasiti, gwella canlyniadau a phrofiadau a lleihau niwed. Mae adran nesaf y cynllun yn gosod y Rhaglenni Dyfodol Clinigol sy'n ymateb i'r heriau yma.

**Y negeseuon sy'n deillio o'n system ....**

Mae angen cryfhau ein uchelgais o ran diogelu iechyd y cyhoedd a chryfhau'r ymateb amlasiantaeth	Mae'n rhaid mynd i'r afael, yn yr un modd, ag anghydraddoldebau iechyd sy'n cynyddu a iechyd y boblogaeth (corfforol a seicolegol) sy'n gwaethgu er mwyn sicrhau adferiad
Mae gofal yn nes at y cartref ar ei orau ac yn diwallu anghenion lleol pan mae'n seiliedig ar ofal cadarn o'r math cywir, pan mae'n meddu ar yr adnoddau priodol, a phan mae'n seiliedig ar leoedd	Bydd galw'n fwy na chapasiti, bydd pobl yn aros yn hirach, mae'n rhaid i'r adnoddau sydd ar gael leihau niwed a dod â'r budd mwyaf i gynifer o bobl â sy'n bosibl o fewn y boblogaeth
Mae gan ein rhwydwaith ysbytai newydd, yn benodol ein YCLUg seilwaith etifeddol sy'n ein galluogi i wahanu gofal mewn argyfwng a gofal wedi'i gynllunio (diagnosteg a thriniaethau). Mae creu'r model iawn yn allweddol o ran adferiad cynaliadwy	Newid hinsawdd yw'r her fwyaf sy'n wynebu Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe allwn, ac mae'n rhaid i ni, wneud mwy fel sector cyhoeddus i gyfrannu at yr her Sero Net

## Trawsnewid System Gyfan

Gosododd ein Strategaeth Dyfodol Clinigol ein uchelgais i drawsnewid ein system ofal iechyd a gosododd y seiliau ar gyfer newid.



Rydym wedi mabwysiadu dull rheoli rhaglen drwyadl a systematig fel modd o gyflawni prif gydrannau'r strategaeth. Yn ystod y pandemig, roedd ein pwyslais ar gefnogi a datblygu modelau gwasanaeth ar gyfer ein system ysbytai newydd, ac agor Ysbyty Athrofaol y Faenor. Mae'r hyn yr ydym wedi ddysgu o'r rhaglen waith Dyfodol Clinigol, sef yr hyn sydd wedi ein galluogi i agor Ysbyty Athrofaol y Faenor, yn dangos yn gwbl glir fod trefniadau rhaglen eglur a digyfnwid yn bwysig os am gyflawni'n effeithiol.

Rydym wedi ail osod blaenoriaeth y Tîm Dyfodol Clinigol ar gyfer y cylch cynllunio yma, ac maent bellach yn cefnogi'r gwaith o wireddu nifer benodol o flaenoriaethau sefydliadol. Mae'r blaenoriaetha yma'n ymateb i'r heriau y mae ein model cynllunio dynamig wedi tynnu sylw atynt.



Yn ôl yr hyn yr ydym yn ei ddeall ar hyn o bryd am ein system, y prif flaenoriaethau yma a fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran gwella cynladwyedd ein system. Y blaenoriaethau:

1. Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Gwella Iechyd y Boblogaeth
2. Datblygu Clwstwr Carlam
3. Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn
4. Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl
5. Adfer Gofal wedi'i Gynllunio
6. Trawsnewid Gwasanaethau Canser
7. Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Brys
8. Rhwydwaith Ysbytai Cyffredinol Lleol Gwell
9. Sero Net – Datgarboneiddio

Mae nifer o'r blaenoriaethau yma wedi eu hymgorffori yn ein Dull Gydol Oes. Fodd bynnag, wrth i ni symud oddi wrth senario pandemig at senario endemig, system wahanol iawn i'r un yr oeddem wedi bwriadu ei chreu fel rhan o'n Strategaeth Gofal Clinigol sy'n camu ymlaen. Wrth ddysgu o brofiadau'r 18 mis diwethaf, sylweddolom fod cyfleoedd ar gael a fyddai'n ein galluogi i greu system fwy cadarn a chynaliadwy. O ganlyniad, mae amryw o'n blaenoriaethau uwchlaw ein dull gydol oes ond, er hyn, yn parhau'n ran annatod ohono. Maent hefyd yn ffurfio rhan o'n Rhaglen Dyfodol Clinigol 2022/25.

Blaenoriaethau Dull Gydol Oes	Pan Life-Course Priorities
<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ <a href="#">Gwella Iechyd y Boblogaeth</a></li> <li>❖ <a href="#">Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn</a></li> <li>❖ <a href="#">Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl</a></li> <li>❖ <a href="#">Adfer Gofal wedi'i Gynllunio</a></li> <li>❖ <a href="#">Trawsnewid Gwasanaethau Canser</a></li> <li>❖ <a href="#">Trawsnewid Gofal Brys</a></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>❖ <a href="#">Datblygu Clwstwr Carlam</a></li> <li>❖ <a href="#">Diogelu Iechyd y Cyhoedd</a></li> <li>❖ <a href="#">Rhwydwaith Ysbytai Cyffredinol Lleol Gwell</a></li> <li>❖ <a href="#">Sero-net - Datgarboneiddio</a></li> </ul>

Mae sicrhau diwylliant, gwerthoedd a dull cyson, ochr yn ochr ag arweinyddiaeth glinigol a gweithredol gyson yn hanfodol o ran cyflawni'r blaenoriaethau yma. Mae tîm y Swyddfa Rheoli Rhaglen Dyfodol Clinigol yn cynnig arbenigedd rheoli rhaglen

a thrylwyrdd yng nghyd destun y blaenoriaethau allweddol uchod, sy'n rhan o'n dull gydol oes, a fydd. Os nad yw'r sefyllfa bresennol yn newid, bydd effaith andwyol ar gynladwyedd ein systemau.

## DIOGELU IECHYD Y CYHOEDD

Drwy weithio gyda'n gilydd i ymateb i Covid-19, mae'r berthynas rhwng sefydliadau sector cyhoeddus wedi aeddfedu. Mae'r feirws wedi tynnu sylw at pa mor amharod yw'r DU a rhannau helaeth o'r byd am yr heriau y mae ein poblogaeth, ein gweithlu a'n gwasanaethau'n eu wynebu. Mae Gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu Gwent wedi bod yn gweithredu ers mis Mehefin 2020. Maent wedi olrhain dros 155,000 o achosion Covid-19 positif ar draws Gwent, gan leihau lledaeniad y feirws ac, yn y pen draw, helpu i achub bywydau. Mae cyllid ar gyfer y gwasanaeth amlasiantaeth yma'n dod i ben ar y 30ain o Fehefin 2022.

Rydym wedi sylweddoli fod yn rhaid i'n system fod yn fwy uchelgeisiol o ran Diogelu Iechyd y Cyhoedd, a bod yn barod ar gyfer rheoli brigiadau o glefydau heintus, olrhain cysylltiadau, diogelu ein poblogaethau mwyaf bregus a'n gweithlu, cynnal gwyliadwriaeth effeithiol a sicrhau fod mwy yn manteisio ar raglenni brechu.


Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'n partneriaid o fewn Awdurdodau Lleol ar ddatblygu achos busnes a fydd yn pontio'r gweithlu Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu Gwent a'u galluogi i barhau i ddiogelu iechyd y boblogaeth a chyfrannu at wella canlyniadau iechyd y boblogaeth.

Er ein bod yn rhagweld y bydd lledaeniad Covid-19 yn arafu yn yr hirdymor, rydym yn cydnabod fod angen cynnal cadernid gan fod y feirws yn parhau i ledaenu, ond ar lefel is. Golyga hyn fod angen capasiti er mwyn ymateb i'r posibilrwydd y bydd lefelau trosglwyddiad y feirws yn cyrraedd lefel hyper-endemig. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod beth sy'n ein wynebu yn y dyfodol o ran Covid-19 a sut y bydd angen i ni ymateb, ond mae'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu drwy Profi, Olrhain a Diogelu'n awgrymu y gallwn reoli clefydau anadlol yn fwy effeithiol yn y dyfodol drwy sicrhau fod Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn modd integredig.

Mae'r angen i flaenoriaethu Covid-19 wedi bod ar draul gwaith iechyd y boblogaeth rhaglunedig am ein bod wedi gorfod ail-leoli adnoddau. Fel modd o ddatrys hyn,

bydd y gweithlu hyblyg wrth gefn yn cael eu hyfforddi yn ystod Blwyddyn 1 (Mawrth 2022- Ebrill 23) mewn ystod o sgiliau iechyd y boblogaeth.

Blaenoriaethau'r gweithlu pontio yw ymateb i Covid-19 yn ôl y galw, darparu cymorth iechyd y boblogaeth ychwanegol a darparu cefnogaeth ychwanegol i'r rhaglen gwella iechyd. Dangosir ffofocs blaenoriaethau'r gweithlu pontio yn Ffigur 2.



Yn ogystal â darparu diogelwch iechyd y boblogaeth a chefnogi iechyd y boblogaeth, bydd y gwasanaeth hefyd yn creu swyddi lefel mynediad tra'n cefnogi llwybr cynnydd fel rhan o economi sylfaen ein cymunedau lleol.

**Gwella Iechyd y Boblogaeth** mae cyflawni Gwent lachach yn gosod ein dull o ran lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd y boblogaeth. Bydd ein uchelgais o ddod yn Rhanbarth Marmot a gweithio ar y cyd fel sector cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth hirdymor.

## DATBLYGU CLWSTWR CARLAM

Mae'r model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru'n gosod sut y bydd gwasanaethau sylfaenol a gofal iechyd cymdeithasol yn gweithio o fewn y system gyfan er mwyn darparu gofal sy'n seiliedig ar leoedd. Mae gweithio clwstwr wrth galon y gwaith yma, gan ei fod yn dod â gwasanaethau iechyd a gofal lleol ynghyd er mwyn sicrhau fod gofal yn cael ei gydlynu'n well er budd lles pobl a chymunedau.

Mae pob Rhwydwaith Gofal yn y Gymuned (clwstwr) wedi datblygu cynllun tymor canolig integredig ei hun. Mae'r cynlluniau'n gosod eu meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2022/23 a byddant yn cael eu cyflawni drwy ddull gofal sy'n seiliedig ar leoedd. Ar y cyd byddant yn canolbwyntio ar:

- Ymateb i Adferiad Covid gan gynnwys brechu, mynediad at bob proffesiwn contractwr annibynnol gan gynnwys ôl-groniadau
- Datblygu cysylltiadau rhwng partneriaid gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Awdurdodau Lleol a darparwyr iechyd meddwl Haen 0/1 er mwyn cynyddu capasiti a chyrhaeddiad
- Rhoi dulliau iechyd y boblogaeth cadarn ar waith gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar ordewdra, diabetes, iechyd a lles meddyliol a mesurau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
- Cynlluniau Gweithredu Lleol er mwyn cefnogi Datblygu Clwstwr Carlam, Gofal Sylfaenol Brys, Isadeiledd yn y Gymuned a Lles Meddyliol



Gellir cael gafeael ar gynlluniau'r NCN drwy glicio ar y dolenni ar y map uchod.

Wrth i Fodel Gofal Sylfaenol Cymru aeddfedu, mae'r ffocws wedi symud at sefydlu dulliau cynllunio clystyrau cyfan ar lefel Llywodraeth Leol. Byddant yn gyfrifol am asesu anghenion y boblogaeth, dadansoddi bylchau, datblygu cynlluniau sy'n cynnwys costau a chomisiynu gwasanaethau i'w darparu ar lefel Clwstwr cyfan yn unig (er enghraifft mynediad uniongyrchol at ffisiotherapi neu well gofal mewn cartref nyrsio yn hytrach na gwaith ar atal diabetes, sydd yn ofal sy'n seiliedig ar le).

Ein ffocws yn 2022/23 fydd gosod seiliau ar gyfer grwpiau clwstwr cyfan a byddwn yn

Alinio **grwpiau clwstwr cyfan** gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol / Rhwydweithiau Llesiant Integredig / NCNs, a chytuno ar y trefniadau llywodraethol a fydd yn sail i'r trefniadau yma

**Nodi a chadarnhau'r is-strwythur sydd ei angen er mwyn cefnogi'r grwpiau clwstwr cyfan** Ar hyn o bryd mae'r is-strwythur sy'n cefnogi ein NCNs yn cynnwys 2 sesiwn Meddyg Teulu/wythnosol er mwyn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau a chreu cysylltiad gydag arbenigaethau er mwyn gwella llwybrau a phrosesau ar gyfer cleifion. Cânt eu cefnogi gan dîm bychan o fewn y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol a Chymdeithasol. Ni fydd y trefniadau yma'n ddigonol o ran cefnogi'r trefniadau a'r swyddogaethau (asesu angen, cynlluniau'n cynnwys costau ar lefel clwstwr gyfan, comisiynu) a ddisgwylir gan y Grwpiau Clwstwr Cyfan.

Mae'r NCNs ar wahanol lefelau o ran aeddfedwydd. Bydd y rheiny sy'n barod i ffurfio clwstwr carlam yn greu proses gyntunedig a chynlluniau er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd fel rhan o'n rhaglen Grŵp Clwstwr Carlam.

### RHWYDWAITH YSBYTAI CYFFREDINOL LLEOL GWELL (YCLIG)

Mae agor Ysbyty Athrofaol y Faenor wedi ein galluogi i wireddu ein cynllun rhwydwaith ysbytai newydd. Mae'r rhwydwaith bellach yn cynnig cyfleoedd i ni optimeiddio ein hadferiad yn dilyn y pandemig, moderneiddio ein system ysbytai a chreu system ofal mwy cadarn a chynaliadwy.



Mae ein Strategaeth Dyfodol Clinigol yn ceisio creu cydbwysedd o fewn ein system ofal unwaith eto drwy ddarparu'r rhan helaeth o ofal yn agos at y cartref, creu rhwydwaith o ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnosteg, triniaeth ac adferiad rheolaidd, a chyfuno gwasanaethau arbenigol a chritigol mewn Canolfan Gofal Critigol (Ysbyty Athrofaol y Faenor).

Mae'r pandemig wedi cael effaith aruthrol ar ein cymunedau, ein staff a'n gwasanaethau. Rydym wedi ymateb i gleifion sy'n dioddef o Covid-19, cynnal gwasanaethau hanfodol, rhedeg rhaglenni brechu a phigiad atgyfnerthu torfol, ac wedi parhau i ddarparu cymaint o wasanaethau â phosibl. Yn ystod y cyfnod yma mae rhestrau aros am ofal wedi'i gynllunio rheolaidd wedi tyfu ac mae amseroedd aros wedi cynyddu'n sylweddol. Gan ein bod wedi cychwyn ar y gwaith o ail-gychwyn, mae atgyfeiriadau wedi cynyddu, ac mae amseroedd aros ar gyfer rhai arbenigaethau yn sylweddol uwch nac yr oeddynt cyn y pandemig. Mae'r effaith ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu ofal neu driniaeth sy'n newid bywyd yn enfawr.

Flwyddyn wedi agor Ysbyty Athrofaol y Faenor, rydym yn hoelio ein sylw ar swyddogaeth y rhwydwaith ysbyty ehangach. Mae'r etifeddiaeth o ran isadeiledd ein ystâd Ysbytai Ardal Lleol yn cefnogi rhannu llif cleifion brys a llif cleifion gofal wedi'i gynllunio rhwng ein ysbytai. Mae'n rhoi'r cyfle i ni alinio ein gweithlu er mwyn cynllunio ac ail-gychwyn ein gwasanaethau mewn modd mwy cynaliadwy er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth.

Bydd safleoedd ein rhwydwaith Ysbytai Cyffredinol Lleol Gwell yn canolbwyntio ar driniaeth lawfeddygol wedi'i gynllunio a bydd gwasanaethau brys yn cael eu darparu'n ganolog yn y Faenor. Bydd hyn yn ein galluogi i ddiogelu gofal wedi'i gynllunio a'n galluogi i newid ffocws, optimeiddio a thrawsnewid modelau gwasanaeth er mwyn diogelu capasiti gofal wedi'i gynllunio. Rydym yn ailmweld â model gwreiddiol yr YCLIG y Strategaeth Dyfodol Clinigol yng nghyd-destun ein system yn 2022, ac yn ystyried yr hyn y gall ein isadeiledd ei gefnogi o ran cynyddu gofal wedi'i gynllunio, nid yn unig ar gyfer ein poblogaeth, ond ar gyfer ein poblogaethau cyfagos hefyd.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth o ofal wedi'i gynllunio, mae ein YCLIG hefyd yn parhau'n ran bwysig o'n system ofal brys a gofal mewn argyfwng. Maent yn darparu gwasanaethau man anafiadau, Gofal Sylfaenol Brys ac yn cynnal asesiadau meddygol ar gyfer achosion aciwtedd isel fel rhan o'n 'Drws Ffrynt Integredig'. Maent yn darparu Gofal Brys yr un Diwrnod ar y cyd â gwasanaethau Arbenigol a gwasanaethau Argyfwng Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Mae'r Ganolfan Llif bellach yn ran greiddiol o'n system, a byddwn yn cynyddu ei swyddogaeth o ran hwyluso gofal mewn argyfwng nad yw ei angen yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, ar gyfer cleifion drwy ein rhwydwaith YCLIG.

Byddwn yn cadarnhau ac/neu'n ailddiffinio swyddogaethau craidd a swyddogaethau pellach bob ysbyty ac yn sicrhau fod ein poblogaeth yn deall beth mae hyn yn ei olygu iddynt, sut y byddant yn cael mynediad at ofal brys/mewn argyfwng, diagnosteg neu wasanaeth wedi'i gynllunio, ar gyfer adferiad ac er mwyn sicrhau cynaladwyedd hirdymor ein system. Y blaenoriaethau a fydd yn cael effaith, yn y tymor byr, ar ein gallu i wneud cynnydd o ran adferiad ôl-bandemig yw:


<b>Diogelu ac Optimeiddio Capasiti Gofal Wedi'i Gynllunio</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfan Ragoriaeth achosion dydd sy'n gweld nifer uchel o gleifion yn Ysbyty Neuadd Nevill ar mwyn cynyddu capasiti</li> <li>• Darparu mwy o driniaethau cleifion preswyl yn Ysbyty Brenhinol Gwent <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Model Ysbytai Liw Nos cadarn</li> <li>▪ Model trosglwyddo rhwng ysbytai cadarn</li> <li>▪ Cynnydd o ran Capasiti Gofal yn dilyn Llawdriniaeth</li> <li>▪ Protocolau Anesthetig</li> </ul> </li> <li>• Syrjeri Triniaeth Dydd (gynaecoleg, orthopedig, a llawdriniaethau cyffredinol)</li> <li>• Endosgopi (mewnoli ac achos busnes sy'n cefnogi ehangu capasiti'r gwasanaeth endosgopi)</li> </ul>	<p>Cynyddu nifer a math y triniaethau a ddarperir (yn ddiogel) yn YBG ble gellir diogelu capasiti triniaethau wedi'u cynllunio</p>
<b>Uned y Fron</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgorffori modelau gwasanaeth mewn paratoad am Uned y Fron yn Ysbyty Ystrad Fawr</li> </ul>	
<b>Gofal/Llif Brys</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Drws Ffrynt Integredig yn ein YCLIG sy'n darparu Gofal mewn Argyfwng yr un Diwrnod gwell gyda chysylltiadau gyda'n Canolfan Llif ac Adran Argyfwng YAF</li> </ul>	
<b>Staffio</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Modelau staffio cynaliadwy ar gyfer YCLIG sy'n sail i swyddogaethau estynedig ein rhwydwaith YCLIG</li> </ul>	

## SERO NET – DATGARBONEIDDIO

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd yn 2019 gan osod eu huchelgais i sectorau cyhoeddus Cymru fod mewn sefyllfa carbon ‘Sero net’ erbyn 2030. Mae’r ymateb i’r pandemig wedi dangos sut y gellir ymgorffori newidiadau sylweddol a phellgyrhaeddol ym mywyd bob dydd y cyhoedd ac o fewn dulliau gweithio, er enghraifft gweithio o bell. Ein uchelgais, erbyn hyn, yw sicrhau adferiad cynaliadwy a iach sy’n deillio o weithredu ar y cyd, o fewn ac ar draws ein system er mwyn mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiweddar, fel y gwelir isod, ond mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021) yn gosod mwy o gyfleoedd i edrych unwaith eto ar adeiladu a’r defnydd o ynni, yn ogystal â chaffael, teithio a ffynonellau allyriadau eraill ar draws y GIG.


### Diweddariad ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol BIPAB Tachwedd 2021




Mae’r Cynllun Datgarboneiddio Strategol yn pwysleisio pa mor enfawr yw’r her ac yn tynnu sylw at y cyd-destun unigryw o ran gweithredu sydd ar gael yng Nghymru drwy’r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r cynllun hefyd yn egluro beth yw’n ymrwymiad o ran lleihau effaith amgylcheddol newid hinsawdd a’n cyfrifoldeb i yrru buddion ehangach y camau a gymerir i leihau allyriadau a llygredd er mwyn gwella iechyd y boblogaeth.

Cyfrifwyd fod ôl troed carbon GIG Cymru ar gyfer 2018/19 yn 1 miliwn tonnell o allyriadau CO<sub>2</sub>. Gellir priodoli 14% ohono i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Wrth ystyried cyfran ein allyriadau sy’n deillio o achosion uniongyrchol, anuniongyrchol (ynni) ac effeithiau anuniongyrchol eraill, gellir gweld yn glir fod angen i ni ehangu ein gorwelion a pheidio â chanolbwyntio ar ein ystadau’n unig, er mwyn datblygu dull systemaidd a diwylliant sy’n seiliedig ar gynaliadwyedd sy’n ein galluogi i gyfrannu’n llawn at fynd i’r afael â phenderfynyddion ehangach newid hinsawdd sydd o fewn ein gafael.



### Ôl Troed Carbon GIG Cymru yn ôl Allyriad 2018/19



Mae Cwmpas 3, allyriadau anuniongyrchol eraill sy’n gysylltiedig â’r gadwyn

gyflenwi'n enghraifft dda. Mae'r dewisiadau yr ydym yn eu gwneud ynglŷn â'r cyffuriau yr ydym yn eu defnyddio ac sut yr ydym yn eu caffael, ac yn yr un modd, yr offer a chyflenwadau meddygol yr ydym yn eu defnyddio'n cynrychioli 24% o'n allyriadau.


Fel rhan o'r broses i gadarnhau ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio a Sero Net Strategol, rydym yn ceisio gosod seiliau cadarn fel modd o gyflawni. Drwy ddefnyddio ein mecanweithiau archwilio mewnol, rydym yn gwerthuso'r systemau a'r mesurau sydd yn eu lle ar draws y sefydliad gan gynnwys:

- Llywodraethu (atebolrwydd, hyfforddiant, cyfathrebu er mwyn ymgorffori newid)
- Strategaethau lleol (alinio cynllun gweithredu datgarboneiddio gyda strategaethau sefydliadol a strategaethau'r gwasanaethau, wedi'u cefnogi gan ganllawiau/gweithdrefnau)
- Monitro ac adrodd (rancio mentrau ymarferol, gosod targedau, cael gafael ar ddata er mwyn gwneud cyfrifiadau cywir, adrodd ar gynnydd)
- Cydweithio (adnodd allanol, arbenigedd, arweinyddiaeth, rhoi enghreifftiau Cymru Gyfan ar waith)
- Ymgorffori newid (adeiladau ac adeiladau newydd; cludiant, caffael, mabwysiadu technoleg newydd)

Rydym yn cwmpasu sut yr ydym yn gosod amodau lleol ar y 46 menter sydd wedi eu gosod yn y Cynllun Cenedlaethol. Bydd hyn yn ffurfio cynllun gweithredu Datgarboneiddio a Sero Net byw a fydd yn gallu addasu wrth i amcanion, targedau a chynnydd newid.


Rydym yn sylweddoli fod gwireddu sero net yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae'n cyffwrdd â phob rhan o'n system, o'r ffordd yr ydym yn rheoli'r ystadau i'r dulliau yr ydym yn eu defnyddio yn ogystal â sut y byddwn

yn caffael a darparu gofal iechyd.




## PRIF ALLUOGWYR

Galluogwyr yw'r ffactorau a fydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflawni prif flaenoriaethau'n llwyddiannus. Gwyddom nad ellir gwahanu cyflawni rhag cyd-destun o fewn y sefydliad, ar draws ein cymunedau a'r system ehangach. Ein nod yw gwneud newidiadau cynaliadwy i'n system. Golyga hyn 'nad y broses a'r canlyniad yn unig sydd wedi newid, mae'r ffordd o feddwl a'r ymddygiadau sydd y tu cefn iddynt wedi newid yn sylweddol hefyd ac mae'r system sy'n eu hamgylchynu wedi ei thrawsnewid'.



## 1. PROFIAD, ANSAWDD A DIOGELWCH

Mae profiad, ansawdd a diogelwch wrth galon ein gwaith o sicrhau gwelliannau o ran ansawdd y gofal a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a'r gwaith o wella'r canlyniadau ar gyfer y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn anelu at drefnu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau fod pob person sy'n defnyddio ein gwasanaethau, boed hynny yn y cartref, yn y gymuned neu mewn ysbyty, yn cael profiad cadarnhaol. Mae profiad, ansawdd a diogelwch yn gydran graidd o fewn ein holl gynlluniau, a hynny yng nghyd-destun y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd ac yng nghyd-destun y newidiadau yr ydym yn cynnig eu gwneud i fodolau gofal yn y dyfodol, boed yn newidiadau bach o fewn un gwasanaeth i ailgynllunio gwasanaeth yn llwyr er mwyn darparu system iechyd a gofal gynaliadwy yn dilyn pandemig Covid-19.



Mae'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)2020 yn ymgorffori dyletswydd cyfreithiol i ddarparu, nid yn unig, gofal o ansawdd ond i sicrhau gwelliant o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir er mwyn creu canlyniadau gwell ar gyfer pobl Cymru. Mae'n rhoi mwy o lais i'r dinesydd ac yn rhoi dyletswydd gonestrwydd ar sefydliadau GIG a Llywodraeth Cymru. Drwy gyfrwng ein Fframwaith Sicrwydd Ansawdd (2021) rydym wedi gosod seiliau cadarn sy'n ein cefnogi i fabwysiadu'r dyletswyddau newydd yma wrth iddynt gael eu deddfu.

**Galluogi Diwylliant Diogelwch** – mae datblygu diwylliant cadarn sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch di-amod cleifion yn gofyn am ddull system gyfan sy'n lleihau niwed y gellir ei osgoi, gwella canlyniadau a phrofiad ac yn cael gwared ar amrywiaethau a gwastraff. Bydd ymgorffori system lywodraethu glinigol safonol sy'n gweithredu o'r lefel weithredol i fyny i'r bwrdd, sydd wedi ei chynllunio o gwmpas Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru, ac wedi ei alinio gyda'r fframwaith gwneud penderfyniadau mewn modd integredig (Nodau Gofal), yn rhoi sicrwydd i'r sefydliad ar ansawdd a risg. Mae meysydd cyflawni allweddol yn cynnwys:

<ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod y dystiolaeth graidd a fydd yn cael ei hystyried gan bob Pwyllgor (is-bwyllgor gwasanaeth/cyfarwyddiaeth ar lefel y bwrdd) er mwyn rhoi sicrwydd ar gyflawniad y Safonau Iechyd a Gofal (erbyn mis Rhagfyr 2023)</li> <li>Datblygu cynllun archwilio clinigol corfforaethol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran sicrwydd</li> <li>Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob un o'r Safonau Iechyd i'w hystyried gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion</li> <li>Mecanweithiau sicrwydd wedi'u hatgyfnerthu ar gyfer gwasanaethau comisiwn</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu strwythurau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion o fewn cyfarwyddiaethau/adrannau, gan safoni llinellau cyfrifoldebau, atebolrwydd, uwchgyfeirio a sicrwydd erbyn mis Mehefin 2022</li> <li>Safoni adnoddau, swyddogaethau, proffiliau a threfniadau arfarnu ar gyfer arweinwyr ADP</li> <li>Safoni agenda ADP (seiliedig ar dystiolaeth a risg)</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Diffinio'r gefnogaeth gan dimau corfforaethol sy'n gysylltiedig a'r agenda ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion a gosod y disgwyliad</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Barod ar gyfer y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu gan gynnwys y Dyletswydd Gonestrwydd a Dyletswydd Ansawdd pan fyddant yn cael eu cyhoeddi</li> <li>Cyflwyno'r fframwaith gwneud penderfyniadau mewn modd integredig a datblygu'r Bwrdd a nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ei rhoi ar waith</li> <li>Sicrhau fod y grwpiau'r pwyllgorau ar draws y Bwrdd Iechyd yn gallu bod yn ymatebol o ran hybu ansawdd a diogelwch cleifion ar holl lefelau'r sefydliad</li> </ul>

Mae **Sefydliad sy'n Dysgu** yn un ble mae pobl yn ehangu eu gallu'n barhaus er mwyn datblygu a gwella; gellir gwneud hyn ar lefel unigolyn, tîm neu ar lefel sefydliadol. Dylai Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion fod yn sail annatod wrth benderfynu ar y trywydd y dylid ei ddilyn o ran dysgu ac addysg, a dylai gefnogi dull ymatebol o ran themâu a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Dylid ymgymryd â'r gwaith yma drwy lynu at egwyddorion gwneud penderfyniadau mewn modd integredig a chyd-gynhyrchu. Mae meysydd cyflawni allweddol yn cynnwys:

Nodi blaenoriaethau a ffynonellau gwybodaeth allweddol o ran ansawdd a diogelwch cleifion, fel sail i'r agenda ddysgu ac addysg a arweinir gan farn y defnyddwyr gwasanaeth
Cydweithio rhwng timau corfforaethol a thimau addysg er mwyn cefnogi datblygiad gweithwyr iechyd proffesiynol o ran blaenoriaethau ansawdd a diogelwch allweddol
Hwyluso dulliau aml broffesiwn o ran addysg sydd wedi ei alinio ag ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion
Dysgu ac addysg yn cael cynrychiolaeth ar grwpiau ansawdd a diogelwch cleifion allweddol ar draws y sefydliad

Cynorthwyo cyfarwyddiaethau i baratoi strategaeth gwelliant safonol flynyddol yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd wrth adolygu cwynion, digwyddiadau, achosion ac archwiliadau
Creu capasiti o fewn timau i gyd-gynhyrchu hanesion cleifion yn ddigidol fel modd o ddysgu a gwranddo
Safoni cofnodion hyfforddiant, addysg a chymwyseddau er mwyn cael gwared ag amrywiaeth o ran dulliau addysg
Sefydlu Tîm Ymchwilio Covid i ymchwilio i achosion o covid a gafwyd yn yr Ysbyty er mwyn canfod a oes rheolau wedi'u torri a sicrhau ein bod yn dysgu o'r achosion

**Diwylliant Teg** – ystyried problemau systemaidd ehangach pan mae pethau'n mynd o'i le, er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol a'r rheiny sy'n gweithredu'r system i ddysgu heb orfod bod ofn cosb neu ddial.

Mae trin staff yn deg yn cefnogi diwylliant sy'n seiliedig ar degwch, gonestrwydd a dysgu o fewn y GIG drwy sicrhau fod staff yn teimlo'n hyderus y gallant ddweud eu dweud pan mae pethau'n mynd o'i le yn hytrach na bod ofn cael bai. Mae cefnogi staff i fod yn agored ynglŷn â chamgymeriadau'n sicrhau fod gwersi gwerthfawr yn cael eu dysgu ac yn lleihau'r risg fod yr un peth yn digwydd eto. Mae hyn yn arf pwerus o ran hybu newid diwylliant.

Bydd deall swyddogaeth rhagfarn ddjarwybod wrth wneud penderfyniadau'n fodd o sicrhau fod staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg bob amser, beth bynnag fo eu grŵp staff, proffesiwn neu gefndir. Mae meysydd cyflawni allweddol yn cynnwys:

Ymgorffori'r defnydd o NHS Just Culture Guide ochr yn ochr ag ymchwiliadau i ddiogelwch staff pan ddaw i'r amlwg efallai fod aelod o staff angen cymorth neu reolaeth er mwyn gweithio'n ddiogel
Cymeradwyo dull sy'n cefnogi staff sydd ynghlwm â digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch staff
Hyrwyddo diwylliant lle gellir rhoi gwybod am ddigwyddiadau'n ddiogel
Mabwysiadu safon cenedlaethol ar gyfer cynnal adolygiadau cyson o safon uchel
Cyflwyno'r Dyletswydd Gonestrwydd a'r Dyletswydd Ansawdd er mwyn dysgu o ddigwyddiadau a phryderon <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu bwletin dysgu er mwyn rhannu'r hyn a ddysgir ar draws y sefydliad</li> <li>Datblygu a chyhoeddi adroddiad ansawdd yn unol â'r hyn sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru</li> </ul>





- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth
- Pobl sy'n byw â dementia
- Gofalwyr nad ydynt yn cael eu talu, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Pobl sydd ag anableddau dysgu ac neu gyflyrau niwroddatblygiadol
- Plant sydd ag anghenion cymhleth
- Pobl sydd ag anghenion o ran iechyd a lles meddyliol ac emosiynol

Mae canllawiau sydd wedi eu diweddarau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno modelau gofal integredig a fydd yn cael eu datblygu a'u hymgorffori trwy gydol oes y cynllun yma. Trwy'r dull yma bydd ein partneriaethau'n ymestyn ar draws Cymru at ddibenion rhannu'r hyn a ddysgir ac arfer gorau. Bydd y gwaith yma'n cael ei hwyluso gan nifer o Gymunedau Ymarfer.

<p><b>Gofal Cymunedol Atal a Cydym Cymunedol</b></p> <p>Cynyddu gwytnwch pobl a chymunedau, cymedroli'r galw o ran anghenion iechyd ac i gofal cymdeithasol gan sicrhau y gallir diwallu anghenion cymhleth pan fyddant yn codi.</p> <p>Galluogi pobl i aros yn annibynnol am cyfnewt i phobol drwy gymat a chynyddu rhywydeithiau pobl a chynyddu'r ffynonellau o gefnogaeth na fanteisir arnynt yn eu cymunedau</p>	<p><b>Gofal Cymunedol: Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref</b></p> <p>Cynorthwyo pobl i sicrhau bod eu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu cyn agoset at y cartref â phosibl, mewn model di-dor ac integredig.</p> <p>Darparu gofal a chymorth integredig a chydlynol yn y cartref i bobl sydd ag anghenion fwy cymhleth, gan gynnwys y rheiny sydd â mwy nac un cyflwr meddygol neu freuder o fewn y gymuned</p> <p>Sicrhau fod cleifion yn gwneud gwellhad gorau posib yn dilyn cyfnodau o salwch neu ddisgyddidau eraill, a lleihau'r ddibyniaeth ar ofal hirdymor.</p>	<p><b>Hybu Iechyd a Lles Emosiynol da</b></p> <p>Modelau newydd neu fodolau integredig ar gyfer hysbysu iechyd a lles emosiynol da ar draws holl grwpiau'r boblogaeth.</p> <p>Mae darpariaeth gyfnewt i statudol, sef modelau gofal sy'n cefnogi unigolion i gymryd mwy o gyfrifoleb am eu iechyd a'u lles emosiynol eu hun, yn galluogi sefydliadau i ddarparu gofal yn y manau y mae ei angen, a chefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu. Bydd y dull hwn hefyd yn cefnogi cyflwyno'r fframwaith plant a phobl ifanc NYTH/NEST.</p>	<p><b>Cefnogi teuluoedd i aros gyda'u gilydd yn ddiogel a cefnogaeth therapeutig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal</b></p> <p>Gweithio gyda theuluoedd er mwyn eu helpu i aros gyda'u gilydd chael gwared o'r angen i roi plant mewn gofal angen i roi plant mewn gofal ac addysg integredig i blant mewn gofal sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol fwy cymhleth</p> <p>Sefydlu ymateb cydweithredol ar gyfer teuluoedd a phlant o fewn modelau gofal integredig</p>	<p><b>Dod Gartref o'r Ysbyty</b></p> <p>Ategiol at y modelau iechyd cymunedol a fydd yn helpu pobl i aros yn iach a darparu gofal atalol. Cyflwyno'r bydd rhai pobl yn parhau i fod angen asesiadau/triniaeth aciwrt mewn ysbyty.</p> <p>Cynllunio a chyflwyno ar gyfer dod gartref o'r ysbyty, gan gynnwys cyflwyno'r fframwaith D2RA. Cefnogi cleifion i adael yr ysbyty er mwyn gwella yn yr hirdymor er mwyn ceisio lleihau cyfnodau diangen yn yr ysbyty a gwella canlyniadau.</p>	<p><b>Atebion yn seiliedig ar llety</b></p> <p>Datblygu llety sy'n cefnogi pobl i fyw'n annibynnol a diwallu eu anghenion gofal a chymorth mewn lleoliad domestig.</p> <p>Darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwahanol o ran trefniadau byw sydd â chefnogaeth coffeidiol a chyflusterau gofal canolradd a chefnogaeth therapeutig.</p> <p>Cefnogi, hefyd, atebion o ran llety ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth er mwyn eu galluogi i dderbyn gofal integredig yn agosach at y cartref</p>
-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------


Bydd nifer o raglenni Strategol BPRh yn cyfrannu at gyflawni'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi eu nodi o fewn y cynllun yma. Maent wedi'u halinio ac yn cyd-fynd â'r dull rhaglen System Gyfan gan y Tîm Dyfodol Clinigol ac maent yn rhoi pwysais penodol ar alinio fel a ganlyn:

<p><b>Blaenoriaeth 2:</b> Gwneud pethau'n iawn er budd plant ac oedolion ifanc</p>	<p>Adeiladu ar y cynnydd sydd wedi ei wneud yn barod, bydd ein partneriaeth yn rhoi pwyslais mawr ar gyflwyno'r fframwaith genedlaethol NYTH/NEST; alinio ein system i gefnogi plant a theuluoedd i aros gyda'u gilydd yn ddiogel, darparu cefnogaeth o ran iechyd emosiynol a lles ein plant a'n pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a chefnogi pontio esmwyth ar draws ein sefydliadau partner.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 3:</b> Oedolion yng Ngwent yn byw'n iach ac yn heneiddio'n dda</p>	<p>Ailddiffinio model di-dor o ran cymunedau cysylltiedig sy'n ymgorffori'r Rhwydweithiau Lies Integredig fel ased allweddol sy'n galluogi datblygiad. Cefnogi grwpiau ein cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn annibynnol ac yn cysylltu gyda'u cymunedau er mwyn lleihau ymysigrwydd cymdeithasol a gwella lles.</p>
<p><b>Blaenoriaeth 4:</b> Oedolion hŷn yn cael eu cefnogi i fyw'n dda ac yn annibynnol</p>	<p>Datblygu dulliau o weithio ar y cyd sy'n darparu gofal yn nes at y cartref ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cymhleth er mwyn osgoi gorffod mynd i'r ysbyty pan fydd hynny'n briodol, a chefnogi adsefydlu a gwellhad yn nes at y cartref. Bydd ein rhaglen dementia hefyd yn darparu cefnogaeth wedi'i deilwra er mwyn galluogi pobl i fyw'n dda gyda dementia a derbyn mwy o gefnogaeth pan mae ei angen arnynt trwy gydol eu taith gyda dementia</p>
<p><b>Blaenoriaeth 5:</b> Mara'n dda fel i rhan o fywyd</p>	<p>Bydd gweithio gyda phartneriaid ar draws y maes iechyd, gofal cymdeithasol a chartrefi gofal drwy ein rhaglenni strategol yn cefnogi cynllunio gofal ymlaen llaw cyn gynted â phosibl yn ystod taith person. Rhoddir pwyslais penodol ar y maes blaenoriaeth yma o fewn ein rhaglen Dementia.</p> <p>Bydd ein rhaglen partneriaeth sy'n addysgu ar ddementia yn cefnogi datblygiad y gweithlu a'n cydweithio parhaus gyda'r trydydd sector er mwyn darparu cefnogaeth mewn profedigaeth a chefnogaeth eirol.</p>

Galluogwyr pellach o ran gweithio mewn partneriaeth yw gofal a alluogir gan dechnoleg a systemau data integredig. Bydd y rhain yn cael ystyriaeth fanwl o fewn ein rhaglenni strategol er mwyn datblygu atebion integredig ar y cyd er budd ein cleifion a grwpiau ein poblogaeth.

### 3. YMCHWIL, ARLOESI, GWELLA A GWERTH (YAGG)

*Creu capasiti ar gyfer ymchwil, arloesi, gwella a gwerth o fewn y Bwrdd Iechyd*



Rydym wedi cefnogi a buddsoddi mewn datblygu Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar Ymchwil, Gwella, Arloesi a Gwerth er mwyn gosod seiliau cadarn sy'n galluogi'r sefydliad i feddwl a gweithio mewn ffyrdd gwahanol a mwy effeithiol. Tan yn ddiweddar, roedd gan

bob un o'r swyddogaethau yma bortffolio ar wahân, eleni, mewn ymateb i argymhellion a osodwyd yn 'Cymru Iachach' ac yn unol â'r Fframwaith Glinigol Genedlaethol, rydym wedi dod â hwy ynghyd (AB Connect) ac mae ganddynt ddiben a rennir, sef cefnogi ein system i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, gwella'n barhaus, meddwl a gweithio mewn ffyrdd newydd amgen, er mwyn

cynyddu gwerth ar draws ystod o weithgarwch gofal iechyd a ddarperir i'n poblogaeth ac er eu budd.

Rydym yn Fwrdd Iechyd ac felly mae gennym, ac rydym yn parhau i gryfhau, cysylltiadau rhwng ymchwil, arloesi, gwella a gwerth drwy gyfrwng addysg, datblygiad sefydliadol a'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal. Mae ein Adolygiad Tair Blynedd – Statws Bwrdd Iechyd Prifysgol (Mawrth 2021) yn gosod yr hyn y bu rhaid i ni ei gyflawni fel rhan o'n Statws Prifysgol.

Mae'r tirlun, sy'n newid yn barhaus, yn enwedig wrth i ni symud ymlaen yn dilyn y pandemig, yn dwysau ein uchelgais i gydweithio ac arloesi gyda'n partneriaid ac i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio dealltwriaeth newydd er mwyn ein galluogi i optimeiddio sut yr ydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a gwella canlyniadau iechyd. Rydym yn ceisio gwneud hyn drwy ddefnyddio ein dull Gydol Oes sy'n seiliedig ar Ganlyniadau i ddarparu system ofal gynaliadwy drwy:


- yrru gwerth a gwelliant drwy ein holl flaenoriaethau strategol gan gynnwys trawsnewid ac ail-gynllunio gwasanaethau, gweithio ar y cyd gyda'r sector cyhoeddus a rhaglenni newid cenedlaethol a rhanbarthol.
- Galluogi timau rheng flaen i symud eu syniadau yn eu blaen er budd cleifion a staff; a,
- datblygu partneriaethau llwyddiannus gyda chyrrff allanol

Credwn y dylai deall a mesur gwerth fod yn rhan o bopeth a wnawn, ac y dylai gwella ansawdd fod yn weithgarwch dydd i ddydd, rhan o sut mae timau'n gweithio ac yn datblygu eu gwasanaethau, ac y dylai data da roi mewnwelediad fel modd o wneud penderfyniadau. Dyma'r injan sy'n gyrru diwylliant sy'n canolbwyntio ar ddysgu a gwella.


AB Connect yw ein mecanwaith ar gyfer alinio strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n creu capasiti sefydliadol ar gyfer Gwerth, Arloesi, Ymchwil a Datblygu a Gwella Ansawdd. Mae AB Connect yn datblygu strategaeth sy'n ymgorffori'r holl swyddogaethau yma.

Tîm Gwelliant Parhaus Aneurin Bevan yw ein hwb o ran Gwella Ansawdd a Modelu Mathemategol (Mewnwelediad). Mae'r tîm yn canolbwyntio ar ddatblygu gallu sefydliadol o ran Gwella Ansawdd a mewnwelediad o fewn gwasanaethau. Er


mwyn creu Gallu Sefydliadol o ran y swyddogaethau yma byddwn yn rhoi'r sgiliau i'n gweithlu (capasiti), creu a galluogi amgylchedd (amodau) a sefydlu rhwydweithiau cydweithwyr sy'n cefnogi lledaenu a rhannu'r hyn a ddysgir (cysylltiadau). Bydd datblygu system rheoli ansawdd yn galluogi timau clinigol i wella'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy a'u cleifion.



Mae ein dull o ran gofal iechyd darbodus sy'n seiliedig ar werth wedi ei hen sefydlu ac wedi ei ymgorffori o fewn y sefydliad. Mae gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, sef gwneud yr hyn sy'n bwysig i bobl, yn alluogydd allweddol o ran mynd i'r afael â'r heriau yr ydym nawr yn eu wynebu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.



Mae'r galluogydd allweddol yma'n sail i ac yn cefnogi ein gwaith i wireddu ein Canlyniadau Gydol Oes a'n rhaglenni blaenoriaethau craidd.



Mae ein Tîm Ymchwil a Datblygu'n gweithio mewn gwir bartneriaeth, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar gynllunio prosiectau ymchwil a chael gafael ar gyllid grant er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth. Rydym wedi datblygu gweithlu brwd o ran ymchwil; mae ein cleifion yn cael cynnig cymryd rhan mewn ymchwil yn rheolaidd ac yn cael cynnig mynediad at driniaethau newydd nad ydynt ar gael tu allan i deialau.

Mae ymchwil yn cael ei wneud, fel rhan o weithgaredd craidd ein gwasanaethau, ar bob cyfnod mewn bywyd o fydwreigiaeth a newyddenedigol, oedolion a phobl hŷn. Rydym hefyd yn cefnogi ymchwil mewn Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Wrth i ni gamu allan o'r pandemig, mae alinio Ymchwil a Datblygu gyda'r gwaith parhaus o ail-gynllunio gwasanaethau'n allweddol o ran cyflawni system gofal gynaliadwy. Er fod nifer helaeth o'n gweithlu'n cymryd rhan, yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio adolygu'r polisi Cefnogi Gweithgareddau Proffesiynol yng nghyd destun Ymchwil a Datblygu. Rydym hefyd yn cydnabod, o fewn rhai meysydd clinigol, gan gynnwys fferylliaeth, radioleg a patholeg fod cyfyngiadau sylweddol ar y gweithlu a byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg o safbwynt Ymchwil a Datblygu. Mae'r hyn sy'n deillio o waith ymchwil yn bwysig ac mae'n cael effaith ar gynaliadwyedd ein system, er enghraifft mae treialon clinigol ar gynnrych meddygol sydd dan ymchwiliad (Clinical Trials of an Investigational Medicinal Product – CTIMP) yn holl bwysig ac maent yn arwain at fuddion o ran canlyniadau cleifion, a defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Bydd Canolfan Ymchwil Clinigol, a agorwyd yn 2021, yn agor drysau ac yn ein galluogi i redeg mwy o dreialon masnachol ac anfasnachol cam 2. Gellir dod o hyd i drosolwg gynhwysfawr o'n gweithgarwch Ymchwil a Datblygu [yma](#). Mae'r blaenoriaethau cyntaf y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn 2022/23 yn cynnwys creu strategaeth gweithlu fferyllol sy'n hwyluso Ymchwil a Datblygu, lechyd y Boblogaeth ac epidemioleg; lechyd Meddwl; Rhiwmatoleg; Niwroleg; Covid Hir; Canser a Llawdriniaethau.

Wrth symud ymlaen byddwn yn datblygu Strategaeth Ymchwil a Datblygu pum mlynedd a fydd yn sicrhau fod ymchwil yn dod yn rhan greiddiol o swyddi pawb. Bydd hyn yn alinio Strategaeth Ymchwil a Datblygu'r Bwrdd lechyd gyda gweledigaeth y DU o ran cyflawni ymchwil clinigol ([Saving and Improving Lives: the future of UK clinical research delivery](#)).

Rydym wedi sylweddoli fod modd elwa ymhellach wrth alinio swyddogaethau YAGG er mwyn creu cynnig cydgysylltiol i'r sefydliad o ran meddwl a gweithio'n wahanol. Eleni byddwn yn cymryd ein camau cyntaf ar y siwrne hon i greu mwy o werth o'n Statws Prifysgol drwy AB Connect. Yn yr hirdymor, bydd y dull integredig yma'n sail i Barc Meddygol Campws Llanfrechfa Grange, a fydd yn creu platform eang ac unigryw ar gyfer ymgysylltu gyda chyrrff allanol o fewn academia a diwydiant.

## 4. GWEITHLU A DATBLYGIAD SEFYDLIADOL


Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi 12,319 WTE a 15,763 o bobl (Ionawr 2022) a'r Bwrdd yr prif gyflogwr Gwent. Mae 2013 o bobl yn gweithio o fewn practisiau Meddygon Teulu Gofal Sylfaenol, cynnydd o 100 yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae nifer y staff sy'n gweithio i BIPAB wedi cynyddu o 255 WTE (2.11%). Yn gyffredinol, mae cynnydd wedi bod o fewn yr holl grwpiau staff yn unol â'n cynlluniau Dyfodol Clinigol ac er mwyn cefnogi ein ymateb parhaus i frechu torfol, profi, olrhain a diogelu yng nghyd destun Covid. Mae'r cynnydd mwyaf wedi bod o fewn grwpiau staff nyrsys, gweithwyr cymorth gofal iechyd a staff gweinyddol, diolch i ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus yn lleol a thramor.

Er fod cynnydd wedi bod yn gyffredinol o ran nifer ein staff cyfleusterau, ar y 1af o Ebrill 2021, trosglwyddwyd ein staff Gwasanaethau Golchi drosodd i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru fel rhan o broses y cytunwyd arni'n genedlaethol, ac arweiniodd hyn at drosglwyddo TUPE 29.56 WTE o'n staff cyfleusterau.

### Cynllun Pobl 2022-2025 – Cynnal Cynefin

Bydd ein Cynllun Pobl 2022 –2025 Cynnal Cynefin, yn adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ein wynebu ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn ystyried y sefyllfa newidiol yr ydym yn gweithredu oddi mewn iddi ar hyn o bryd o ganlyniad i bandemig Covid-19 a goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Cynllun Pobl wedi ei alinio gyda themâu'r Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Fframwaith Gynllunio Genedlaethol a gyda'r CITC yma. Mae'n adeiladu ar y data a'r deallusrwydd sydd gennym ar ein gweithlu yn ogystal â phrofiad ein staff a'n partneriaid. At eu gilydd mae'r holl fewnbwn yma'n siapiro ein uchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer 2022-2025.



Mae'r Cynllun Pobl yn amlinellu'r cynlluniau a fydd yn ein helpu i wella'r profiad y mae'n staff yn ei gael nawr ac yn y dyfodol. Mae'r cynllun wedi ei alinio gyda'n gwerthoedd sefydliadol, ac yn bwysicach oll, gyda'n cred fod profiad staff yn siapiro profiad y claf. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i'r gweithredoedd sydd angen eu cyflawni yn y tymor byr er mwyn sefydlogi'r gweithlu yn dilyn effaith y pandemig, yn ogystal â'r gweithredoedd sydd angen eu cyflawni er mwyn sefydlu ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio yn y tymor canolig ac yn yr hirdymor. Mae llawer o'r hyn sydd wedi ei osod yn y cynllun ar waith yn barod, ond, mae rhai datblygiadau'n newydd ac wedi eu dylunio er mwyn cefnogi cynladwydd hirdymor mewn modd creadigol.

Wrth galon y cynllun y mae'r ymdrech i ddatblygu modelau di-dor o ran y gweithlu, sicrhau fod y bobl sydd â'r sgiliau, cymwyseddau a'r profiad priodol yn gweithio yn y lle iawn ar yr amser iawn ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynllun gweithredu manwl yn gosod yr hyn y byddwn yn ei wneud er mwyn creu atebion cynaliadwy ac arloesol drwy gysylltu gyda'n gweithwyr a'n cymuned o weithwyr y dyfodol er mwyn cefnogi ffyrdd newydd o weithio, datblygu sgiliau a galluoedd newydd gyda modelau hyblyg er mwyn cynyddu'r mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth a sicrhau fod cysylltiadau cryfach yn cael eu sefydlu gyda'n cymunedau amrywiol. Bydd y Cynllun Pobl 2022/2025 yn canolbwyntio ar 3 prif amcan craidd:

### Amcan 1 y Cynllun Pobl – Iechyd A Lles Staff

Mae cefnogi ein pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys ac yn meddu ar ymdeimlad o les yn y gwaith wrth galon ein Cynllun Pobl. Byddwn yn ymgorffori ein rhaglen arloesol "Cynnal Cynefin / People First – Reconnecting the Workforce" ac yn gweithio'n ffordd drwy'r dull 5 cam a fydd yn rhoi sylw i'r prif broblemau bioseicogymdeithasol y mae ein staff yn eu hwynebu. Daeth y problemau yma i'r amlwg drwy gyfres o arolygon sefydliadol gan gynnwys y raddfa ymgysylltiad meddygol, adroddiad doctoriaid iau ac arolygon lles.

Drwy ail gysylltu gyda'n pobl, bydd y rhaglen yn cefnogi ein hymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n gwrando yn ogystal â'n ymrwymiad i sicrhau ein bod ein pobl yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'n bod yn gweithredu ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Bydd timau lleol yn cael eu cefnogi i nodi problemau sy'n cael effaith ar brofiad staff yn y gwaith a byddant yn cael eu grymuso i ddatrys problemau neu eu uwchgyfeirio'n gyflym at uwch staff sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn chwalu rhwystrau sy'n dod i'r amlwg. Bydd y rhaglen yn cefnogi timau lleol i gynnal y system yma ar eu liwt eu hunain a hybu newid diwylliant cadarnhaol, hyn oll yn unol â'n Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau, y Fframwaith Profiad Gweithwyr a'n ymrwymiad i arwain mewn modd tosturiol a chynhwysol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Bydd **Canolfan Rhagoriaeth Lles** yn cael ei sefydlu a bydd yn ymgorffori ymchwil, datblygu a dulliau newydd a fydd o fudd i holl staff GIG Cymru. Bydd hyn yn gwneud cyfraniad unigryw at 'Cymru Iachach' drwy fod y Gwasanaeth Lles Gweithwyr GIG cyntaf yng Nghymru i fynd i'r afael yn rhagweithiol â phenderfynyddion seicogymdeithasol cymhleth llesiant gwael yn y gwaith. Bydd y ganolfan yn gweithio'n rhagweithiol ac yn estyn at bartneriaid o fewn y Sector Gyhoeddus er mwyn datblygu partneriaeth a dull sy'n seiliedig ar y boblogaeth er mwyn cyflawni ein cynnig lles.

Mae ein staff wedi ymateb yn y ffyrdd mwyaf anhygoel, yn enwedig yn ystod y pandemig, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli'r effaith a gafwyd ar staff o ran blinder cronig, gorweithio a phroblemau iechyd meddwl cynyddol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu Strategaeth Llesiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn mabwysiadu dull deublyg.



- Yn gyntaf, a fydd yn nodi ac yn ymateb i anghenion iechyd meddwl ein staff drwy gryfhau ein gwasanaeth lles; ac,

- Yn ail, datblygu ffodd systemaidd o gefnogi timau i ganfod a mynd i'r afael ag achosion symptomaidd llesiant gwael (yn unol â'r hyn sydd wedi ei leisio gan staff drwy arolygon lles rheolaidd).

Rydym yn parhau i gyflwyno swyddogaethau lles seicolegol integredig a rhwydweithiau cefnogaeth cydweithwyr o fewn gwasanaethau. Byddwn yn gwerthuso ein llwybr therapi trawma arloesol, cryfhau rhwydweithiau staff megis ein Cafes Menopos ac yn rhoi mesurau mesuradwy yn eu lle er mwyn gwella lles ein staff. Bydd cymorth ychwanegol yn ei le i staff sy'n dioddef o covid hir a staff sy'n absennol o'r gwaith yn sgil straen cronig, gorbryder ac iselder.

Mae **Diwrnod Gwaith Iach** yn egluro pa ymyriadau y bydd y tîm datblygiad sefydliadol yn eu gwneud er mwyn cefnogi meysydd allweddol o fewn bywyd gwaith ein holl staff. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o greu gofod, arbenigedd ac amser a fydd yn galluogi ein unigolion, timau a'n cymunedau i dyfu, profi a darparu gofal rhagorol.

Byddwn yn hwyluso datblygiad a thwf timau amlddisgyblaeth drwy ddiwylliant y Bwrdd Iechyd – diwylliant sy'n arddel ein gwerthoedd. Wedi eu cefnogi gan Brosbectws Hyfforddiant a Datblygiad, gweler isod enghreifftiau o ymyriadau'r adran Datblygiad Sefydliadol:

Ymyraeth DS	Er mwyn...
Cynllun Rheoli Talent	Olyniaeth Mynd ati gyda'r diben o ddenu, dewis, datblygu a chyflwyno'r bobl orau i swyddi allweddol ar draws ein system
Nodi bwysig i'r busnes	Gweithio gyda thimau er mwyn rhagweld a chreu cynlluniau olynau ar gyfer swyddi sy'n bwysig i'r busnes ( tymor byr, canolig a hirdymor)
Rhaglenni Anwytho a Hyfforddiant	Cyflawni ein cynnig i staff ynghylch datblygiad drwy ystod eang o raglenni o'r lefel mynediad at uwch reolwyr
Newid Ymddygiad a Diwylliant	Arwain ar ddarganfod a meithrin ymddygiadau allweddol a diwyllianau sy'n ymddangos ar draws timau'r Bwrdd Iechyd
Arweinyddiaeth Graidd	Datblygu arweinyddion y dyfodol y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys rhaglenni penodol ar gyfer Arweinwyr Clinigol, triwriaeth, arweinwyr nad ydynt yn glinigol)

## Amcan 2 Y Cynllun Pobl: Dewis Gyflogwr

Uchelgais y Bwrdd Iechyd yw cynnal a chynyddu ei enw da o fod yn le gwybich i weithio. Rydym yn gweithio mewn marchnad recriwtio gynyddol gystadleuol ac rydym eisiau bod yn sefydliad y mae pobl yn dewis gweithio iddo ac un y maent yn dewis aros ynddo. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan hunaniaeth a brand gadarn gyfredol y Bwrdd Iechyd a drwy wella ein strategaeth recriwtio a chadw staff.



Mae anawsterau recriwtio i swyddi cofrestredig a phroffesiynol yn broblem ers peth amser ar lefel genedlaethol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid recriwtio gan gynnwys BAPIO, Gweithwyr Proffesiynol y GIG ac yn cynnal ymgyrchoedd cenedlaethol a thramor er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel. Byddwn yn gwneud mwy er mwyn gwella ein cynnig ar weithio'n hyblyg a'n proffiliau swyddi arloesol. Byddwn yn ymgorffori cyfrifoldebau megis ymchwil ac addysg er mwyn sicrhau ein bod yn sefyll allan yn y farchnad.



Byddwn yn adeiladu ar ein cysylltiadau gydag ysgolion, darparwyr addysg, y trydydd sector a grwpiau cymunedol er mwyn hyrwyddo'r ystod eang o swyddi yr ydym yn eu cynnig a'r cyfleoedd sy'n bodoli o ran datblygu llwybrau gyrfa hirdymor. Drwy fod yn rhagweithiol o ran estyn allan at grwpiau amrywiol byddwn yn cryfhau ein gwaith gyda partneriaid er mwyn creu sawl ffynhonnell o ran talentau amrywiol ac ehangu ein agenda mynediad. Rydym yn meddwl mewn ffordd wahanol ynghylch y ffordd yr ydym yn hyfforddi, denu a chreu llwybrau datblygu tra'n glynu at egwyddorion yr Economi Sylfaenol. Bydd ein Cynlluniau Gweithredu'n ceisio creu gweithlu cynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid. Byddwn hefyd yn ceisio creu gweithlu mwy amrywiol a chynhwysol sy'n cynrychioli ein poblogaeth a'n cymunedau.

Fel 'Dewis Gyflogwr' rydym yn cefnogi cadw staff a chynllunio ar gyfer olyniaeth drwy ddatblygu llwybrau gyrfa a cynorthwyo staff i weld taith eu gyrfa o fewn ein Bwrdd Iechyd nawr ac yn y dyfodol. Byddwn yn sefydlu Strategaeth Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd a Strategaeth Meddyg Gradd Canolig, cynyddu cyfleoedd o ran Cynlluniau Hyfforddai Rheoli mewnol a drwy fuddsoddi mewn rhaglenni

hyfforddi graddedigion ar y cyd ag Awdurdodau Lleol. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan raglen waith ar gyfer rheolwyr ar bob lefel er mwyn adnabod talent a bod yn rhagweithiol o ran cefnogi staff nad ydynt yn cynnig eu hunain ar gyfer datblygu, gan sicrhau fod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon ein gwaith ar ddatblygu gyrfa a llunio cynlluniau olyniaeth.

Byddwn yn cryfhau ein fframwaith cadw staff a bydd yn canolbwyntio ar gyfleoedd i gefnogi staff i aros o fewn ein system. Gwneud mwy o ran gweithio'n hyblyg, creu llwybrau gyrfa mewnol sy'n ymestyn ar draws gwasanaethau a sefydlu mentrau ymgysylltu â staff er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gweithlu aml-genhedlaeth ac amrywiol.

Bydd y rhaglenni gwaith yma'n cefnogi ein cynlluniau i leihau'r ddibyniaeth ar staff dros dro a chyflog newidiol cost-uchel sy'n cael effaith uniongyrchol ar brofiad ein cleifion a'n pobl.

Byddwn yn gweld carfanau ychwanegol yn cael eu penodi i gynllun Prentisiaeth Aneurin Bevan bob yn ail flwyddyn. Byddwn yn gweithio gyda chynlluniau cyflogaeth megis Kickstart a Restart er mwyn cynyddu'r mynediad ar gyfer y rheiny sy'n gadael yr ysgol a phobl ddi-waith, a byddwn yn gwneud hyn ar draws y sector iechyd a gofal. Rydym yn treialu dulliau newydd o ddewis staff a fydd yn cymryd lle cyfweiliadau traddodiadol. Mae hyn er mwyn annog mwy o geisiadau gan bob rhan o'r boblogaeth. Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol Gwent a'r Career Consortium ar ddatblygu ffyrdd o weithio gyda'n gilydd er mwyn ddatblygu hyfforddiant a llwybrau cyflogaeth a fydd yn cefnogi nod hirdymor gweithlu system gyfan.

Bydd y Strategaeth Gwirfoddoli hefyd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud ar gyflwyno'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd yn gweld hyn fel ffordd o ysgogi pobl i ystyried gyrfaedd mewn gofal iechyd a gofal cymdeithasol drwy gydweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol.

Byddwn yn dyrchafu ac yn ymgorffori ansawdd, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn a byddwn yn alinio'n cynlluniau gyda'n gwerthoedd gan bletu croestoriededd trwy bopeth. Bydd sgysiau agored yn cael eu cynnal gyda'n staff ar draws pob maes gwarchoddedig. Byddwn hefyd yn sefydlu rhwydweithiau staff,

caffis ar bynciau arbennig a byddwn yn penodi llysgenhadon cydraddoldeb o fewn ein uwch dimau rheoli er mwyn gyrru cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei flaen ar y cyd o fewn ein gweithlu a'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.



Bydd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb newydd yn mabwysiadu dull integredig gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Safonau'r Gymraeg, ac effaith sociogyndeithasol sydd wedi ei alinio gyda'n gwerthoedd. Bydd hyn yn creu proses gadarn a thryloyw er mwyn darparu cymorth a gwasanaethau cynhwysol.

Byddwn yn datblygu Strategaeth y Gymraeg ar gyfer y Bwrdd Iechyd, sy'n canolbwyntio ar anghenion y boblogaeth leol a darparu gweledigaeth glir o ran cyflwyno'r safonau. Byddwn yn parhau i ymgorffori egwyddor y 'Cynnig Gweithredol' a datblygu ein rhwydwaith Partner IAITH er mwyn cefnogi ein staff sy'n siarad Cymraeg i wella eu sgiliau ieithyddol.

### **Amcan 3 y Cynllun Pobl: Cynaliadwyedd a Thrawsnewid y Gweithlu**

Yn ganolog i'n Cynllun Pobl mae sicrhau fod gennym y bobl sy'n meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd iawn yn y lle iawn, a sicrhau fod gennym gapasiti priodol i ddarparu gofal iechyd a gofal sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth. Wrth galon hyn mae ein gallu i ddatblygu cynllunio gweithlu strategol ar draws ein system.

Wrth sicrhau fod gennym weithlu cynaliadwy bydd angen i ni ganolbwyntio ar gymysgedd sgiliau, datblygu swyddi newydd, ymestyn swyddogaethau a sicrhau fod y gweithlu nad ydynt wedi cofrestru'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl. Byddwn yn parhau i ddefnyddio modelau gweithlu newydd ac yn cynyddu eu cyrhaeddiad fel eu bod yn cyrraedd gwasanaethau a lleoliadau newydd. Ochr yn ochr â hyn bydd Strategaeth Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd sy'n mynd i'r afael â phroblemau sy'n bodoli o fewn iechyd a gofal cymdeithasol fel eu gilydd. Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar hyfforddiant, addysg a chyfluoedd er mwyn sicrhau fod gofal di-dor, yn agosach at y cartref, er mwyn ceisio osgoi anfon cleifion i'r ysbyty. Drwy ddefnyddio'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu yn ystod y pandemig, mae angen i ni greu gweithlu ystwyth a hyblyg a all ymateb i ymchwedd yn y galw am brofion ac/neu frechiadau yn ogystal â chefnogi ein ymdrechion i leihau anghydraddoldebau iechyd a chefnogi gwelliant o ran iechyd y boblogaeth.

Bydd y rhaglen Trawsnewid Gofal Brys yn ein galluogi i adolygu ein modelau gweithlu a chyflwyno model gweithlu integredig ar gyfer y rhwydwaith ysbytai aciwt.

Mae Cynlluniau Clwstwr Carlam yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir o fewn eu cymuned, ynghyd â chynaliadwyedd cyffredinol y gweithlu. Bydd ail-ddylunio gwasanaethau cymunedol yn adeiladu ar y cynlluniau yma gan greu modelau gweithlu darbodus, lleihau'r hyn a ddyblygir neu'r hyn nas chyflawnir a pharhau i greu modelau gofal yn raddol.

Bydd llwyddiant diweddar y Rhaglen Trawsnewid Gofal Sylfaenol yn cael ei ymestyn er mwyn cefnogi a datblygu modelau gofal sy'n seiliedig ar leoedd ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Drwy weithio'n agos gyda'r Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol a rhanddeiliaid megis yr Hwb Ymchwil, Arloesi, Gwella a Chyfathrebu byddwn yn cydweithredu er mwyn cyflawni'r dimensiwn sydd ei angen o ran y gweithlu i gefnogi modelau gofal newydd a chyflawni fframwaith canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bydd y Rhaglen Drawsnewid hefyd yn cefnogi Cynllun Gweithredu'r Economi Sylfaenol.

Byddwn yn cyflwyno cyfres o ddangosfyrddau sy'n dadansoddi'r gweithlu. Bydd y rhain yn cael defnyddio fel sail i wneud penderfyniadau. Byddwn yn cwmpasu ac yn cynllunio ar gyfer rhoi E-systemau gweithlu meddygol rhyngweithredol ar waith, sy'n cynnwys systemau ar gyfer cynllunio swyddogaethau, amserlennu a swyddogaethau sy'n ymwneud â locwm ac asiantaeth – hyn oll yn cefnogi staffio mwy diogel. Bydd y buddion a ragwelir yn ein galluogi i amserlennu'n effeithiol, rhagolygu, gwella trefniadau llywodraethu, defnyddio adnoddau, cefnogi trefniadau adrodd ar y gweithlu a sicrhau ein bod yn optimeiddio'r gweithlu.



**Gweithio ystwyth a hybrid / Ffyrdd newydd o weithio** – byddwn yn parhau i adeiladu ar arfer da o ran gweithio'n ystwyth. Bydd y strategaeth yma'n cael ei hystyried ochr yn ochr â'r Strategaeth Ystadau er mwyn creu mwy o leoliadau ar gyfer gweithio'n ystwyth. Bydd hyn yn seiliedig ar y

safonau gofynnol sydd wedi eu gosod yn dilyn adborth yr ydym wedi ei dderbyn drwy ein arolygon staff ystwyth. Mae'r cynllun gwaith hefyd yn cydnabod yr heriau

o ran diwylliant ac arweinyddiaeth a bydd angen dylanwadu'n ofalus ac ymateb i'r problemau sy'n cael eu codi gan y timau.

At hyn, byddwn angen sicrhau fod gan ein holl staff y sgiliau digidol a thechnolegol sydd eu angen arnynt er mwyn gallu gweithio mewn modd gwahanol. Mae technoleg yn holl bwysig o ran galluogi ffordd hyblyg a hygyrch o weithio a bydd ganddo rôl allweddol o ran recriwtio a chadw staff. Rydym wedi diweddarau ein Fframwaith Gweithio'n Ystyryth gan roi ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredu Strategol ar Ddatgarboneiddio, yn ogystal â sicrhau fod ymgysylltu rheolaidd yn digwydd gyda phartneriaid er mwyn edrych yn fanylach ar arfer da yn ogystal a'i nodi a'i rannu. Byddwn yn ymchwilio i gyfleoedd sy'n ymwneud â gweithio gyda phartneriaid ar greu hybiau cymunedol, yn enwedig pan fydd hyn o fudd i'r gymuned leol, er enghraifft, drwy gefnogi strydoedd mawr lleol.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae gwaith yn cael ei drefnu a'i ddarparu, ac wrth i ni symud ymlaen yn dilyn y pandemig byddwn yn adolygu ein cynlluniau gweithlu'n barhaus. Bydd ein hymateb bob amser yn cael ei yrru gan ein gwerthoedd – byddwn yn cymryd cyfrifoldeb personol, yn dangos angerdd dros wella, yn ymfalchïo yn yr hyn a wnawn, ac yn anad dim, yn rhoi pobl yn gyntaf.

## TRAWSNEWID DRWY DECHNOLEG DDIGIDOL

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos rôl mor allweddol y mae technoleg ddigidol yn ei chwarae o fewn gofal iechyd y 21ain ganrif. Mae'r pandemig hefyd wedi cynyddu'r galw am drawsnewid ar draws y maes gofal iechyd a hynny ar frys. O ganlynid, mae angen i'r maes gwybodeg baratoi a chynllunio drwy ystyried y cynnydd aruthrol o ran y galw am wasanaethau, blaenoriaethu'r ceisiadau rheiny yng nghyd-destun gwybodaeth a chapasiti TG a'u halinio gydag anghenion y gwasanaethau gweithredol yn ogystal â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Drwy **Weithio gyda'n gilydd** rydym yn edrych ymlaen at berthynas weithiol newydd gyda Iechyd a Gofal Digidol Cymru, olynnydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, a byddwn yn parhau i chwarae ein rhan wrth weithio gyda Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru er mwyn cyflawni rhaglenni cenedlaethol sydd wedi eu teilwra i ddiwallu anghenion lleol, ac atebion

digidol rhanbarthol sy'n cefnogi ailgynllunio gwasanaethau rhanbarthol, er enghraifft Llawdriniaethau Fasgwlaidd.

Drwy **gyflawni ein Strategaeth 'Trawsnewid Digidol' (2019)** byddwn yn creu fframwaith ar gyfer gosod y meysydd cyflawni. Rhoddir sylw i Ddata Digidol, Gwybodaeth a Deallusrwydd drwy gydol y CTCl, a hynny yng nghyd-destun ailosod llinelli sylfaen, datblygu setiau data sylfaenol, siapio blaenoriaethau a'r fframwaith cyflenwi. Bydd Strategaeth Gwybodaeth newydd y Bwrdd Iechyd yn gosod cyfeiriad a bydd hyn yn sail i anghenion a datblygiadau yn y dyfodol o ran defnyddio data mewn amser real.



### Seiliau Digidol

Mae buddsoddiad digidol yn gyfystyr â 1% o gyllideb y Bwrdd Iechyd ac mae'n annhebygol o ddiwallu'r bwlch o ran galw a chapasiti am beth amser. Rydym yn deall pwysigrwydd buddsoddi er mwyn cynnal y seilwaith a sicrhau fod ein platform digidol craidd, sy'n cefnogi gwasanaethau clinigol, yn gadarn a phwrpasol hy yn sail i wasanaethau diogel, dibynadwy sy'n cydymffurfio. Yn yr un modd, mae angen i ni fuddsoddi yn ein adnoddau gwybodeg er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu'r galw cynyddol gan wasanaethau a'r cyhoedd am atebion digidol, er mwyn darparu a rheoli gofal iechyd, ac er mwyn cadw'r wybodaeth yr ydym yn ei gasglu a'i gadw'n ddiogel. Byddwn yn gweithio ar bedwar maes gwaith yn ystod y flwyddyn sydd i ddod:

**Diweddarau Seilwaith** mae holl offer digidol yn dirywio dros amser ac angen ei newid neu/ac ei uwchraddio er mwyn diwallu safonau sy'n newid, boed y rhain yn offer yr ydym yn eu defnyddio yn ein gwaith bob dydd, neu'n systemau a rhwydweithiau sy'n cefnogi ein offer digidol rheng flaen. Yn wyneb galw cynyddol am TG, mae sicrhau fod capasiti i reoli diweddarau'r caledwedd yn ddiogel o fewn cynllun pendant sydd wedi ei ariannu yn gynyddol bwysig. Mae angen trefnu adnoddau mewn modd amserol ac effeithiol er mwyn sicrhau nad yw'r gwasanaeth yn methu. Ar yr un pryd mae angen cefnogi rhaglenni a phrosiectau wrth i



Drawsnewid Digidol aeddfedu. Byddwn yn gosod ein cyfeiriad er mwyn lleihau'r risgiau a'r problemau sy'n gysylltiedig â'n seilwaith bresennol a sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu safon y diwydiant yn unol â'r hyn a ddisgwyllir.

**Y Platform Digidol** mae ein porth clinigol mewnol 'Clinical Work Station' (CWS) yn 25 mlwydd oed yn 2022. Mae dybryd angen ailstrwythuro'r platfform y mae'r porth yn eistedd arno a hynny ar frys er mwyn diogelu'r gwasanaeth yma a datblygu ei swyddogaeth er mwyn sicrhau fod rhaglenni clinigol y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu o fewn cyd-destun argymhellion Adolygiad Pensaerniaeth Digidol GIG Cymru, pensaerniaeth agored genedlaethol sy'n esblygu'n gyflym a chynyddol, a'r her i gyflwyno gwasanaethau newydd mewn modd amserol er mwyn diwallu anghenion gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno cynnig yn gynnar yn 2022 am raglen waith gyflawn er mwyn gwireddu'r her yma.

**Fframwaith Gweithredu Targed yr Adran Wybodeg** golygodd y pandemig y bu'n rhaid rhoi'r cynllun i gyflwyno Model Gweithredu Targed newydd, mewn ymateb i'r adolygiad o'r maes gwybodeg yn 2019, i'r naill ochor am y tro. Er hyn mae'r gwaith yn allweddol er mwyn ymateb i'r her o ran y trawsnewid digidol. Bydd Fframwaith Gweithredu Targed yr adran wybodeg yn cael ei rhoi ar waith yn 2022/23 wedi iddi gael ei chymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd.

**Diogelwch Gwybodaeth** – yn dilyn adolygiad o drefniadau diogelwch gwybodaeth y Bwrdd Iechyd ac argymhellion a wnaed gan gwmni ymgynghori Templar bydd cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith. Bydd y cynllun yn cynnwys sefydlu Swyddfa Uwch Berchennog y Risg Gwybodaeth (SIRO) a gweithio er mwyn gwella Cofrestr Asedau Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd ar lefel adrannol a chyfarwyddiaethol.



### Sefydliad Digidol

Mae Sefydliad Digidol yn cwmpasu datblygu a chyflwyno systemau a gwasanaethau digidol y mae ein staff yn eu defnyddio yn eu gwaith bob dydd wrth gefnogi neu ddarparu gofal. Mae hwn yn ddarlun cymhleth a symudol ac mae nifer helaeth o brosiectau'n cael eu rhedeg a'u cyflawni er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu'r anghenion sy'n cydymffurfio â safonau ansawdd ac arfer gorau o ran rheoli newid trawsnewidiol drwy ddefnyddio technoleg ddigidol.

Mae'r gwaith yn cwmpasu drwy ffrwd waith benodol: rhaglenni a phrosiectau cymhleth sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd o fewn y Portffolio Gwybodeg a rhaglenni a phrosiectau newydd sy'n dod i'r amlwg yn lleol ac/neu'n genedlaethol drwy'r gwaith galluogi digidol sy'n rhan o drawsnewid gwasanaethau. Nid yw'r rhaglenni a'r prosiectau sy'n cael eu crynhoi yma'n cynnwys ceisiadau a ddaw i law gan adrannau o fewn y sefydliad o ran technoleg ddigidol a fydd angen cefnogaeth gan yr adran wybodeg a gwaith sylweddol ar y seilwaith.



### Cymuned Ddigidol

Y datblygiad mawr nesaf o ran trawsnewid o fewn y GIG yw grymuso cleifion, rhieni a defnyddwyr gwasanaeth drwy ddatblygu a chyflwyno apiau digidol sy'n eu galluogi i hunan-asesu, hunan-reoli, hunan-atgyfeirio, cyfathrebu gyda clinigwyr a chael mynediad at wybodaeth ehangach o ran iechyd a lles personol.

Prosiectau a rhaglenni digidol a noddir gan y Bwrdd Iechyd	Ffrydiau Gwaith Sefydliad Digidol	Prosiectau a Rhaglenni a Noddir gan y Bwrdd Iechyd a Rhanbarth DDC
<p><b>Datblygiadau Cyfalaf</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofal Argyfwng yr un diwrnod</li> <li>Radiotherapi Iloeren</li> <li>Gwasanaethau Iechyd Meddwl arbenigol ar gyfer cleifion preswyl</li> <li>Canolfannau Lles</li> <li>Ffurweddol eLGH</li> </ul>	<p><b>Prosiectau a Rhaglenni Cydweithrediad GIG Cymru/ DHCW a Phrosiectau a Rhaglenni Cymru Gyfan Eraill</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru'n cael ei lansio yn fuan yn 2023 yn YAF</li> <li>Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (IMaAD) a Nyrsio Cymunedol</li> <li>Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR) dull digidol o gadw cofnodion ar gyfer nyrsys ysbytai</li> <li>Digidoleiddio Gofal y Llygad gan ddefnyddio Open Eyes - cofnod y llygad electroneg</li> <li>Mudo Microsoft Office 365 Pro Plus a'r fewnwyd - Pro Plus i holi staff</li> </ul>	<p><b>Prosiectau a Rhaglenni a Noddir gan y Bwrdd Iechyd a Rhanbarth DDC</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno Awtomatiddio Prosesau Roboteg yn gyflym (cyfnewid mewnbyrnau data gyda am weithwyr digidol)</li> <li>Digidoleiddio'r Cofnod Iechyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol</li> <li>Cofnogaeth trawsnewid ar lein ar gyfer Microsoft 365 a Share Point (cyflawni buddion digidol)</li> <li>Llawdriniaethau - Aseu Costau ar Lefel Cleifion (Galluogi gwelliannau i'r gwasanaeth drwy ddefnyddio data aseu costau ar lefel cleifion gan baratoi'r ffordd ar gyfer Sgario er Diogelwch)</li> <li>Cyflwyno Rhaglen Cofnodi Profiadau Cleifion CIVICA (er mwyn monitro profiadau cleifion ar lefel gwasanaeth)</li> <li>Rhaglen Ward Ddigidol</li> <li>Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol</li> <li>Gwasanaethau Fasgwlaidd Rhanbarthol</li> </ul>
<p><b>Systemau Clinigol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Badgernet (gofal mamolaeth)</li> <li>Cyfnwid Masterlab (trallwysiad gwaed)</li> <li>UCN (patholeg)</li> <li>Careflow (rheoli hylifau, VitalFlo a Careflow Connect)</li> <li>Datrysiaid cyfathrebu clinigol y rhwydwaith ysbytai (llais, fideo, testun, rhybuddion brys a hysbysadau)</li> </ul>	<p><b>Rhaglenni a Phrosiectau newydd a ragwelir yn 2022/23 darostyngedig i achosion busnes a gwaith paratoi</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Uwchraddio WPAS - hwylyso ystod lawn o swyddogaethau</li> <li>Cyfnwid RADIS/PACS - cyfnewid systemau gwybodaeth radiolog</li> <li>Prosiect Patholeg Gellol Digidol Cenedlaethol - ymarfer caffael cenedlaethol</li> <li>E-bresgripsiynu - fframwaith caffael genedlaethol</li> <li>Rhaglen Endosgopi Genedlaethol - rhannu canlyniadau ein system rheoli endosgopi gyda Gwasanaeth Adrodd Canlyniadau Cymru (WRRS)</li> </ul>	

**Y Darlun Cenedlaethol** yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd (DSPP) Cymru gyfan yn cyflwyno platfform i ddinasyddion sy'n seiliedig ar un o apiau GIG Cymru a fydd yn creu platfform 'siop un stop' ar gyfer cael mynediad at apiau sy'n ymwneud â chyflyrau penodol. Caiff y rhaglen yma ei noddi gan y Bwrdd Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio,

ac rydym yn gwbl ymroddedig i gefnogi datblygu a chyflwyno'r Platfform i Ddinasyddion.

## Darlun y Bwrdd Iechyd

**Ap Hunan-reoli PSA** – mae ein Bwrdd Iechyd yn rhedeg cynllun peilot, fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol, drwy ddefnyddio platfform digidol, sy'n bodoli'n barod, a gynlluniwyd ac a reolir gan Ysbytai Prifysgol Southampton o'r enw **My Health Record**. Bydd y gwaith yma'n arwain at ddatblygu a chyflwyno ap lleol a fydd yn cefnogi dynion a menywod trawsryweddol i hunan-reoli canser y prostat.

**Cofnod Digidol ar gyfer Beichiogrwydd** - Mae rhaglen sy'n newid System Gofal Mamolaeth hefyd yn cynnwys creu record digidol ar gyfer merched beichiog a dynion trawsryweddol. Dyma'r cofnod digidol cyntaf a fydd yn cael ei reoli gan ddefnyddwyr gwasanaeth yng Ngwent a Chymru.

**Cefnogaeth i TecCymru**– rydym yn cynnig ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer y rhaglen TecCymru, rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi gofal a alluogir gan dechnoleg. Mae hyn wedi bod yn fodd o alluogi ymgynghoriadau dros fideo pan oedd eu hangen. Fe'u cyflwynwyd ar yr amser iawn, ar draws gwasanaethau gofal sylfaenol, gofal cymunedol ac o fewn gwasanaethau gofal yn yr ysbyty. Dyma un o'r prif lwyddiannau a ddaeth i'r amlwg yn ystod argyfwng Covid-19. Mae'r Rhaglen yn datblygu dau brosiect cenedlaethol ychwanegol sy'n ymwneud â teleofal a telefeddygaeth. Bydd y prosiectau'n gosod y safonau ansawdd ar gyfer cyflwyno'r technolegau yma ar lefel leol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r rhaglen. Yn lleol, bydd ein Adran Wybodeg yn cefnogi technoleg sy'n ymwneud â chynnal ymgynghoriadau drwy ddefnyddio technoleg a byddant yn cymryd rhan mewn mentrau rhaglenni cenedlaethol wrth iddynt ymddangos.



## Data, Gwybodaeth a Deallusrwydd Digidol

Mae bod yn sefydliad a arweinir gan ddeallusrwydd yn seiliedig ar dair elfen graidd – trefniadau mewnbynnu data effeithiol drwy blatfformau digidol, safonau effeithiol o ran rheoli gwybodaeth, a'r gallu i droi data'n ddeallusrwydd er budd y sefydliad. Mae buddion sy'n deillio o ddata strwythuredig sydd wedi ei gasglu a'i guradu, ynghyd ag adnoddau sy'n dadansoddi ac yn cwestiynu wrth galon trawsnewid gwasanaethau.

Bydd y cyfleoedd yma i wneud mwy o ddefnydd effeithiol o'n data yn gofyn am waith cynllunio a chefnogaeth er mwyn sicrhau fod y seilwaith yn ei le ar gyfer cyfuno a manteisio ar ein data, a sicrhau fod y strwythurau a'r prosesau yn eu lle o fewn y sefydliad er mwyn cyflawni dyheadau'n ymwneud â gwybodaeth a deallusrwydd.

- **Warws Ddata BIPAB** yn 2022/23 byddwn yn cyflwyno cynnig ar adnewyddu ein Warws Data er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn briodol ar gyfer casglu a defnyddio'r data sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol i ddefnyddwyr y Bwrdd Iechyd a hynny mewn amser real. Ystyrih hyn yn flaenoriaeth Seiliau Digidol ond rhoddir ffocws arno yma.
- **Strategaeth Gwybodaeth BIPAB** – Ochr yn ochr ag adnewyddu'r Warws Ddata, bydd y sefydliad yn datblygu Strategaeth Gwybodaeth a fydd yn gosod, am y tro cyntaf, egwyddorion a safonau yng nghyd-destun data digidol, gwybodaeth a datblygu deallusrwydd. Bydd y strategaeth yn cydnabod fod rhanddeiliaid angen dull cyfunol ar gyfer datblygiad strategol a'r defnydd o wybodaeth at ddibenion clinigol a busnes. Bydd hyn yn cynnwys o ble mae'r data'n dod, sut yr ydym yn ei reoli a sut yr ydym eisiau ei ddefnyddio. Byddwn hefyd yn cyflwyno Cynllun Trawsnewid Gwybodaeth a Data i gyd-fynd â'r Strategaeth Gwybodaeth er mwyn gosod cyfeiriad y datblygiad

Bydd y ddau ddatblygiad yma'n sicrhau fod ein systemau gwybodaeth yn ddiogel, dibynadwy a'u bod yn cydymffurfio ac yn sicrhau y bydd ein gwasanaethau'n cael eu harwain ar y trywydd iawn ac yn canolbwyntio ar yr hyn sydd yn diwallu eu hanghenion. Mae ein sefydliad yn mabwysiadu dull system o ran cynllunio. Bydd y dull yma'n dangos pa mor bwysig yw gosod seiliau cadarn o ran rheoli gwybodaeth.

Byddwn yn parhau, drwy'r gwaith y byddwn wedi ei wneud, i gefnogi ein gwasanaeth drwy ddeallusrwydd effeithiol. Rydym yn symud oddi wrth ddulliau traddodiadol o ran sut yr ydym yn cynllunio a chyflawni gwasanaethau at systemau newydd 'Always on' sydd â chyfoeth o ddata sy'n ein galluogi i ddeall sut y mae ein system yn ymddwyn, er mwyn penderfynu pa effaith y mae newid i amgylchiadau yn ei gael ar ein proffiliau galw/capaciti ac yn ein galluogi i gynllunio sut i ymateb i'r heriau yma yng nghyd-destun ein system ofal.

Dyma allougydd craidd o ran creu diwylliant sy'n gefnogi timau a bydd yn cefnogi cynllunio systemau ar y cyd. Mae'r safbwynt system-gyfan yn troi ein gwybodaeth yn hwylusydd newid, yn sicrhau nad ydym yn cynllunio ar wahân a'n bod yn cysylltu gwasanaethau er mwyn creu llwybrau cydlynol o'r dechrau i'r diwedd er mwyn sicrhau newid cynaliadwy.

**Ein Gweledigaeth** - ystâd gynaliadwy, bwrpasol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol sy'n fodd o wella canlyniadau a phrofiad cleifion, sy'n annog ac yn galluogi staff, gyda phartneriaid, i ddarparu gwasanaethu diogel, effeithlon o ansawdd sy'n ariannol hyfyw ac yn gynaliadwy

Er mwyn cynllunio ar gyfer ein CTCI, rydym wedi dewis mabwysiadu dull realistig a chytbwys o ran deall y gwir alw a chapasiti ein system, yn unol â'r hyn sydd wedi ei osod yn Adran 3. Drwy ddeall y galw sydd heb ei atgyfeirio, a defnyddio ymddygiad ein system flaenorol fel dangosydd, rydym wedi rhedeg senarios er mwyn ystyried cyfyngiadau a ragwelir ar ein system, sut fydd ein gwasanaethau'n cael eu rhoi ar waith unwaith eto (gan gydnabod y bydd hyn yn digwydd fesul gwasanaeth) a'r hyn y gallwn ei gyflawni.

Mae hyn wedi ein galluogi i ddeall yr hyn sy'n realistig o ran ein gweithgarwch a'r meysydd allweddol y bydd ffyrdd newydd o weithio, gweithio mewn partneriaeth a newidiadau i lwybrau yn ein helpu i fynd i'r afael â galw sydd heb ei gyfeirio er mwyn gwella profiad a chanlyniadau cleifion. Dim ond drwy fewnynnu data o safon drwy systemau digidol, sefydlu safonau data effeithiol, sefydlu trefniadau warws effeithiol a rheoli y gellir gwireddu hyn. Adeiladu ar hyn yn 2022/23:

- Cynllunio Dynamig yn cael ei ymgorffori fel dull cynllunio senario ar draws y sefydliad
- Adolygu'r Model Cynllunio Dynamig yn chwarterol
- Datblygu rhaglen i gefnogi defnyddio'r adnodd
- Ffrydiau'n cael eu hychwanegu i'r adnodd Cynllunio Dynamig er mwyn gwella'r set ddata

## 6. GALLUOGI YSTADAU

Mae ein Strategaeth Ystadau 10 mlynedd (2018-28) a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2019, ac a ddiweddarwyd yn 2021/22, yn cynnwys ugain Amcan Strategol sydd wedi eu trefnu o gwmpas pump is-gategori.

Ei diben yw cefnogi cyflwyno'r Strategaeth Dyfodol Clinigol, sy'n ceisio sicrhau fod mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn nes at y cartref. Er mwyn cyflawni hyn mae angen datblygu hybiau, ffisegol a rhithwir, mewn lleoliadau allweddol ar draws ein cymunedau, ynghyd â rhwydwaith Ysbytai Cyffredinol Lleol Gwell sydd wedi ei thrawsnewid a fydd, law yn llaw ag Ysbyty Athrofaol y Faenor, yn cyflawni model gwasanaethau gofal eilaidd sy'n seiliedig ar brif ganolfan a lloerennau.

Mae'r rhaglen gyfalaf yn alluogydd allweddol o ran cyflawni ein strategaeth a chynnal ein ystadau. Bydd £8.227m o gyllid cyfalaf dewisol yn cefnogi ein cynlluniau o ran cyflawni rhwymedigaethau strategol, cynnal adeiladwaith ein ystâd a chyfnewid offer mewn modd amserol.

Mae ein Strategaeth Ystâd, sydd wedi ei chymeradwyo, yn parhau'n sail i'n rhaglen gyfalaf o bwys. Mae'n amlinellu'r holl brosiectau cyfalaf strategol arfaethedig sydd, neu a fydd, angen cefnogaeth gan gyfalaf strategol Llywodraeth Cymru mewn blynyddoedd i ddod. Mae'n dangos gwahaniaeth rhwng y prosiectau rheiny sydd wedi cael eu cymeradwyo mewn un ffordd neu'r llall, a'r rheiny sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae rhai ohonynt yn y cam cysyniad cynnar o hyd. O ran yr olaf, mae'n werth nodi fod y gwaith ôl-gwblhau yn Ysbyty Athrofaol Y Faenor yn tynnu at y terfyn, yn ogystal â'r gwaith ar sefydlu Uned Sterileiddio a Diheintio a fydd yn llwyr weithredol yn gynnar ym mis Mawrth 2022.

O ran prosiectau Gofal Sylfaenol, cychwynnodd gwaith safle ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles Tredegar ym mis Medi 2021 a bydd gwaith yn cychwyn ar Ganolfan Iechyd a Lles Dwyrain Casnewydd ym mis Ebrill 2022 os a phan fydd yr Achos Busnes Llawn yn cael ei gymeradwyo. Mae tri prosiect arall ar y gweill, sef prosiect yn Nhrefynwy, Glyn Ebwy a Dyffryn Aber.

Mae prosiectau sy'n gwella mynediad at wasanaethau canser yn cael sylw blaenllaw yn y rhaglen gyfalaf. Maent yn cynnwys Uned Radiotherapi Lloeren ac Uned Canser yn Ysbyty Neuadd Nevill, ac Uned y Fron ganolog sydd wedi ei chynllunio ar gyfer Ysbyty Ystrad Fawr. Mae'r olaf yn cael ei chynllunio ar y cyd ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae disgwyl i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer yr Uned Radiotherapi gael ei gyflwyno ym



mis Mai 2022. Mae Achos Busnes Llawn Uned y Fron wedi cael ei gymeradwyo ac mae disgwyl i'r gwaith adeiladu gychwyn ym mis Mawrth 2022.

Mae prosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu'n cynnwys creu Uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol ar gyfer Cleifion Preswyl, sy'n cynnig dod â nifer o wasanaethau arbenigol, sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu mewn lleoliadau gwahanol ar draws y Bwrdd Iechyd, ynghyd ar safle Llanfrechfa Grange ac ailddatblygu Ysbyty'r Sir. Dylid nodi hefyd, yng nghyd-destun y strategaeth ystadau ehangach, y bydd angen cyllid er mwyn gwella seilwaith ystadau, yn enwedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Neuadd Nevill ac er mwyn hwyluso cau'r ystadau hŷn yn Ysbyty Sant Cadog ac Ysbyty Gwynllyw.

## 7. CYLLID

Mae ein Strategaeth Gyllid yn canolbwyntio ar sicrhau sefydlogrwydd ariannol drwy gyflwyno egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, gwella canlyniadau cleifion o fewn adnoddau presennol neu leihau'r gwariant er mwyn sicrhau ein bod yn cadw ar yr un lefelau o ran canlyniadau. At hyn, mae'n cyflwyno egwyddorion sy'n seiliedig ar werth o ran iechyd y boblogaeth er mwyn gwella tegwch ymysg y boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu. Mae Cyllid yn ein galluogi i gyfalwni'r nod strategol yma.

**Cyd-destun Strategol.** Derbyniom oddeutu £170 miliwn tuag at gost gwasanaethau a oedd yn ymwneud â Covid yn ystod 2021/22. Mae'r cyllid yma'n dod i ben ar y 31ain o Fawrth 2022 ac nid oes cyllid ychwanegol i'r perwyl yma wedi ei gadarnhau ar gyfer 2022/23. Mae disgwyl i Fyrrdau Iechyd reoli eu sefyllfa ariannol heb y cyllid yma.




Mae ein Cynllun (2022 – 2025) yn ail-sefydlu'r broses gynllunio tair blynedd wedi i Fframwaith Weithredu Flynyddol un mlynedd gael ei rhoi ar waith yn ystod 2021/22. Mae'n cymryd y bydd BIPAB yn parhau i lynu wrth ei ddyletswyddau ariannol statudol a chyflwyno balans ariannol ar sail 3 blynedd treigl. Bydd Cynlluniau Strategol yn ymwybodol o ddisgwyliadau a gofynion 'Cymru Iachach', y 'Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol', y 'dyletswydd economaidd-gymdeithasol', yr 'Economi Sylfaenol', yr agenda datgarboneiddio yn ogystal â'r disgwyliad i gyflawni amcanion ein 'Strategaeth Dyfodol Clinigol'.

Mae effeithiau pandemig Covid-19 yn gofyn am ymateb dynamig o ran adnoddau a chynllunio ariannol yn y tymor byr, heb anghofio mai cynaliadwyedd cyllid, gwasanaethau a'r gweithlu yn y tymor canolig a'r hirdymor yw'r flaenoriaeth bennaf o ran darparu gofal i gleifion.

Rydym yn canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar sicrhau fod adnoddau ar gael i ymateb i'r pwysau ariannol isorweddol a hanesyddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, delio gydag ansicrwydd effaith parhaus y pandemig a gyrru newid trawsnewidiol drwy gyflawni'r Strategaeth Dyfodol Clinigol.

**Cynllun Ariannol CTCI: Ein Dull yn unol â'r dull sydd wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd o ran cynaliadwyedd ariannol a'r gwelliant a ddisgwylir o ran y sefyllfa ariannol isorweddol, mae cynllun ariannol y CTCI wedi canolbwyntio ar wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau fod buddsoddiadau hanesyddol yn gynaliadwy. Fel rhan o ddatblygu ei gynlluniau gwasanaeth, gweithlu a chyllid, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun ariannol sydd â 4 elfen iddo, fel y gwelir yma.**



Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y dyraniad ar gyfer gwasanaethau craidd ac maent wedi cadarnhau y bydd cymorth yn cael ei roi tuag at gostau Covid-19 cenedlaethol (TTP (Profi, Olrhain, Diogelu), rhaglen frechu torfol, PPE (Cyfarpar Diogelu Personol)) yn ystod 2022/23. Ffodd bynnag, nid oes cyllid wedi ei gadarnhau ar gyfer costau cenedlaethol eithriadol a chostau ymateb i Covid-19 yn lleol. Mae'r costau yma, nad ydynt wedi eu cadarnhau, yn feysydd y bydd Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a byddant yn gweithio gyda Byrddau Iechyd er mwyn cefnogi balans ariannol.

Mae ein CTCI yn cymryd y bydd costau Covid Lleol a phwysau ariannol eithriadol yn cael eu rheoli yn ystod 2022/23 mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn risg ar hyn o bryd oherwydd yr ansicrwydd.

**Adnoddau sydd ar gael** mae dyraniad cyllid ychwanegol y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru drwy'r Llythyr Dyrannu 2022/23. Mae symudiadau o ran dyraniad yn cynnwys dyrniadau newydd, a chyfuniad o ddyrniadau cylchol yn ystod blwyddyn 2021/22 a dyrniadau blaenorol a ragwelwyd. Mae hyn yn creu ymchwydd net o £67.1 miliwn ar gyfer cynllun ariannol 2022/23 BIPAB.

Byddwn yn gwneud y cyllid ychwanegol, ynghyd â dyrniadau cytunedig a ragwelir ac incwm arall yn rhan o'r dyraniad craidd o £1.4 biliwn, yn unol â'r egwyddorion dyrannu adnoddau cytunedig.

Rydym yn parhau i gryfhau gweithio cyfunol gyda partneriaid rhanbarthol, mae hyn yn cynnwys ymgorffori'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (tua £27m) sy'n dwyn ynghyd y Cronfeydd Trawsnewid a Gofal Integredig.

Codiad yng nghyllid Net	Cyllid 22/23 £
<b>Codiad Craidd 22/23</b>	<b>28,779,000</b>
Cynaliadwyedd Gofal wedi'i Gynllunio a Gofal Heb ei Gynllunio	32,023,417
Adferiad yn seiliedig ar werth	2,877,900
Codiad Craidd Iechyd Meddwl 22/23	3,785,000
<b>Cyllid wedi'i Frigdorri</b>	
Cyd Wasanaethau GIG Cymru	(21,739)
Bandio Parafeddygon (i'w glustnodi)	(299,000)
Gwasanaeth 111 (i'w gyfeirio)	(50,000)
<b>Cyfanswm wedi'i frigdorri</b>	<b>(370,739)</b>
<b>CYFANSWM</b>	<b>67,094,571</b>

Mae Llywodraeth Cymru'n dal cyllid yn ganolog ar gyfer:	Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid ar gyfer:
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dyfarniad Cyflog 2022/23</li> <li>Ymatebion cenedlaethol i Covid-19</li> <li>Ymchwydd o ran contractwyr Gofal Sylfaenol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymateb lleol i Covid-19</li> <li>Ynni</li> <li>Yswiriant</li> <li>Cyflog Byw Gwirioneddol</li> </ul> <p>Mae ein Bwrdd Iechyd yn disgwyl y bydd mecanwaith ar gyfer rheoli'r rhain yn cael ei gytuno gyda Llywodraeth Cymru</p>

**Cynllun Ariannol 2022/23** mae ein cynllun ariannol wedi ystyried ac amcangyfrif y costau isorweddol, ymrwymadau hanesyddol, gofynion statudol a phwysau newydd o ran costau sy'n debygol o gael effaith ar BIPAB yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain wedi eu ffurfio o safbwynt gwasanaeth (gwaelod i fyny) yn ogystal â safbwynt corfforaethol (o'r brig i lawr). Mae cynlluniau gwasanaeth, gweithlu a chynlluniau trawsnewid wedi bod yn ffactor yn yr asesiad, ac mae cynlluniau effeithlonrwydd, gwerth, ynysu costau ac arbed posib sydd eu hangen er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol wedi eu nodi hefyd.

Y 'Cynllun Craidd' yma yw ein cynllun ar gyfer sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2022/23. Mae hyn yn cynnwys y rhagdybiaeth y bydd £26 miliwn o ran costau'n cael ei osgoi.

Mae hefyd yn cynnwys defnyddio'r £32 miliwn sydd wedi ei gadw ar gyfer adfer a chynaliadwyedd er mwyn cefnogi gwasanaethau presennol i ddarparu lefelau o wasanaeth wrth symud ymlaen. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys defnyddio £2.9m o gyllid Adfer ar sail Gwerth ar gyfer MSK a chynlluniau trawsnewid eraill sy'n seiliedig ar werth. Mae cyllid ar gyfer Iechyd

CTCI BPAB	2022/23 £ miliwn
<b>Cyllid Ychwanegol a Ddisgwylir</b>	<b>68.26</b>
Sefyllfaoedd cylchol	20.91
Ymrwymadau Dyfodol Clinigol	15.36
Methiant i gyrraedd targedau arbed blaenorol	25.66
Pwysau Costau Cenedlaethol	9.13
Cynnydd mewn Chwyddiant/Costau	9.86
Cynnydd o ran Galw/Gwasanaethau	11.78
Cronfeydd wrth gefn	- 6.87
Penderfyniadau wedi'u cymeradwyo ar lefel weithredol	8.67
<b>Is-gyfanswm Cynnydd Costau Net</b>	<b>94.50</b>
<b>Cynllun CRAIDD 2022/23 cyn Cyfleoedd</b>	<b>26.24</b>
<b>CYFLEOEDD</b>	<b>-26.24</b>
<b>CYNLLUN CRAIDD 2022/23</b>	<b>-</b>

Meddwl yn cael ei gynnwys er mwyn rhoi cymorth tuag at gostau iechyd meddwl Cyngor Iechyd Cymuned.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r costau a'r risgiau canlynol wedi eu nodi:

- Cynlluniau Covid-19 cenedlaethol £18m (cymerir eu bod yn cael eu hariannu)
- Ymatebion Lleol i Covid-19 – amcangyfrif cost o £36miliwn (Ateb Llywodraeth Cymru i'w gadarnhau ac mae'n peri risg ar hyn o bryd)
- Pwysau o ran cost cenedlaethol eithriadol £12 miliwn (Ateb Llywodraeth Cymru i'w gadarnhau ac mae'n peri risg ar hyn o bryd)
- Pwysau o ran costau lleol £19 miliwn i'w liniaru (pwysau posib yn seiliedig ar alw, ansicrwydd o ran y pandemig – peri risg ar hyn o bryd)

**Ymateb Lleol i Covid-19** yn y tymor byr, mae costau sy'n ymwneud ag

ymateb i Covid-9 yn lleol yn ogystal â chostau trawsnewidiol yn parhau ac nid oes modd eu hosgoi os ydym am sicrhau

Costau uniongyrchol (ymateb lleol i Covid-19)	Costau tymor canolig a hirdymor
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o ofynion ar gyfleusterau ac ystadau</li> <li>• Safonau glanhau cenedlaethol</li> <li>• Adran Argyfwng, Diagnosteg a Gofal Brys</li> <li>• Mwy o gapasiti o ran gwelâu</li> <li>• Llif cleifion, a</li> <li>• Oedi o ran rhyddhau cleifion a darparu cymorth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mwy o gapasiti ymysg y gweithlu i gefnogi'r pwysau aruthrol ar yr Adran Argyfwng a gwasanaethau gofal brys eraill</li> <li>• Costau gweithlu o ran cyflenwi mewn ymateb i gynnydd yn yr absenoldebau salwch a chyfnodau hunan ynysu</li> <li>• Cynnal llwybrau cleifion 'gwyrdd' er mwyn lleihau heintiau</li> <li>• Mwy o gapasiti o ran gwelâu mewn ysbytai er mwyn sicrhau llif diogel ac amserol o ran cleifion</li> <li>• Cynnydd o ran aciwtedd cleifion a'r galw am ofal uwch a</li> <li>• Cleifion sy'n ddigon iach i gael eu rhyddhau o'r ysbyty'n gorfod aros mewn gwelâu ysbytai</li> </ul>

diogelwch ein cleifion a'n staff wrth ymateb i'r newidiadau o ran anghenion iechyd wrth i ni gamu allan o'r pandemig. Er ein bod yn cydnabod fod Cymru'n dychwelyd i lefel 0, byddwn yn wynebu heriau sylweddol o ran y pandemig yn y tymor canolig a'r hirdymor fel yr amlinellir yn adran Cynllunio Dynamig y cynllun.

**Pwysau Eithriadol o ran Costau Cenedlaethol** ar draws GIG Cymru rhoddir cydnabyddiaeth i'r effaith y mae pwysau o ran cost eithriadol yn ei gael ar y system gyfan a'r gofyn am ateb system gyfan. Ac eithrio unrhyw ddyfarniad cyflog, y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'w ariannu, mae'r rhestr isod yn nodi'r pwysau eithriadol:

- Ynni a thanwydd – mae disgwyl y bydd cynnydd aruthrol o ran costau ac anwadalrwydd parhaus o fewn y farchnad
- Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol Cyflogwyr – cynnydd o 1.25% a
- Chostau Byw Gwirioneddol – ar gyfer GIG a meysydd a gontractir gan y GIG, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a darparwyr gofal preifat

Mae'r costau wedi eu hamcangyfrif ond mae risg fod rhai o'r meysydd yma'n ddarostyngedig i rymoedd o fewn y farchnad ac y gallent gynyddu'r pwysau o ran cost. Mae'r pwysau yma wedi eu heithrio o'n cynllun ariannol ar hyn o bryd wrth i ni aros am drafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru ar sut i reoli'r materion arbennig yma. Er mwyn cyrraedd cydbwysedd ariannol mae gennym gynlluniau i sicrhau fod y sefydliad yn gwneud penderfyniadau dydd i ddydd ac yn cynllunio ac ail-gynllunio gwasanaethau drwy ddefnyddio dull darbodus, sy'n seiliedig ar werth unwaith eto.

**Cynllun Ariannol 3 blynedd** mewn termau cymharol, mae mwy o sicrwydd o ran cyd-destun ein cynllun tair blynedd na chyd-destun y flwyddyn ddiwethaf.

Mae ein cynllun wedi ei selio ar gyhoeddiadau cyllid cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac amcangyfrifon o gostau'n seiliedig ar y cynlluniau gwasanaeth a gweithlu a allai newid yn y dyfodol.

Cynllun 3 blynedd CTCI	2022/23	2023/24	2024/25
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
Sefylifa Agoriadol isorweddol	21	8	7
Gwariant a Ragwelir (cylchol)	1478	1504	1526
Ymgodiadau a Ragdybir	2.80%	Cynnydd 1.5%	Cynnydd 1%
Dyryniadau a amcangyfrifir	-1465	-1486	-1503
Arbedion cylchol	-18	-15	-18
Arbedion nad ydynt yn gylchol	-8	-4	-5
<b>Sefylifa Isorweddol Clo</b>	<b>8</b>	<b>7</b>	<b>7</b>

Mae ein amcangyfrifon yn cynnwys	Mae ein amcangyfrifon yn cymryd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau Covid-19 a chyllid cysylltiedig</li> <li>• Costau cenedlaethol eithriadol ar gyfer 2022/23 a'r blynnyddoedd sydd i ddod</li> <li>• Gwariant nad yw'n gylchol wedi ei eithrio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefelau is o ymchwydd o ran dyryniadau ym mlynnyddoedd 2 a 3 yn unol â chynllun cyllido Llywodraeth Cymru</li> <li>• Lefelau tebyg o ran arbedion yn ystod y 3 blynedd</li> </ul>

Mae ein cynllun ariannol 3 blynedd yn cyflwyno sefyllfa isorweddol sy'n gwella ac yn dangos y bwriad i sicrhau cydbwysedd ariannol bob blwyddyn. Mae ansicrwydd sylweddol o ran gwasanaethau, y gweithlu a'r amgylchedd ac mae hyn yn arwain at ansicrwydd ariannol o ran rhagweld canlyniadau ariannol yn y dyfodol.

**Dyrannu Cyllidebau 2022/23** mae ein strategaeth dyrannu adnoddau wedi ei selio ar yr egwyddorion canlynol, sydd wedi'u cytuno gan y Bwrdd, o ran blaenoriaethu adnoddau a gosod cyllidebau, ac maent yn berthnasol i'r drefn gyfan o ran ariannu adnoddau refeniw.

1	Ar gyfer gwasanaethau sefydledig, dylai cynlluniau ddangos	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut y bydd cynlluniau gwasanaeth a gweithlu'n cael eu cyflawni o fewn adnoddau presennol</li> <li>Sut y bydd gofali yn cael ei ddarparu sy'n optimeiddio canlyniadau ar gyfer cleifion, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac sydd wedi'i alinio ag egwyddorion 'Cymru Iachach' yn ogystal â lleihau anfanteision economaidd-gymdeithasol</li> <li>Gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant sy'n cyrraedd (neu'n ceisio cyrraedd) rhagoriaeth</li> </ul>
2	Mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol isorweddol – dylid ariannu cynlluniau gwasanaeth a gweithlu sy'n dangos 1. (uchod) yn briodol cyn ystyried buddsoddiadau newydd	
3	Dylai cynlluniau arbed ddangos sut y byddant yn cyflawni cyn i gyllid neu ail-fuddsoddiad gael ei gymeradwyo	
4	Pan mae arbedion wedi eu nodi, dylai cynlluniau sy'n cynnig gwasanaeth newydd nodi	<ul style="list-style-type: none"> <li>Eu bod yn gyson â chyfeiriad strategol Dyfodol Clinigol BIPAB</li> <li>A ydynt yn flaenoriaethu sydd wedi'i cymeradwyo</li> <li>Sut y bydd cynlluniau gwasanaeth a gweithlu'n cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau sydd wedi'u cytuno?</li> <li>Sut y bydd gofali yn cael ei ddarparu sy'n optimeiddio canlyniadau ar gyfer cleifion, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac sydd wedi'i alinio ag egwyddorion 'Cymru Iachach'</li> <li>Gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant sy'n cyrraedd (neu'n ceisio cyrraedd) rhagoriaeth</li> </ul>
5	Efallai y bydd y Bwrdd yn dewis sefydlu cronfeydd wrth gefn er mwyn cefnogi blaenoriaethau allweddol a meysydd o fewn cynlluniau sydd angen eu datblygu ymhellach. Gall hyn gynnwys cyllid afreolaidd, graddol neu gyllid rheolaidd	
6	Dyfarniad Cyflog i gael ei ariannu'n unol â dyrniadau Llywodraeth Cymru	
7	Os y bydd cyllid yn dod ar gael neu os oes lefelau uwch na'r CTCI yn cael eu cyrraedd o ran arbedion, yna dylai'r Bwrdd ystyried sefydlu cronfa wrth gefn briodol, o gofio lefel y risg ariannol o fewn y CCTI.	


Yn 2021/22, rhoddwyd proses cynllunio cyllidebau ariannol ar waith, er mwyn sicrhau fod ansicrwydd o ran ymateb i'r pandemig yn cael ei liniaru a'i reoli'n effeithiol o fewn ein fframwaith llywodraethu a fod adnoddau digonol ar gael. Eithriad oedd y broses yma. Ond, rydym yn argymhell ei bod yn parhau mewn lle mewn perthynas â gwariant sy'n ymwneud ag elfennau ymateb i Covid-19 ar gyfer 2022/23.

Drwy lynu at ein egwyddorion dyrannu adnodau, mae ein cynllun ariannol 2 blynedd wedi canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth cyllideb sy'n sicrhau:

- Dod y cynllun Gosod Cyllidebau yn gyson ag Ariannu Adnoddau
- Bod Dirprwyo Cyllidebau'n cael ei flaenoriaethu er mwyn gwneud ymrwymadau hanesyddol/isorweddol yn gynaliadwy fel rhan o'r CTCI 'Craidd'.
- Cynllun Cyllideb yn eithrio amcangyfrifon o ran costau ymateb i Covid-19 yn lleol a Chostau Cenedlaethol Eithriadol – mae hyn yn risg ond mae'n gyson â'n cynllun a bydd yn cael ei nodi fel rhan o adolygiad cyllideb chwarterol
- Pob dyraniad yn cael ei ddirprwyo - Ychydig iawn o gronfeydd canolog wrth gefn
- Angen gweithredu a chyflawni o fewn cyllidebau dirprwyedig
- Dim ond os oes arbedion o £26 miliwn yn cael eu gwneud y mae ein CTCI yn fforddiadwy. Mae angen yr arbedion er mwyn cefnogi rhai o'r costau gwasanaeth sydd wedi eu nodi. Ni ellir dyrannu cyllideb ar gyfer arbedion.
- Bydd angen rheoli a lliniaru pob risg a phwysau arall mewn modd rhagweithiol.

Mae'r dull yma wedi creu cydbwysedd rhwng heriau ariannu ymrwymadau hanesyddol a gofynion statudol a chytundebau cenedlaethol.

**Effeithlonrwydd Adnoddau** (Gofali iechyd sy'n seiliedig ar werth, mwy o arbedion ac effeithlonrwydd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd) mae gwneud penderfyniadau drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ofal sy'n seiliedig ar werth wedi ei ymgorffori yn ein sefydliad ac wedi ei alinio gyda gwella effeithlonrwydd technegol a effeithlonrwydd o ran dyrannu. Mae'r dull yma'n gyson gyda strategaeth genedlaethol, gan gynnwys y Strategaeth Glinigol Genedlaethol, yr amcanion pedwarplyg ac amcanion gofali iechyd darbodus.



Mae pandemig Covid-19 wedi rhoi pwyslais ar ymateb er mwyn cadw cleifion a staff yn ddiogel. Yn naturiol mae hyn wedi lleihau'r ffocws ar newid trawsnewidiol a gwelliannau o ran effeithlonrwydd. Rydym bellach yn datblygu dull wedi'i ddiweddar er mwyn ail-sbarduno'r sefydliad cyfan i ganolbwyntio unwaith eto ar effeithlonrwydd a mabwysiadu dull gofali iechyd darbodus o ran penderfyniadau rheng flaen yn ogystal â rhaglenni corfforaethol. Bydd dull aml-ddisgyblaeth (PMO, Cynllunio, AB

Connect, Cyllid, Gweithlu, Gwybodaeth) yn cael ei ddatblygu a'i ddefnyddio i roi hyblygrwydd i wasanaethau er mwyn eu galluogi i yrru trawsnewid er mwyn darparu gwasanaethau mewn modd cynaliadwy, gwella canlyniadau cleifion a sicrhau effeithlonrwydd.

Rydym wedi derbyn £2.9 miliwn er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno dull Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth (GISW), ac mae £5m yn cael ei gadw'n ganolog gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu GISW o fewn Ymddiriedolaethau ac ar draws GIG Cymru. O bosib bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi Byrddau Iechyd ymhellach.

Byddwn yn buddsoddi'r £2.9 miliwn, yn ychwanegol i'r cynlluniau ariannu canolog, er mwyn gyrru gwelliannau sy'n seiliedig ar werth o fewn:

▪ Llwybr cyhyrsgerbydol ▪ Cyswllt Alcohol ▪ Cardioleg – Methiant y Galon ▪ Diabetes ▪ Anadlol ▪ Offthalmoleg ▪ Theatrau ▪ Tîm Gwerth ▪

Gwella llwybrau gofal yn y modd yma fel rhan o gyflwyno Dyfodol Clinigol a chreu effeithlonrwydd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein system.

Rydym yn bwriadu gwneud arbedion o £26.5m yn 2022/23. Mae hyn yn seiliedig ar y cyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg drwy Fframweithiau Effeithlonrwydd, cenedlaethol a lleol, o ran rhyddhau arian ac osgoi costau, er mwyn creu mwy o werth ac adennill costau. Byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd drwy:

- Gyflwyno ymyriadau uchel eu gwerth sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n alinio ydag anghenion a blaenoriaethau'r boblogaeth leol
- Gwneud cynnydd sylweddol o ran mesur data ar gost a chanlyniadau a'i ddefnyddio fel sail i benderfyniadau ar ofal iechyd yn y dyfodol sy'n seiliedig ar werth o fewn meysydd blaenoriaeth
- Sefydlu rhaglen gyflawni ar gyfer casglu PREM a PROM a bod â mandad ar gyfer rhannu data PROM yn genedlaethol er mwyn iddo gael ei ddefnyddio fel sail i wneud penderfyniadau
- Gwneud cynnydd o ran dyrannu a threfnu adnoddau er mwyn creu'r canlyniadau gorau posibl

- Lleihau amrywiaeth direswm a gweithredoedd nad ydynt yn creu llawer o werth, a blaenoriaethu safoni llwybrau sy'n seiliedig ar arfer gorau sy'n fodd o greu gwell canlyniadau
- Sicrhau fod unrhyw newidiadau a wneir yn cael eu monitro yn nhermau'r gwelliant i'r canlyniadau a gyflawnir a'r newid i'r ffordd y defnyddir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth

Rydym wedi gwneud cynnydd o ran casglu data ar ganlyniadau ar draws sawl maes gwasanaeth. Mae gwelliannau i gynhyrchiant wedi ei adeiladu i mewn i gynlluniau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar wella canlyniadau ar gyfer cleifion ac, yn y pen draw, wella iechyd y boblogaeth.

**Y flaenoriaeth o ran Cyflawni** ymysg y penderfyniadau allweddol ar fuddsoddiadau i wasanaethau mae sicrhau fod pwysau isorweddol ac ymrwymadau hanesyddol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys ymrwymadau o ran y gweithlu sy'n delio'n uniongyrchol â chleifion, costau'n ymwneud â safleoedd cyfleusterau, buddsoddiadau digidol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau arbenigol.

Mae'r cyllid ar gyfer adfer a chynaliadwyedd (£32 miliwn) wedi ei anelu'n bennaf at atebion aciwt ar draws gofal wedi'i drefnu fel modd o adfer y gwasanaethau diagnosteg a gweithgarwch wedi'i drefnu yn ogystal â gofal heb ei drefnu er mwyn mynd i'r afael â phwysau ar y system, sy'n cynnwys costau swyddogaethau.

Bydd angen i'r dyraniad arwain at greu mwy na 1,500 o welâu ychwanegol ar draws ein rhwydwaith ysbytai a chynyddu lefelau gweithgarwch y tu hwnt i 2021/22 ar gyfer cleifion allanol, triniaethau a diagnosteg yng nghyd-destun yr her lethol yr ydym yn ei wynebu o ran argaeledd y gweithlu. Mae cynlluniau rhanbarthol a chydweithredol yn cynnwys


▪ Canoli Gwasanaethau Fasgwlaidd DDdC ▪ Cynlluniau Rhanbarthol Offthalmoleg ac Endosgopi DDdC ▪ Gwasanaeth Oncoleg Acíwt Canser DDdC a Chanolfan Radiotherapi Lloeren yn YNN yn y dyfodol ▪ Ail-gynllunio'r gwasanaeth Niwroleg Diabetes gyda BIPCaF ▪

**Gweithio mewn Partneriaeth – Cyllid Rhanbarthol Integredig** Mae Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Refeniw) yn gyllid pum mlynedd sydd wedi ei chynllunio i gyflawni rhaglen newid o fis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2027. Mae'r gronfa yma'n dwyn ynghyd rai o ffynonellau cyllid y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid. Cyfanswm y Cyllid Refeniw ar gyfer Gwent ar gyfer 2022/23 yw £26.858 miliwn ac mae'n cwmpasu'r meysydd canlynol:

▪ Gofal yn y Gymuned – Atal a Chydgysylltu Cymunedau ▪ Gofal yn y Gymuned – Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref ▪ Hybu Iechyd a Lles Emosiynol Da ▪ Cefnogi Teuluoedd i Aros Gyda'u Gilydd yn Ddiogel a Darparu Cymorth Therapiwtig ar Gyfer Plant Sydd â Phrofiad o Ofal ▪ Dychwelyd Adref ar ôl bod yn yr Ysbyty ▪ Atebion sy'n seiliedig ar Lety ▪

**Gwasanaethau a Gomisiynir** rydym yn comisiynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer ein poblogaeth drwy Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Maent yn gweithio ar ran y saith Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau fod gan pobl Cymru fynediad teg at wasanaethau arbenigol diogel, effeithiol a chynaliadwy. Datblygwyd y Cynllun Comisiynu Integredig mewn ymateb i ganllawiau cynllunio'r GIG ac mae'n ystyried yr ystod eang o flaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau'r gweinidogion ac mae'n gwneud ymrwymadau sy'n ymwneud â'r ffordd y bydd yn sicrhau y bydd yn cyfrannu at bob un ohonynt.

**Ffigur 3 Cyfanswm gwariant WHSSC yn ôl maes rhaglen 2021/22**



Ar yr 11eg o Ionawr 2022, cymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor y Cynllun Comisiynu Integredig ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol. Mae'r cynllun yn amlinellu'r blaenoriaethau o ran comisiynu ar gyfer 2022-2025 ynghyd â'r gofynion ariannol. Mae Ffigur 3 yn rhoi trosolwg o 2021/22.

Mae cytundebau eraill yn eu lle gyda byrddau iechyd GIG eraill, Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ac Ymddiriedolaethau. Caiff y cytundebau eu hadolygu'n flynyddol. Oherwydd goblygiadau'n ymwneud â Covid-19 gweithredwyd cytundebau GIG 2021/22 mewn bloc er mwyn osgoi ansefydlogrwydd ymysg darparwyr a'u galluogi i ymateb i'r pandemig. Mae'r dull o weithio sy'n cael ei gynnig ar gyfer 2022/23 yn ymwneud ag ailsefydlu'r telerau contractyddol, ac mae'n ymgorffori 'adfer' yn dilyn Covid-19 yn y cytundeb. Mae lleihad sylweddol yng Nghytundeb Tymor Hir Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac mae lleihad o ran lefel y gwasanaethau yr oeddem yn eu darparu i'w poblogaeth yn sgil agor Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Mae rhai cytundebau allanoli yn parhau yn eu lle gan gynnwys gwasanaethau cataract, diagnosteg cardioleg a gweithgarwch endosgopi wedi'i fewnoli.

**Sefyllfa Isorweddol** nod y cynllun yw gwella sefyllfa isorweddol ein sefydliad yn sylweddol drwy ariannu ymrwymadau hanesyddol er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy. Er hyn mae'r cynllun yn cydnabod pwysau costau newydd, mae'n bosibl y bydd ymrwymadau a buddsoddiadau yn 2022/23 yn golygu y bydd y diffyg isorweddol yn lleihau ond ni fydd yn diflannu'n gyfan gwbl.

**Cyfalaf**

Rydym wedi cael ein hysbysu fod dyraniad y gyllideb Ddewisol ar gyfer 2022/23 wedi lleihau o 24% i £8.227 miliwn (roedd disgwyl i'r dyraniad fod yn £10.814 miliwn). Mae'r lleihad yn deillio o leihad sylweddol yng nghyllideb Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23. Pan mae'r llithriant £1.534 miliwn o froceriaeth Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan yn cael ei dynnu o'r gyllideb sydd wedi ei chadarnhau, dim ond £6.693m sy'n weddill i fynd i'r afael ag ymrwymadau presennol y cynllun Dewisol a chynigion newydd ar gyfer 2022/23.

Projectau Cyfalaf sydd â chyllid wedi ei gadarnhau – Cenedlaethol	£ miliwn
Ffioedd Gofal Sylfaenol – Tredegar – prif gynllun	10.228
Radiotherapi Lloeren – ffioedd FBC	0.120
Cyllid Adferiad Covid	1.200
Rhaglen Genedlaethol – Delweddu P2	4.765
Ysbyty Athrofaol y Faenor – gwaith sydd ar ôl	-2.232
<b>Cyfanswm AWCP wedi'i gymeradwyo</b>	<b>14.081</b>
<b>Prosiectau Cyfalaf a ragwelir sydd heb gyllid wedi'i gymeradwyo</b>	
Canoli Gwasanaethau'r Fron - YF	9.000
<b>Cyfanswm AWCP Posib</b>	<b>23.081</b>
Cyfalaf yn ôl disgrisiwn	2.227
<b>Cyfanswm Terfyn Adnoddau Cyfalaf</b>	<b>31.308</b>

At hyn, bydd dwy ffynhonnell gyfalaf ar gael i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o 2022/23:

- Cronfa Tai â Gofal – dyraniad dangosol o £11.208 miliwn ar gyfer Gwent yn 2022/23
- Cronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio Iechyd a Gofal Cymdeithasol - £50 miliwn yn 2022/23 ar draws Cymru ac yn tyfu i £70 miliwn yn 2024/25

Mae'r Gronfa Tai â Gofal yn barhad o'r Gronfa Gyfalaf ICF, ac mae'r Gronfa Cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysio Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a'r hyn sy'n ganolog iddi yw ailgydbwysio'r farchnad gofal cymdeithasol.

## Risgiau

- Ansicrwydd yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 a'i effeithiau ar wasanaethau, gweithlu a chyllid yn y tymor byr, canolig ac yn yr hirdymor
  - Cynlluniau Ymateb Lleol i Covid, mae'r costau yma wedi eu nodi ar wahân ac maent wedi eu heithrio o ran y bwriad i drafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru
  - Cynlluniau Ymateb Cenedlaethol i Covid, mae'r costau yma wedi eu nodi ar wahân ac wedi eu heithrio o'r cynllun gan fod cytundeb y bydd y gwir gost yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru
- Cyflawni cynlluniau penodol ar arbedion sy'n rhyddhau cyllid a gwella sefyllfa ariannol isorweddol y sefydliad
- Cyflawni gwelliannau pellach o ran osgoi costau ac arbedion
- Cyflawni'r rhaglen Dyfodol Clinigol ehangach o fewn yr adnoddau sydd ar gael
- Rheoli'r cynnydd mewn costau yn unol â'r lefelau a ragdybir isod, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein prif flaenoriaethau
- IFRS16 – Bydd IFRS (cyfrifydda les) yn cael ei gyflwyno o fewn GIG Cymru ym mis Ebrill 2022. Mae'r Bwrdd yn cymryd y bydd unrhyw oblygiadau o ran adnoddau refeniw neu gyfalaf yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru, ac na fyddant yn cael unrhyw effaith ariannol ar Fyrddau Iechyd nac Ymddiriedolaethau Iechyd ar draws Cymru
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y GIG – Cymerir y bydd unrhyw gynnydd o ran cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn cael ei gyllido o gyllid ychwanegol y Llywodraeth gan gynnwys newidiadau i gyfraddau gostyngiadau staff a chymelliadau penodol staff meddygol
- Bydd y ddyfarniad cyflog a newidiadau newydd i Delerau ac Amodau yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- Bydd y pwysau sy'n deillio o gostau eithriadol ynni, costau byw gwirioneddol ac Yswiriant Gwladol yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru
- Anallu i leihau nifer y gwelâu er mwyn cyrraedd y targed cyfleoedd
- Tâl Gwyliau (gor-amser gwirfoddol) – cymerir fod costau parhaus posib ymateb i'r rhwymedigaeth yma yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru
- Gwell Tâl Salwch – os oes penderfyniad yn cael ei wneud i barhau i ariannu'r elfen tâl yma, nid yw'r effeithiau wedi eu cynnwys yn y cynllun yma
- Darpariaeth o ran Gwyliau Blyneddol – wedi eu cytuno fel eithriad ar gyfer 2020/21 a 21/22 ac maent yn ddigonol o ran costau gwirioneddol a gronnir
- Nid yw effaith argyfwng yr Wcráin wedi ei ystyried fel rhan o'r asesiad yma

## Casgliad

Mae ein cynllun ariannol yn asesiad ariannol o'r cynlluniau gwasanaeth a'r cynlluniau gweithlu sydd wedi eu datblygu ar gyfer blynnyddoedd ariannol 2022/23-2024/25 ac maent yn cymryd y byddwn yn sicrhau cydbwysedd ariannol o fewn y cyllid sydd ar gael. Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod y risgiau o ran sicrhau arbedion a rhagdybiaethau o ran incwm. Mae goblygiadau cost rheoli pandemig Covid-19 yn ariannol yn cael effaith ar wasanaethau, ynghyd â chynnydd mewn costau ynni a chynnydd o ran Yswiriant Gwladol a fydd yn cael ei adolygu ymhellach a'i drafod gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses rheolaeth ariannol.

## 8. ATEBION RHANBARTHOL (cydweithio ar draws GIG Cymru)

Rydym yn cydnabod y gellid gwella ac optimeiddio nifer o wasanaethau wrth i Fyrddau lechyd gydweithio a chynllunio gyda'u gilydd er mwyn cynyddu'r buddion i'r boblogaeth ehangach.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i gydweithio'n frwd os yw hynny'n arwain at fwy o werth o ran darparu gwasanaethau clinigol

Mae timau cynllunio Byrddau lechyd yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn cytuno ar ddulliau gweithio cyffredin er mwyn mynd i'r afael â heriau strategol, gwneud cynnydd ar raglenni cydweithredol rhanbarthol sy'n mynd rhagddynt, rhannu profiadau/ arfer gorau ac ystyried cyfleoedd i weithio'n agosach yn y dyfodol er budd pawb.

Mae'r cylch cynllunio yma'n gweld cynnydd yn nifer y rhaglenni cydweithredol rhanbarthol sy'n cael eu symud yn eu blaen yn 2022/23 a thu hwnt, fel y gwelir isod. Mae'r rhaglenni yma'n fesur o'r cydweithio sy'n digwydd rhwng Byrddau lechyd ar draws y rhanbarth, ond, at hyn, maent hefyd yn dangos y 'normal newydd' sef cydweithio er mwyn optimeiddio capasiti er budd pobl Cymru yn wyneb effaith y pandemig ar wasanaethau diagnosteg a thriniaeth.

**Gwasanaethau Fasgwlaidd** yn 2021 cafwyd llwyddiant o ran datblygu cynlluniau ar gyfer lansio Rhwydwaith Fasgwlaidd DDdC yn dilyn ymgysylltiad ffurfiol. Yr uchafbwynt oedd cymeradwyo'r achos busnes rhanbarthol gan bedwar Bwrdd lechyd De Ddwyrain Cymru ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r rhaglen bellach wedi symud ymlaen i'r cam cyflwyno. Yn ystod y cam yma, gwnaed sawl asesiad o barodrwydd holl gydrannau'r rhwydwaith ym mis Chwefror 2022. Goruchwylir y broses yma gan Gyfarwyddwyr Meddygol a Phrif Swyddogion Gweithredu ar draws y tri Bwrdd lechyd sy'n darparu, a'r nod yw argymhell fod y gwasanaeth yn cael ei lansio ym mis Mehefin 2022.

**Offthalmoleg** mae pawb yn cytuno fod cydweithredu rhanbarthol yn chwarae rhan o fewn gwasanaethau offthalmoleg o ran optimeiddio ein cynlluniau ar y cyd ar gyfer adfer y gwasanaeth yn y tymor byr a sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir. Mae Trefniadau Rhaglen ffurfiol wedi cael eu sefydlu, a arweinir gan ein Bwrdd lechyd, er mwyn goruchwyllo ffrydiau gwaith a chyflawni amcanion a buddion.

Mewn gweithdy clinigol rhanbarthol diweddar, nodwyd y blaenoriaethau canlynol ac mae ffrydiau gwaith bellach yn eu lle er mwyn eu symud yn eu blaen. Mae cerrig milltir

allweddol ac amserlenni'n cael eu cymeradwyo ar hyn o bryd. Eleni, datblygiad allweddol arall o fewn offthalmoleg fydd rhoi cofnod cleifion electroneg cynhwysfawr ar waith. Mae'r cyfnod sicrhau ansawdd a phrofi'r system wedi ei ymestyn er mwyn sicrhau fod y cofnod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Bydd yn cael ei gyflwyno drwy gydol y flwyddyn.

**Trawsnewid Gwasanaethau Canser** rydym yn parhau i chwarae rôl weithredol o fewn y Grŵp Arweinyddiaeth Cydweithrediad Canser er mwyn gyrru, cymryd rhan a chefnogi trawsnewid gwasanaethau canser. Ar y cyd ac o fewn ein gwasanaethau ein hunain rydym yn ceisio darparu un llwybr canser, gwella safonau'n barhaus drwy ddiweddarau llwybrau, integreiddio gwasanaethau pan fydd hynny'n briodol a darparu mwy o ofal yn nes at y cartref. Ein nod yw darparu gofal o'r safon uchaf posibl i bawb sydd â chanser. Eleni rydym yn canolbwyntio'n benodol ar roi cam 1 o'r **model Gwasanaeth Oncoleg Aciwt Rhanbarthol (AOS)** ar waith a gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gweithredu AOS er mwyn cwblhau modelau gwasanaeth a'u rhoi ar waith ar gyfer cam 2 a 3. Rydym hefyd yn parhau i gydweithio gyda Ymddiriedolaeth Prifysgol Felindre ar Achos Busnes Llawn ar gyfer Uned Radiotherapi Lloeren yn Ysbyty Neuadd Nevill. Y bwriad yw ei gyflwyno ym mis Mai 2022.

**Gwasanaethau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC)** Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, yr Heddlu a Byrddau lechyd, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, wedi cytuno ar fodel gwasanaeth ar gyfer cyflawni gwasanaeth atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn Ne Cymru, Dyfed Powys a Gwent.

Mae'r model yn creu gwasanaeth mwy integredig, sy'n cael ei yrru gan anghenion dioddefwyr a chleifion, ac mae'n fodd o ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu safonau a chanllawiau clinigol, ffensiog ac ansawdd a diogelwch (gan gynnwys gofynion achrediad ISO newydd) sydd â threfniadau llywodraethu cadarn.

Mae Bwrdd Sicrwydd a Goruchwyllo, sy'n atebol i Gydweithredu GIG Cymru, wedi cael ei sefydlu. Mae cyfres o ffrydiau gwaith yn eu lle (llety, safonau, rotas clinigol, ymgysylltu, comisiynu/trefniadau ariannol). Bydd y rhaglen yn cyflawni cam cyntaf y gwaith o ganoli gwasanaethau aciwt/paediatreg yn hwb Caerdydd yn ystod hanner cyntaf 2022/23 a chwblhau safonau achrediad erbyn diwedd 2023/24.

**Llawdriniaeth Thorasig** yn dilyn gwaith ymgynghori cynhwysfawr, mae rhaglen gynllunio gydweithredol wedi ei sefydlu gan Fwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe er mwyn ad-drefnu'r ffordd y caiff gwasanaethau llawdriniaethol thorasig eu darparu a chreu canolfan llawdriniaeth thorasig ar un safle yn Ne Cymru – sef yn Ysbyty Morriston, Abertawe.

Mae ein Bwrdd lechyd yn chwarae rhan lawn yn elfennau clinigol, cynllunio a chyllid y rhaglen. Mae Achos Busnes Amlinellol yn cael ei baratoi a bydd yn barod yn gynnar yn

2022/23. Os y bydd yn cael ei gymeradwyo, bydd gwaith adeiladu yn cychwyn yn 2023/24 a bydd y gwasanaeth llawdriniaeth thorasig yn gweithredu'n llawn yn 2025/26.

**Patholeg a Meddygaeth Fanwl** mae gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda phartneriaid strategol allweddol ar draws y rhanbarth er mwyn creu campws meddygaeth fanwl ym Mharc Busnes Cardiff Edge. Gyrrwr allweddol o ran y gwaith yma yw creu Gwasanaeth Patholeg Rhanbarthol ar gyfer De Ddwyrain Cymru sydd wedi ei alinio â'r Cyfeiriad Strategol sydd wedi ei osod yn Natganiad o Fwriad Patholeg Cenedlaethol (2019). Byddai hyn yn dod â'n rhanbarth yn unol â'r rhaglen ARCH (Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd) yn Ne Orllewin Cymru a'r ddarpariaeth un gwasanaeth patholeg yng Ngogledd Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n arwain y gwaith yma ar ran y rhanbarth ac maent yn ceisio sicrhau adnoddau rheoli rhaglen priodol er mwyn symud ymlaen i gynllunio cam dau, yn benodol, llunio achos busnes aml-asiantaeth ar gyfer Cyfleuster Patholeg Rhanbarthol yn DDdC.

**Roboteg** mae'r cylch cynllunio yma, sy'n ystyried datblygiad parhaus Llawfeddygaeth drwy Gymorth Robot, yn rhan o strategaeth feiddgar i wella canlyniadau ar gyfer ein cleifion. Mae'n rhan o ystod eang o egwyddorion ail-gynllunio yng Nghymru sy'n ceisio optimeiddio'r defnydd o adnoddau iechyd cyfyngedig.

Mae'r Rhaglen Llawfeddygaeth drwy Gymorth Robot (NRP), y gyntaf o'i bath yn y byd ar gyfer Oncoleg y colon a'r rhefr, Gastroberfeddol Uchaf, Wrolegol a Gynaecoleg, wedi hen sefydlu fel rhaglen Cymru Gyfan. Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan a Bae Abertawe'n gweithio'n agosach o dan ei nawdd er mwyn cefnogi mabwysiadu roboteg yn gyflym. Cymeradwywyd achos busnes yn cefnogi comisiynu RAS yn Ysbyty Athrofaol Cymru gan ddefnyddio ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru gan eu Bwrdd ym mis Rhagfyr 2021.

Mewn cydweithrediad â hybiau diagnosteg, llwybrau a systemau iechyd sy'n sicrhau fod clefydau'n cael diagnosis cynnar, bydd y rhaglen RAS yn defnyddio technoleg sydd ar flaen y gad yn ein hysbytai. Mae Comisiwn Dyfodol Llawfeddygaeth Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wedi nodi RAS yn un o'r technolegau allweddol a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ein cleifion. Mae'n galluogi doctoriaid i berfformio triniaethau cymhleth gyda mwy o fanylder, hyblygrwydd a rheolaeth nag sy'n bosibl gyda thechnegau confensiynol. Fel arfer, caiff ei gysylltu â llawdriniaethau sy'n creu archoll mor fach â phosibl – triniaethau a wneir drwy ddefnyddio toriadau bach (twll clo).

**Diagnosteg (gan gynnwys Hybiau Diagnosteg Cymunedol ac Endosgopi)**

Cyn y pandemig, roedd yr angen am welliant radical i'r gwasanaethau diagnosteg yn eglur, mae Covid-19 wedi gwneud y problemau a oedd eisoes yn bodoli'n waeth, ac mae angen ehangu a diwygio'r gwasanaethau diagnosteg yn ystod y bum mlynedd nesaf er mwyn hwyluso ein adferiad yn dilyn pandemig Covid ac er mwyn diwallu cynnydd yn y galw ar draws sawl agwedd o'r maes diagnosteg. Bydd angen cyfleusterau ac offer newydd, ynghyd â chynnydd sylweddol i'r gweithlu diagnosteg, mentrau er mwyn sicrhau cymysgedd o sgiliau a sefydlu swyddi newydd sy'n gweithio ar draws ffiniau traddodiadol.

Byddwn yn sefydlu Hybiau Diagnosteg Cymunedol ar wahân i safleoedd aciwt a byddwn yn cydweithio ar draws y rhanbarth yn ogystal â gyda Byrddau Rhaglen er mwyn gwella capasiti a pherfformiad diagnosteg endoscopi.

### **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys**


Rhoddir cydnabyddiaeth i'r ffaith fod y gwasanaeth ambiwlans argyfwng/brys yn parhau i wynebu pwysau aruthrol ar draws De Ddwyrain Cymru ac rydym yn parhau i ymgysylltu'n llawn gyda Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys o ran comisiynu, monitro a defnyddio gwasanaethau ambiwlans argyfwng a brys ar draws y Bwrdd Iechyd.

Cymeradwywyd cynlluniau'r gwasanaeth o ran comisiynu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ym mis Hydref 2021, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ambiwllans gan gyfrannu at ffrydiau gwaith er mwyn sicrhau fod ymatebolrwydd y gwasanaeth ac ansawdd yn cael ei optimeiddio o fewn cyfyngiadau presennol wrth i ni symud tuag at 2022/23 a thu hwnt.

## FFRAMWAITH CYFLAWNI

Nid y ddogfen ei hun sy'n bwysig o ran cynllun, ond yn hytrach, y ffordd y rhoddir y cynllun ar waith. Mae partneriaeth wrth galon cyflawni. Byddwn yn gweithio gyda'n Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar oruchwylio'r ffordd y caiff y cynllun yma ei gyflawni, yn enwedig o ran sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull integredig o weithio ac o ran cadw golwg ar bob un o'n blaenoriaethau gydol oes. O fewn y Bwrdd lechyd rydym eisiau sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull eglur o ran sut yr ydym yn cyflawni'r rhaglenni sy'n flaenoriaethau craidd o fewn y cynllun yma. Rydym wedi sefydlu trefn gyflawni glinigol eglur, eleni rydym yn ei chryfhau ymhellach gyda chymorth adnoddau rheoli rhaglen penodedig er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn yr ydym yn ei fwriadu a hynny'n gyflym.

Mae'n bwysig bod gennym fethodoleg eglur sy'n ein galluogi i ddeall a ydym yn cyflawni ein strategaeth a'n cynllun neu peidio. Felly, byddwn yn rhoi Fframwaith Canlyniadau sefydliadol newydd yn ei lle yn ystod chwarter cyntaf 2022/23. Bydd y Fframwaith Canlyniadau yn casglu gwybodaeth ac yn rhoi sicrwydd o ran cyflawni, ac, yn bwysicaf oll, yn dangos y cysylltiadau sy'n bodoli ar draws ein system a'r ffocws ar ganlyniadau.



Bydd ein dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnir yn deillio o'n fframwaith adrodd bresennol, a byddwn yn creu mwy o gysylltiadau ar draws meysydd:

Maes	Adrodd/ Modelu	Pwyllgor y Bwrdd
<b>Gweithgaredd</b>	Adroddiadau Misol/ Adnewyddu Chwarterol MDS	Bwrdd
<b>Defnydd</b>	Adnodd Cynllunio Dynamig	Grŵp/Bwrdd Strategaeth, Cynllunio Partneriaethau a Llesiant
<b>Gweithlu</b>	Adrodd yn Fisol	Pwyllgor Pobl a Diwylliant
<b>Cyllid</b>	Adrodd ddiwedd y mis	Pwyllgor Archwilio, Cyllid a Risg
<b>Ansawdd a Phrofiad</b>	Adroddiad/ Archwiliad Clinigol QPS	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion

Bydd datblygu mesurau sy'n mesur canlyniadau pob blaenoriaeth gydol oes yn dibynnu ar waith cenedlaethol ar ddatblygu cyfres o fesurau ar gyfer y Gweindogion. Mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng canlyniadau sy'n deillio o'r system a chanlyniadau unigolion. Er enghraifft mae mesurau ar ganlyniadau megis canran o bobl sy'n dweud eu bod wedi rhoi'r gorau i ysmegu neu ganran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi colli pwysau sylweddol iawn mewn termau clinigol yn ddefnyddiol o ran deall effaith cynlluniau ar ganlyniadau y boblogaeth. Byddwn hefyd yn datblygu mesurau procsi ar ganlyniadau sy'n ymwneud â'n rhaglen Dyfodol Clinigol er mwyn deall eu heffaith ar ganlyniadau megis perfformiad o fewn gwasanaeth Cartref yn Gyntaf a'r newid i ganolbwyntio ar y gymuned a darparu gwasanaethau rhithwir. Bydd y mesurau yma'n ein galluogi i ddeall effaith ein cynllun ar ein poblogaeth a byddant yn cael eu defnyddio ochr yn ochr â dulliau adrodd traddodiadol.

Mae canlyniadau unigolion megis PROMs a PREMS yn adnoddau defnyddiol o fewn llwybrau cleifion unigol ac rydym yn canolbwyntio ar ddefnyddio mwy o'r mesurau yma o fewn llwybrau clinigol. Fodd bynnag, mae'n anodd defnyddio'r mesurau yma yn eu ffurf presennol i fesur canlyniadau'r system.

### Llywodraethu Effeithiol

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu o ran sicrhau fod y sefydliad yn gwireddu ei ddiben cyffredinol, yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau ar gyfer ein poblogaeth, ac yn gweithredu mewn modd effeithiol, effeithlon a moesol. Bydd

effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethol, felly, yn cael effaith sylweddol ar pa mor llwyddiannus y byddwn o ran gwireddu ein gweledigaeth, amcanion a'n nodau. Rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu'n barhaus ar ddatblygu ac aeddfedu ein systemau llywodraethu er mwyn sicrhau fod y sefydliad yn rhoi pwyslais cadarn ar drefniadau llywodraethu ac arwain integredig o ran ansawdd, cyllid a gweithrediadau, yn ogystal â rhoi pwyslais ar ddiwylliant, gwelliant a system y sefydliad. Wrth wneud hyn, rydym yn anelu i sicrhau fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn sefydliad sy'n cael ei arwain yn dda, sydd â strwythurau effeithiol, ystwyth a chymesur, prosesau a systemau mewn perthynas ag atebolrwydd, gan gynnwys llywodraethu a rheoli partneriaethau, trefniadau gweithio ar y cyd a chyd wasanaethau, sydd wedi eu gosod mewn modd eglur ac sy'n ddealladwy.

Yn sail i'n system rheolaeth fewnol mae gwaith Archwilwyr Mewnol, Archwiliadau Clinigol a Chyfarwyddwyr o fewn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal fframweithiau sicrwydd risg a rheolaeth fewnol. Rhoddir sylwadau ar hyn gan Archwilwyr Allanol yn eu Hadroddiad Archwilio Terfynol ac adroddiadau eraill. At hyn, defnyddir gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - eu gwaith wedi'i gynllunio yn ogystal a'u gwaith heb ei gynllunio – yn ogystal â gwaith rheoleiddwyr eraill.

YN 2021, gwnaeth Archwilio Cymru (Archwilio Allanol) Asesiad Strwythuredig a oedd wedi ei gynllunio fel modd o ysgwyddo gofynion statudol yr Archwilydd Cyffredinol o ran sicrhau fod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn diogelu'r economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trwy eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Deth Archwilio Cymru i'r casgliad, o ran llywodraethu, fod

*“gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol yn eu lle i gynnal busnes y Bwrdd a Phwyllgorau, fodd bynnag, mae cyfleoedd i asesu effeithlonrwydd y trefniadau yma. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgorffori ei strwythur llywodraethu newydd ac yn cryfhau ei fecanweithiau sicrwydd, ond bydd angen iddo eu monitro a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn y modd a fwriadwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu cyfnod o drosiant uchel ymysg ei uwch arweinwyr ar lefel y Bwrdd, ac wedi bod â nifer o swyddi Aelodau Annibynnol gwag. Bydd angen iddo reoli'r*

*risgiau sy'n gysylltiedig â'r trosiant yma; yn enwedig o ystyried yr heriau gweithredol sylweddol y mae'n ei wynebu.*

O dan drefniadau Uwchgyferirio ac Ymyrryd ar y cyd, mae Llywodraeth Cymru'n cwrdd ag Archwilio Cymru ac Arolygaeth Gofal Iechyd Cymru ddwywaith y flwyddyn i drafod asesiad cyffredinol pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig mewn perthynas â'r trefniadau. Ar sail trafodaeth grŵp tairochrog ar 2021/22, mae statws uwchgyfeirio Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn aros yn ddinewid - 'trefniadau rheolaidd'.

### **Rheoli a Lliniaru Risg**

Mae rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei nodau ac amcanion a darparu gwasanaethau a gofal diogel, o safon uchel i gleifion. Mae diweddarau'r ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â risg wedi bod yn flaenoriaeth allweddol. Mae gwaith helaeth wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i adolygu'r system rheoli risg gan gynnwys sefydlu Cymuned Ymarfer Rheoli Risg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno proses reoli risg eglur sy'n cynnwys trefniadau clir a phriodol o ran uwchgyfeirio i Bwyllgorau'r Bwrdd, ac mae uwch gyfarwyddwr gweithredol yn gyfrifol am reoli pob un o'r risgiau strategol. Caiff cofrestr risg y Bwrdd Iechyd ei ystyried yn rheolaidd gan y Bwrdd, ac mae adolygiad o risgiau bellach yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu agendau pwyllgorau'r Bwrdd. Tra roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 yn cael ei ddatblygu, adolygwyd risgiau'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn mynd i'r afael â'r risgiau ac yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei wneud i'w lliniaru.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu Fframwaith Sicrwydd ar gyfer y Bwrdd (BAF). Mae'r Fframwaith yn fodd o greu map strategol o'r sicrwydd mewn perthynas â chyflawni amcanion a blaenoriaethau blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i nodi a deall y prif risgiau o ran cyflawni ei amcanion strategol; derbyn sicrwydd fod trefniadau rheoli addas yn eu lle ar gyfer rheoli'r risgiau yma gan nodi meysydd sydd angen eu gwella (mae cynlluniau gweithredu mewn lle ac yn cael eu cyflawni); a rhoi asesiad o'r risg o ran cyflawni'r amcanion yn seiliedig ar y trefniadau rheoli a'r sicrwydd sydd yn eu lle. Yn y bôn, mae'r BAF yn alinio prif risgiau, prif drefniadau reoli, ei barodrwydd i dderbyn risg yn ogystal â sicrwydd ar drefniadau rheoli yn erbyn pob amcan drwy ddefnyddio'r model *Three Lines of Defence*. Daw bylchau i'r golwg pan mae trefniadau rheoli a sicrwydd

annigonol yn eu lle o ran lliniaru'r risg o beidio â chyflawni'r amcanion. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i ddatblygu a monitro cynlluniau gweithredu er mwyn cau'r bylchau.

Ar y cyd â datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddarau a chryfhau ei broses a'i systemau rheoli risg o fewn y sefydliad.

Mae rheoli risg yn un o brif flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn 2022/23 a thu hwnt. Bydd y BAF yn parhau i ddarparu fframwaith sy'n darparu gwybodaeth i'r Bwrdd ar brif risgiau sy'n bygwth gallu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni ei amcanion.

### **Blaenoriaethau Llywodraethu 2022/23**

Bydd Rhaglen Waith Llywodraethu'n cael ei sefydlu ar gyfer 2022/23 a fydd yn canolbwyntio ar gryfhau trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ymhellach, gan sicrhau eu bod yn gadarn ac yn bwrpasol. Bydd y rhaglen waith hon yn mynd i'r afael â meysydd gwella sydd wedi eu nodi yn ystod misoedd diweddar. Bydd y rhaglen yma wedi ei selio ar Archwiliadau Mewnol ac Allanol yn ogystal ag adlewyrchiad y Bwrdd ar ei effeithlonrwydd.

Bydd y Rhaglen Waith Llywodraethu yn cael ei monitro gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn chwarterol a bydd diweddariadau'n cael eu rhoi i'r Bwrdd yn rheolaidd. Bydd y Rhaglen Waith ar Lywodraethu ar gyfer 2022/23 yn cynnwys y blaenoriaethau canlynol:

#### **Sicrhau eglurder o ran Diben, Swyddogaethau, Cyfrifoldebau a System Atebolrwydd drwy:**

- Sefydlu Fframwaith Trefnu ac Atebolrwydd er mwyn sicrhau fod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud mewn modd integredig ar bob lefel o fewn y sefydliad, ynghyd â chryfhau rheolaeth fewnol
- Datblygu Fframwaith Llywodraethu Partneriaeth i gefnogi gwireddu uchelgais amcanion y Bwrdd pan mae gofyn gweithio gyda'n prif bartneriaid
- Cryfhau'r mecanweithiau ar gyfer cofnodi ac adrodd ar ddatganiadau diddordeb, rhoddion, lletygarwch a nawdd.

#### **Sicrhau Effeithlonrwydd y Bwrdd drwy**

- Adolygu a chryfhau Strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd, gan alinio anghenion y Bwrdd gyda'i seilwaith sicrwydd a chynghori

- Ail-sefydlu Strwythur Cynghori'r Bwrdd, hy y Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Sicrhau bod busnes y bwrdd yn cael ei gynnal mewn modd tryloyw ac agored
- Mynd ymhellach o ran gwella safon adroddiadau a gwybodaeth a ddaw i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
- Cyflwyno rhaglen ddatblygu flynyddol ar gyfer aelodau'r Bwrdd, gan ganolbwyntio ar sesiynau ymwybyddiaeth yn ogystal â hyfforddiant a dysgu er mwyn cefnogi datblygiad swyddogaethau unigol a'r Bwrdd fel tîm cydlynus
- Sicrhau fod rhaglen gynhwysfawr yn ei lle ar gyfer recriwtio ac anwytho Aelodau newydd o'r Bwrdd
- Hybu Aelodau'r Bwrdd i fod yn weledol, agored ac i ymgysylltu
- Adolygu a chyflwyno trefniadau ar gyfer datblygu, adolygu, cymeradwyo a chyhoeddi polisiau sydd wedi eu dirprwyo gan y Bwrdd
- Adolygu Swyddogaethau Pencampwyr y Bwrdd, gan sicrhau eglurder o ran eu diben a'u cyfrifoldebau

#### **Ymgorffori System Effeithiol ar gyfer Risg a Sicrwydd drwy,**

- Mynd gam ymhellach o ran cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Risg, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn bwrpasol ac yn parhau i gefnogi'r sefydliad i ymdrin â phrosesau rheoli risg mewn modd symlach
- Adolygu Datganiad Parodrwydd y Bwrdd i Dderbyn Risg, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu capasiti a gallu'r sefydliad i reoli risgiau
- Paratoi i gyflwyno system newydd o adrodd ar y gofrestr risg er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac wedi'i alinio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (drwy System Rheoli Cwynion Unwaith i Gymru [DATIX])
- Mynd gam ymhellach o ran ymgorffori Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd wedi'i alinio â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- Cyflwyno system Mapio Sicrwydd Sefydliadol ar lefel cyfarwyddiaeth fel sail i drefniadau rheolaeth fewnol.

